# Ffurflen Adrodd ar Gynnydd Grant i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2017- 2018

***(Blaen-daliadau ac Ôl-daliadau)***

| | |
|---|---|
| **Enw Sefydliad:** | Menter Môn |
| **Enw Cyswllt:** | Helen Williams |
| **Cyfeiriad Llawn y Sefydliad**: | Menter Môn Cyf, Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, LL77 7LR |
| **Cyfeiriad e-Bost**: | helen@mentermon.com |
| **Rhif Ffôn:** | 01248 725700 |
| **Swm y Grant** | £133,060.00 |
| **Cyfeirnod Grant** | GHHDG/16-17/19 |

**Cyfnod Hawlio:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ch1 - Ebrill – Mehefin** | X | **(Ffenestr ar gyfer hawlio cyllid) 5 Gorffennaf – 17 Gorffennaf 2017** |
| **Ch2 - Gorffennaf – Medi** | **X** | **(Ffenestr ar gyfer hawlio cyllid) 2 Hydref – 16 Hydref 2017** |
| **Ch3 - Hydref – Rhagfyr** | **X** | **(Ffenestr ar gyfer hawlio cyllid) 8 Ionawr – 19 Ionawr 2018** |
| **Ch4 - Ionawr – Mawrth** | **X** | **(Ffenestr ar gyfer hawlio cyllid) 2 Ebrill – 16 Ebrill 2018** |

| **Maes Strategol 1: Y Teulu**<br>Y Canlyniad a ddymunir -<br>Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn | | |
|---|---|---|
| **Targedau (ar ffurf CAMPUS)** | **Cynnydd** | **Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na** |
| 1. Cynnal stondin a sicrhau presenoldeb mewn hyd at 15 o ddigwyddiadau er mwyn cynnal sgwrs gyda hyd at 500 o rieni gan rannu gwybodaeth am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg erbyn Mawrth 2018.<br><br>Crynodeb cyflawniad:<br>Targed 1: Cyfanswm gweithgareddau = 20.<br>Cafwyd sgwrs un-i-un gan y swyddog teuluoedd gyda 911 o deuluoedd.<br>O'r rhain, 269 drwy weithgaredd Targed 1.<br>O'r 911 teulu, roedd 166 yn | **Chwarter 1**<br>13/4/2017 – Llyfrgell Llangefni – Hwyl y Pasg i'r teulu<br>Cydweithio gyda CSYM i gynnal stondin gwneud crefftau i blant a sgwrs am adnoddau a chyfleoedd yn y Gymraeg gyda rhieni. Wedi sgwrs un-i-un, cyswllt rhieni am fwy o wybodaeth: 10<br><br>27/4/2017 – Ysgol y Ffridd, Gwalchmai – noson llythrennedd i rieni – stondin i hyrwyddo apiau Cymraeg i'r cartref. Wedi sgwrs un-i-un, cyswllt rhieni am fwy o wybodaeth: 17<br><br>14/6/2017 – Noson Ffair Haf Ysgol Llangoed – stondin i hyrwyddo apiau Cymraeg i'r cartref a gweithgareddau eraill MIM i deuluoedd. Wedi sgwrs un-i-un, cyswllt rhieni am fwy o wybodaeth: 9<br><br>15/6/2017 – Ymwybyddiaeth Iaith i rieni Pentraeth #1 – cyflwyniad i rieni newydd y Meithrin ar fanteision dwyieithrwydd ac adnoddau i gefnogi teuluoedd di-Gymraeg. Cyswllt rhieni am fwy o wybodaeth: 10<br><br>21/6/2017 – Diwrnod Hwyl MYM Môn Talwrn – stondin i gyflwyno apiau Cymraeg, manteision dwyieithrwydd ac adnoddau i gefnogi teuluoedd di-Gymraeg. Cyswllt rhieni am fwy o wybodaeth: | |

| | | |
|---|---|---|
| deuluoedd dwyieith Cymraeg/Saesneg. | 22/6/2017 – Ymwybyddiaeth Iaith i rieni Pentraeth #2 – cyflwyniad i rieni newydd y Derbyn ar fanteision dwyieithrwydd ac adnoddau i gefnogi teuluoedd di-Gymraeg. Cyswllt rhieni am fwy o wybodaeth: 8<br><br>22/6/2017 – Ymwybyddiaeth Iaith i rieni Biwmares – cyflwyniad i rieni newydd y Meithrin & Derbyn ar fanteision dwyieithrwydd ac adnoddau i gefnogi teuluoedd di-Gymraeg. & helfa drysor Magi Ann i'r plant. Cyswllt rhieni/gofalwyr am fwy o wybodaeth: 11. | |
| | **Chwarter 2**<br><br>11/7/2017 – Ymwybyddiaeth Iaith i rieni Rhoscolyn – cyflwyniad i rieni newydd y Meithrin & Derbyn ar adnoddau i gefnogi teuluoedd di-Gymraeg. Cyswllt rhieni/gofalwyr am fwy o wybodaeth: 14 – dim un yn gartref uniaith Cymraeg, felly cyfle da i gyflwyno manteision dwyieithrwydd ysgolion Môn/Cymru.<br><br>28/7/2017- Diwrnod hwyl teulu Llangefni. Cydweithio gyda CSYM gan ddarparu stondin ac ymddangosiad Selog fel cyfraniad i'r diwrnod o hwyl yn y Gymraeg. Cyflwyno ystod o weithgareddau Cymraeg MIM & eraill i'r teuluoedd & arddangos adnoddau Cymraeg i'r cartref. [Rhieni wedi gofyn am fwy o wybodaeth ar ôl cyflwyniad ar ôl ysgol un-i-un: 20. Data Trydar: argraffiadau 1,3455 & Ymwneud (total engagement) 56. Facebook: cyrraedd 5800 & Clicio ar y neges 905 & Rhannu/ ymateb 50.]<br><br>**1/8/2017 - Diwrnod Hwyl i'r Teulu Llangefni**<br>Ymuno â Dechrau'n Deg i gynnal hwyl teulu gyda Selog a Magi Ann, helfa drysor, & stondin ymwybyddiaeth iaith ac adnoddau fel rhan o ddiwrnod hwyl i deuluoedd ardal ddifreintiedig Llangefni. | |

| | | |
|---|---|---|
| | ofyn am fwy o wybodaeth: 4. Data Facebook: cyrraedd 1000 & Clicio ar y neges 371 & Rhannu/ ymateb 27.]<br><br>**21/9/2017 – Ymwybyddiaeth Iaith Rhieni Llangoed**<br>Ymuno mewn noson a drefnwyd gan yr ysgol i hyrwyddo llythrennedd ac ymwybyddiaeth iaith i rieni.<br>[Rhieni yn gofyn am fwy o wybodaeth gyda chyswllt i ddilyn: 6] | |
| | **Chwarter 3**<br><br>**Noson Agored Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch : 17/10/17**<br>Ymuno yn nhrefniadiau'r Ysgol i wahodd plant blynyddoedd 5 a 6 a'u teuluoedd i'r Ysgol i gael blas ar ddarpariaeth yr Ysgol a'r dalgylch. Cyfle i hyrwyddo darpariaeth Theatr Ieuenctid Môn, Bocsŵn, apiau Selog a Magi Ann ac codi ymwybyddiaeth cyffredinol am waith y Fenter. Wedi sgwrs un-i-un, cyswllt rhieni am fwy o wybodaeth: 10<br><br>**23/10/17 & 24/10/17 – dwy sesiwn ymwybyddiaeth iaith i rieni Ysgol Cybi newydd**<br>Cydweithio gyda'r pennaeth ar ddechrau'r flwyddyn mewn ysgol fawr newydd sy'n uno sawl ysgol flaenorol lle na fu gymaint o brif-ffrydio'r Gymraeg. Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, disgwyliadau'r llywodraeth, a'r ystod eang o adnoddau sydd ar gael i deuluoedd i gefnogi eu plant i ddysgu a mwynhau'r Gymraeg. Sgyrsiau un-i-un wedi teilwrio i anghenion y teulu.<br>[Rhieni / gofalwyr yn gofyn am fwy o wybodaeth gyda chyswllt digidol i ddilyn 49 (Iaith cartref 28 Saesneg, 20 dwyieithog, 1 Cymraeg)]<br><br>**26/10/17 – stondin yn noson rieni Ysgol Rhosneigr**<br>Cyfle i sgwrsio i ddyfnder gyda rhieni un-i-un am fanteision dwyieithrwydd a'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd/rhieni i gefnogi plant yn dysgu Cymraeg drwy'r gyfundrefn addysg.<br>[Rhieni / gofalwyr yn gofyn am fwy o wybodaeth gyda chyswllt digidol i ddilyn 10 (Iaith cartref 7 | |

| | | |
|---|---|---|
| | Almaeneg/Saesneg, 1 dwyieithog 'tipyn bach o Gymraeg', 1 Cymraeg)]<br><br>**14/11/17 & 21/11/17 – Ysgol Cornhir Llangefni - dwy sesiwn**<br>Hyrwyddo adnoddau Cymraeg i deuluoedd i rieni yn ystod eu noson rhieni craffu ar lyfrau. Felly yn bennaf hyrwyddo adnoddau i'r cartref megis apiau Magi Ann a Selog, hyrwyddo manteision apiau ar wefan y llywodraeth, rhaglenni Cymraeg i blant S4C, digwyddiadau & chyfleoedd cymdeithasol lleol Menter Iaith Môn a phartneriaid megis yr Urdd. Sgyrsiau un-i-un.<br>[Rhieni / gofalwyr yn gofyn am fwy o wybodaeth gyda chyswllt digidol i ddilyn 22 (Iaith cartref 3 Saesneg, 4 dwyieithog, 11 Cymraeg, 1 dwyieithog Cymraeg/Portwgeeg, 1 tair ieithog Cymraeg/Saesneg/Almaeneg)]<br><br>**1/12/17 – Noson Rieni Parc y Bont Llanddaniel**<br>Cynnal stondin yn ystod eu ffair Nadolig i hyrwyddo adnoddau i gefnogi datblygiad Cymraeg y plant megis apiau, llyfrau, rhaglenni, a digwyddiadau Cymraeg. Sgyrsiau un-i-un. [Rhieni / gofalwyr yn gofyn am fwy o wybodaeth gyda chyswllt digidol i ddilyn 12 (Iaith cartref 1 Saesneg, 7 dwyieithog, 4 Cymraeg)]<br><br>**15/12/17 – Stondin yn Sioe Cyw – Ysgol Uwchradd Llangefni**<br>Cyflwyno rhieni a'u plant i apiau Cymraeg Selog a Magi Ann. Nifer fawr yn deuluoedd Cymraeg ac yn gyfarwydd â un neu ddau o'r apiau ond cyfle i gyflwyno i rieni newydd i apiau Cymraeg hefyd. [Rhieni / gofalwyr yn gofyn am fwy o wybodaeth gyda chyswllt digidol i ddilyn 11 (Iaith cartref 1 dwyieithog, 10 Cymraeg)]<br><br>**13/12/17 – Rhieni Uned Trochi Iaith Llanfawr**<br>Mae'r disgyblion trochi iaith yno am dymor cyn gadael i ddychwelyd i'w hysgolion arferol – megis eu diwrnod gadael oedd hwn a chyfle i rieni weld eu cyrhaeddiad. Dyma'r tro cyntaf i ni ymuno yn yr achlysur a gobeithiwn wneud hyn yn rheolaidd o hyn ymlaen er mwyn darbwyllo rhieni i gefnogi eu plant gyda'u sgiliau iaith Gymraeg. | |

| | | |
|---|---|---|
| | falwyr yn gofyn am fwy o wybodaeth gyda chyswllt digidol i ddilyn 10 (Iaith cartref 7 Saesneg, 3 dwyieithog)] | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**5/3/18 - Rhieni Talwrn**<br>Hyrwyddo adnoddau a gweithgareddau cymunedol i rieni Ysgol Talwrn er mwyn iddynt adnabod cyfleoedd ôl-ysgol i ddefnyddio adnoddau Cymraeg adref ac ymuno yn y gweithgareddau Cymraeg cymunedol megis Clapio Wyau. Sgwrs 1-i-1 gyda 8 teulu, cais gan 1 teulu i dderbyn gwybodaeth am apiau, mwyafrif eisoes wedi derbyn gwybodaeth am apiau Cymraeg gan gynnwys Selog & Magi Ann. | |
| 2. Cynnal 15 o weithgareddau cymdeithasol i 450 o rieni er mwyn codi ymwybyddiaeth rheini am y cyfleoedd cymdeithasol a'r gefnogaeth sydd ar gael erbyn Mawrth 2018.<br><br>50 o'r rhieni hyn i fod yn dadau, ac yn cael eu targedu ar lefel 1:1<br><br>**Chwarter 4**<br>Crynodeb cyflawniad Targed 2: Mynychodd dros 500 o bobl dros 28* o weithgareddau. | **Chwarter 1**<br><br>10/4/2017 – Carreglefn Clapio Wyau – Neuadd Gymunedol yr Ysgol a'r pentref - gweithgaredd cymdeithasol i deuluoedd. Niferoedd: Plant 27 Rhieni/Gofalwyr 13, Cartrefi 4.<br><br>10/4/2017 – Rhosybol Clapio Wyau Neuadd Gymunedol ger yr Ysgol & pentref – gweithgaredd cymdeithasol i deuluoedd. Niferoedd: Plant 32 Rhieni/Gofalwyr 12, Cartrefi 4.<br><br>11/4/2017 – Brynsiencyn Clapio Wyau Neuadd & pentref – gweithgaredd cymdeithasol i deuluoedd. Niferoedd: Plant 15 Rhieni/Gofalwyr 7, Cartrefi 4.<br><br>12/4/2017 – Talwrn Clapio Wyau Neuadd & pentref gweithgaredd cymdeithasol i deuluoedd. Niferoedd: Plant 13 Rhieni/Gofalwyr 10, Cartrefi 4.<br><br>12/4/2017 – Llynfaes Neuadd Bodwrog & pentref – gweithgaredd cymdeithasol i deuluoedd. Niferoedd: Plant 27 Rhieni/Gofalwyr 14, Cartrefi 4 | |

| | | |
|---|---|---|
| Targedwyd 405 o'r teuluoedd yn uniongyrchol gyda'r neges am bwysigrwydd y Gymraeg i'w plant ac am adnoddau a chyfleodd.<br>Dynion 1:1 = 117 (55 yn ddynion Chwarter 1&2, 34 yn ddynion yn Chwarter 3, 28 yn ddynion yn Chwarter 4)<br><br>(*sylwer fod nifer y digwyddiadau ymhell dros y darged a fod 5 gweithgaredd clapio wyau Pasg 2017 yna 5 gweithgaredd clapio 2018 wedi digwydd yn yr un flwyddyn ariannol - ni fydd digwyddiadau clapio wyau yn ymddangos yn adroddiad 2018-19 gan y bydd Pasg 21/4/19). | Data Clapio Wyau 2017:<br>Pentref x 5,<br>Plant x 114,<br>Rhieni/Gofalwyr 64 (56 wedi cofrestru e-byst, Cartrefi 20.<br>Adborth Plant (80): 100% wedi rhoi 10/10 (64) neu 9/10 (16).<br>Adborth Rhieni / Gofalwyr: 88% wedi rhoi 10/10 a 11% wedi rhoi 9/10. 99% yn dweud fod y gweithgaredd yn effeithiol " i godi hyder & rhoi cyfle defnyddio'r Gymraeg i blant" 100% yn dweud ei fod "yn gyfraniad i'r defnydd o Gymraeg yn y gymuned".<br><br>**10/6/2017 – Bore Hwyl i Deuluoedd Gŵyl Cefni –**<br>Sioe gan gymeriadau S4C Dona Direidi, Lobs & Seren, Superted, Sali Mali, Magi Ann & Selog. 400 o docynnau wedi eu dosbarth gyda rhestr aros - dros 100 yn rhieni/ofalwyr. | |
| | **Chwarter 2**<br>**17/7/2017 -** Parti Rhieni a Phlant MYM Amlwch Diddanu'r plant a'r rhieni drwy gyd-ganu caneuon o ap Selog a chael hwyl yn dorfol gyda'r rhieni cyn cael cyfle un-i-un yn ystod y parti dilynol i adnabod cyfleoedd i ehangu defnydd Cymraeg eu teuluoedd. Nifer y rhieni a gysylltwyd i ddilyn trwy e-bost gyda mwy o wybodaeth: 22. [Data Trydar: argraffiadau 1,084 & Ymwneud (total engagement) 16. Facebook: cyrraedd 1600 & Clicio ar y neges 448 & Rhannu/ ymateb 29.]<br><br>**17/7/2017 -** Annog defnydd mwy eang o apiau Cymraeg gan deuluoedd Môn. Defnyddio ap Magi Ann a'i llwyddiant cenedlaethol gan bortreadu'r cymeriad gyda'n harweinwyr democrataidd a hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol: Rhun ap Iorwerth AC, Albert Owen AS, Llinos Medi Huws Arweinydd CSYM. [Data Trydar: argraffiadau 7,678 & Ymwneud (total engagement) 160. Facebook: cyrraedd 1000 & Clicio ar y neges 64 & Rhannu/ ymateb 12.] | |
| | **Chwarter 3** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **lan-llyn**<br>Trip i wneud 4 gweithgaredd antur teuluol yn y gwersyll i ddathlu diwrnod Su'mae Shwmae. Roedd 32 yn mynychu o 11 teulu, gyda 14 oedolyn (4 dyn) a 18 o blant. Diwrnod cyfan yn eu cwmni gyda chyfle am sgwrs un-i-un gyda phob oedolyn ar y bws ac yn ystod y gweithgareddau. Adroddiad adborth amgaeedig.<br>**Sylwadau yn cynnwys:** *"I had the best day ever./ Wedi mwynhau yn fawr - diolch am drefnu, a diolch am fod mor dda hefo'r pant. Trip dros nos i Glan-llyn. / Diwrnod ardderchog i'r teulu. / Pobl yn garedig. Gweithgareddau yn wych. / Rydym wedi gwneud ffrindiau newydd wrth ymlacio i hwyl y diwrnod. / Excellent opportunity. Organisers were friendly and welcoming. Thank you very much to the organisers."*<br><br>**21/10/17 - Bore Hwyl aml-chwaraeon & stori & chân Porthaethwy**<br>Gweithgaredd newydd i dargedu ardal Porthaethwy gan ein bod wedi adnabod gwendid yn y ddarpariaeth Gymraeg yn y teuluoedd yma (y Ti&Fi yn gweithredu'n Saesneg ar y cyfan a dim cyfle i rieni gynnal ei gilydd a'u plant trwy gyfrwng y Gymraeg). Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Urdd iddynt ddarparu'r mewnbwn chwaraeon a denu mwy o dadau.<br>Mynychodd 18 o blant y sesiwn gyda 18 o oedolion. Cafwyd rhieni yn cefnogi eu plant yn y rygbi a phêl-droed bach a hefyd yn cymryd rhan yn y sesiwn stori & chân.<br>Roedd modd i Menter Iaith Môn gyflwyno ap Selog & Magi Ann gan annog rhieni i'w lawrlwytho a'u defnyddio adref.<br>**Yr elfennau sy'n cael effaith ar y Gymraeg yw: 1) plant yn dysgu geirfa chwaraeon Cymraeg yn ifanc 2) Cymdeithasu rhwng rhieni yn y Gymraeg gydag anogaeth ac awyrgylch gynhaliol i ddysgwyr 3) codi hyder rhieni, gan gynnwys dynion, i ddefnyddio adnoddau Cymraeg gyda'u plant adref. Gweler adroddiad adborth ee: 'My daughter was translating instructions for me. Magical!'**<br>**18 o oedolion (8 o dadau) & 18 o blant.**<br><br>**25/10/17 - Merched y Wawr Caergybi** | |

| | | |
|---|---|---|
| | ...edu neiniau i hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg ymysg eu teuluoedd a'u cydnabod yng Nghaergybi drwy gyflwyno sesiwn ymwybyddiaeth iaith, cyflwyniad i ddarpariaeth gefnogol Menter Iaith Môn, a chyfle i weld apiau Cymraeg ar waith i gyflwyno i wyrion a'u teuluoedd. Cyflwyniad i 8 o oedolion.<br><br>**30/10/17 - Calan Gaeaf Llynfaes**<br>Cynnal digwyddiad o ymgynnull yn y neuadd addurnedig am grefftau, bwyd a hwyl yn y Gymraeg, ac o ganu o ddrws i ddrws yn Llynfaes, yn un mae Menter Iaith Môn wedi ei feithrin a'i chynnal mewn partneriaeth a phwyllgor y neuadd goffa. Mae'n weithgareddau hwyliog sy'n gyfrwng i siaradwyr Gymraeg, dysgwyr a newydd-ddyfodiaid fwynhau cymdeithasu a chryfhau'r cyswllt cymunedol a'r ymwybyddiaeth o'r iaith a thraddodiadau Cymreig. Yr elfennau sy'n cael effaith ar y Gymraeg yw: 1) tynnu preswylwyr di-Gymraeg a newydd-ddyfodiad i weithgaredd cyfrwng Cymraeg pentrefol drwy sgwrsio wrth fynd o ddrws i ddrws 2) teuluoedd ifanc yn mwynhau gweithgaredd Cymraeg - crefftau, canu, hel da-das, swper, gemau a stori 3) cefnogi pwyllgor lleol gan gyfrannu at wead cymunedol y pentref drwy ddenu rhieni newydd fydd yn arwain gweithgareddau i'r dyfodol. Gweler yr adroddiad ar y digwyddiad. Addurnwyd y neuadd a pharatowyd y bwyd gan bump o wirfoddolwyr cymunedol.<br>Mynychodd dros 60 o bobl y digwyddiad, 34 o blant a chofrestrwyd 17 o deuluoedd ifanc. Roedd 26 o oedolion (10 o ddynion).<br><br>**20/11/17 – Cynllunio Calan Gaeaf posib i Llanddona 2018**<br>Cynnal cyfarfod cychwynnol gyda Ffermwyr Ifanc Llangoed & Cwlwm Seiriol – i drafod gweithio mewn partneriaeth i drefnu Nos Galan 2018 yn Llanddona ar thema 'Gwrachod Llanddona'. Y partneriaid yn mynegi parodrwydd i gydweithio.<br><br>**25/11/17 - Bore hwyl a chrefftau'r Nadolig a rygbi Porthaethwy**<br>Cyfle i sefydlu gweithgareddau hwyl achlysurol ym Mhorthaethwy yn dilyn llwyddiant y treial cyntaf. Y tro hwn roedd y ffocws ar Rygbi ac ar grefftau'r Nadolig, ac ar lafar caneuon a llyfrau | |

| | | |
|---|---|---|
| | gynnwys gwahoddiad i 2 fusnes lleol werthu nwyddau sy’n cefnogi’r Gymraeg yn y cartref sef Awen Menai i werthu llyfrau Alun Arth & Rwdlan i gyd-fynd ag ap Selog a Silwli i werth ‘Seren Swynol’ yr unig degan i fabis sy’n canu caneuon Cymraeg.<br>25 o blant 21 oedolyn (6 newydd - 2 tad)<br><br>**7/12/17 - Lansio llyfr Mari Lovgreen ‘Bren Babi’ Porthaethwy**<br>Cyfle am noson hwyliog yn dathlu rhiantu trwy gyfrwng y Gymraeg i drafod llyfr am fagu babi gan Mari Lovgreen. Cyfle i’r prif ofalwyr rannu profiadau onest heb ddelfrydu rhiantu a theuluoedd.<br>14 o rieni yn bresennol.<br><br>**18/12/17 - Noson Ffilm- Llyfrgell Llangefni**<br>Cyfle i gyflwyno traddodiadau’r Nadolig yn y Gymraeg yn y gymuned yn Llangefni mewn partneriaeth gyda’r llyfrgell. Cyflwyno ap Selog a chanu caneuon Nadolig, arddangos ffilm Siôn Blewyn Coch ac ymddangosiad Siôn Corn i sgwrsio gyda’r plant yn y Gymraeg yn unigol. Yn arferol mae Sadwrn yn well ond oherwydd bod y llyfrgell yn cau am y Nadolig Sadwrn cynta’r gwylia trefnwyd cynnal y digwyddiad ar noson ysgol. Dosbarthwyd 54 o docynnau a chafwyd cynulleidfa hwyliog er llai o nifer nag ar y dydd Sadwrn 2016. Calonogol oedd bod y mwyafrif o’r gynulleidfa leol yma bellach yn gyfarwydd ag ap Selog (wedi ei hyrwyddo’n eang ymysg y plant a’r rhieni yn y ddwy ysgol leol, Dechrau’n Deg, Meithrinfa MM) - dim ond 3 teulu oedd heb glywed am ap Selog ac yn awyddus am wybodaeth i lawrlwytho’r ap. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**9/1/18**<br>**Gweithgaredd cymdeithasol yn y Gymraeg i rieni Llangoed am 5 wythnos**.<br>Targedwyd yr ardal wedi i gynghorydd sir a llywodraethwr yr ysgol gynradd alw am help yn y Fforwm Iaith, gan nad oedd dim yn y Gymraeg i deuluoedd yn yr ardal. Bu i ni fanteisio ar y sesiynau ffitrwydd i gyflwyno’r Gymraeg yn gymdeithasol (y mwyafrif yn ddi-Gymraeg) a hefyd i | |

vyniad ar apiau Cymraeg i gefnogi datblygiad plant a manteision trochi yn y Gymraeg er mwyn datblygiad dwyieithog y plentyn. 8 teulu yn manteisio ar y cyfle (8 oedolyn 6 plentyn) [Adborth positif ee "The fitness aspect was great, good to be able to bring the younger kids, learning new Welsh words that I can actually use with my kids is useful." A'r manteision yn ôl un arall oedd: "Fitness, socialisation & Welsh communication."]

1**1/1/18**
**Gweithgaredd cymdeithasol i rieni a phlant Niwbwrch am 5 wythnos**.
Targedwyd yr ardal wedi deall yn ein Fforwm Teuluoedd nad oedd darpariaeth cyn-ysgol pwrpasol Cymraeg yn y pentref gyda'r Mudiad Meithrin yn bwriadu sefydlu Cylchyn y dyfodol agos. Mynychodd 8 teulu (8 oedolyn 7 plentyn) y sesiynau oedd yn defnyddio ffitrwydd fel cyfrwng i drosglwyddo hyder yn y Gymraeg. Y mwyafrif yn gallu'r Gymraeg ond heb nabod ei gilydd gydag o leiaf 3 yn siarad Saesneg gyda'u plant - felly gall y cyflwyniad i bwysigrwydd trochi yn y Gymraeg fod yn sbardun i waith dilynol y Mudiad Meithrin. Adborth budd i deuluoedd yn cynnwys: "Ymarfer corff yn y Gymraeg", ac i fam newydd yn yr ardal "Moved to Anglesey in Dec. Met other parents which also helped gain more info on local fitness and to gain more confidence for myself and my daughter with speaking and understanding Welsh. The apps are brill! My daughter loves them and its also helped me too."

**12/2/18 - Gweithgaredd Teulu Llannerch-y-Medd**
Prynhawn yn yr awyr agored wrth fynd am dro teuluol a rhannu gwybodaeth am yr ardal leol, hanes gan gynnwys effaith Brad y Llyfrau Gleision wrth drafod iaith y cerrig beddi yn Eglwys St Ceidio, planhigion y perthi, bwyta'n iach a hwyl cadw'n heini i gerddoriaeth Rimbojam. Mwyafrif yn medru Cymraeg, 8 teulu wedi mynychu (8 oedolyn 11 plentyn). Adborth yn cynnwys: "Wedi mwynhau yn arw cael cyfle i fod allan a gem i gadw'r hwyl fynd mlaen ar y ffordd. D wrth ei bodd gyda dawnsio a chwarae pêl, dwy awr gwych a hwylus iawn." "Diolch yn fawr am y cyfle i gymdeithasu a cael cerdded yn yr awyr iach. Roedd y tywydd yn oer ond y gwmnïaeth yn gynnes iawn a'r sgwrs yn ddifyr.", "Pnawn difyr gyda cwmni da mewn Cymraeg."

**12/2/18 - Bore Hwyl Amlwch**
Gweithio mewn partneriaeth gyda CSYM wrth gyfrannu i'w bore hwyl i'r teulu gan gynnig stondin a gweithgareddau hyrwyddo adnoddau a gweithgareddau Cymraeg i deuluoedd. Sgwrs 1:1 gyda nifer o deuluoedd a 14 yn gofyn am fanylion pellach.

**14/2/18 - Gweithgaredd Teulu Talwrn**
Prynhawn i gefnogi'r gymuned gyda gweithgaredd awyr agored (bu rhaid addasu oherwydd y tywydd i fod yn y neuadd a'r cae chwarae). Defnydd o gemau, offer chwarae, helfa drysor a cherddoriaeth i drosglwyddo arferion chwarae yn y Gymraeg. Mynychodd 6 oedolyn (3 heb Gymraeg) ac 14 o blant. Gyda'r adborth yn cynnwys: "Plant cael cymysgu yn y gwyliau. Sesiwn da iawn."
"Cyfle i gyd-chwarae hefo'r plant mewn sesiwn strwythuredig. Plant wedi mwynhau'n arw tra'n cael ymarfer corff run pryd. Diolch yn fawr - sesiynau i'r teulu yn rhai hynod o werthfawr." A chan riant newydd i'r Gymraeg: "Really nice social opportunity - to get out seeing local village. 10 out of 10 for H - she is brilliant at her job, very enthusiastic & nice to my shy son."

**15/2/18 - Gweithgaredd Teulu Llangoed**
I gloriannu'r gwaith gyda'r sesiynau rhieni cynhaliwyd prynhawn yn yr awyr agored i deuluoedd gan gynnwys am dro at Gastell Lleniog, a chyfleu agweddau o hanes, yn ogystal â chyflwyniad i apiau Cymraeg ac ymweliad gan Selog. Mynychodd 8 teulu (dim ond un uniaith Gymraeg, 3 dwyieithog, 4 uniaith Saesneg) (10 oedolyn a 15 o blant). Cymhelliant y mwyafrif oedd: "Meeting new parents and mixing outdoors." Gydag adborth yn cynnwys: "Cyfle gwych i fynd am dro a darganfod llwybrau newydd. Cefndir / hanes y lleoliad yn cael ei gyfleu yn effeithiol"

**20/2/18 – Gweithgaredd cymdeithasol i rieni Bryngwran am 5 wythnos**
Dewiswyd safle cyfleus i ardal Bodedern/Bryngwran er mwyn i rieni fanteisio ar sesiynau i gymdeithasu a chael gweithgaredd ffitrwydd yn y Gymraeg. Cyflwynwyd manteision trochi yn y

defnyddio apiau a gwylio rhaglenni Cymraeg gyda'r plant. Mynychodd 17 (17 oedolyn 13 plentyn) un o leiaf o'r sesiynau gyda 4 a fedrai'r Gymraeg yn sgwrsio gyda'i gilydd/plentyn yn Saesneg. Cafwyd sesiwn ar apiau, pwysigrwydd trochi er mwyn meithrin dwyieithrwydd ayb.

Anodd mesur yr effaith tymor hir ar y 4 fam ond cafwyd adborth ganddynt am y manteision megis: "*Improve fitness, socialise, Welsh language, meet other people", "Opportunity to try something new and help my daughter develop her Welsh language*." (**Amlygu'r angen i godi ymwybyddiaeth yn gynt - adeg beichiogrwydd - am fanteision siarad Cymraeg gyda phlentyn i'r rhai sy'n medru**)
Agwedd cadarnhaol iawn gan fam ddi-Gymraeg sydd o ganlyniad i'r sgwrs yn fwy hyderus i ddanfon ei phlentyn i'r ysgol bentref a chael ei drochi yn y Gymraeg yn y CS: benefits: "*Gain motivation and also to be amongst the Welsh language - to help my son and I to learn. I feel happier to undertake physical activities / exercise with myself and Josh. I'd love more sessions like this - 5 weeks goes so fast.*"

**22/2/18 – Gweithgaredd cymdeithasol i rieni Benllech am 5 wythnos**
Targedwyd yr ardal oherwydd i'r Cylch Meithrin gau ers dros flwyddyn ac felly diffyg darpariaeth cyn-ysgol yn y Gymraeg. Mynychodd 8 teulu & 2 gofalwraig (10 oedolyn 8 plentyn). Dim ond un teulu Cymraeg y gweddill yn ddwyieithog neu yn Saesneg. Defnyddiwyd ffitrwydd fel cyfrwng cyflwyno'r iaith yn ogystal â chyflwyniad dwyieithrwydd/trochi/apiau Cymraeg. Yn anuniongyrchol roedd hefyd yn fodd i drosglwyddo sgiliau cefnogi plant dwyieithog i 2 warchodwraig ac un rhiant maeth di-Gymraeg.
**Roedd y manteision iddynt yn cynnwys**: "*Work on fitness, close to home, work on Welsh speaking.", "Cadw'n hieni & chael mwy o egni & chymdeithasu yn y Gymraeg.", "Interaction for T, Welsh language, enjoyment & social.", "I ymarfer fy Nghymraeg a chyfle i gyfarfod pobl eraill yn yr ardal lleol, hefyd i fy mab ddysgu sgiliau newydd yn y lle wahanol*."

**23/2 Gweithgaredd cymdeithasol i rieni Amlwch am 5 wythnos**
Chwarae ioga creadigol yn y Gymraeg i 12 o deuluoedd (12 oedolyn & 14 plentyn) gan gynnwys

lwyddadwy i'r cartref a defnydd o CD Cymraeg Rimbojam.

*"HeIpu cymdeithasu efo rhieni a phlant eraill." "Cymdeithasu gyda ffitrwydd i fi ac i'r plant." "Cyfle i gymysgu yn fuddiol. Plentyn wedi mwynhau, ymateb i gyfarwyddiadau wedi gwella." "I gael ymuno â grŵp lleol ag i'r genod gael cyfle i chwarae a dod i nabod eraill." "Getting out with baby. Really enjoyed the sessions (as did baby)."*

**Clapio Wyau a gweithgareddau cymunedol mewn 5 pentref:**

Y Gymraeg yn ganolog mewn gweithgaredd cymunedol wrth i'r teuluoedd 'glapio am wyau' yn y pentrefi. Mae'r clapio yn cynnwys creu ac addurno clapiwr o goed lleol, wedi eu torri gan saer lleol. Adrodd rhigwm traddodiadol 'Clap,clap, gofyn ŵy. Hogia bach ar y plwy. Plîs ga'i ŵy?' yn ogystal â chanu dau bennill a chytgan cân am wyau siocled a gyfansoddwyd ar gyfer yr achlysur: 'Gymysgu llaeth a siwgr..." Yn ogystal mae'r plant yn dysgu cân "Diolch yn Fawr..." i'w canu ar ôl derbyn yr wyau siocled gan y pentrefwyr. Ar ddechrau a diwedd y digwyddiad mae gweithgaredd yn y neuadd bentref yn cynnwys dysgu canu a chrefftau Pasg megis creu basged, creu addurn, lliwio cerdyn, a gweithgaredd ffitrwydd/dawnsio/gemau. Defnyddir y Gymraeg wrth arddangos er mwyn i'r plant ddilyn y camau, a defnyddir geiriau Cymraeg ar yr addurniadau. Cafwyd cyhoeddusrwydd yn y papur bro, papur lleol megis Chronicle, ac ar Heno S4C. Mynychodd 53 teulu gyda 112 o blant, 9 o ddynion, 6 o deuluoedd dwyieithog, 6 teulu heb y Gymraeg. Casglwyd ebyst er mwyn danfon neges ddilynol gyda lincs i adnoddau megis safle Cymraeg apiau'r llywodraeth. Adroddiad llawn ynglwm. O'r 31 ffurflen a ddychwelwyd gan y teuluoedd, **100% yn cadarnhau fod y digwyddiad yn: a) groesawgar i bawb, b) yn effeithiol i godi hyder & rhoi cyfle defnyddio'r Gymraeg i blant, c) yn gyfraniad i'r defnydd o Gymraeg yn y gymuned. A dweud eu bod wedi mwynhau oherwydd:** *Gweithgareddau diddorol ac amrywiol. Lovely activities for parents and children to enjoy. Ymuno hefo pobl y gymuned yn canu. Dod i adnabod trigolion y pentref. Plant wrth eu bodd yn clapio wyau yn y glaw! Gweithgareddau y neuadd. Cymuned yn dod at ei gilydd. Cael mwynhau hen draddodiadau gyda fy mhlant.*

**26/3/18 -Clapio Wyau Llannerch-y-Medd**

23 oedolyn/teulu & 53 o blant. Dynion 3, Dwyieithog 4.

**27/3/18 - Clapio Wyau Carreglefn**

| | | |
|---|---|---|
| | 'teulu & 25 o blant. Dynion 1, Dwyieithog 1, Saesneg yn unig 2.<br>**27/3/18 - Clapio wyau Brynsiencyn**<br>8 oedolyn/6 teulu & 11 o blant. Dynion 2, Dwyieithog 1, Saesneg yn unig 4.<br>**28/3/18 - Clapio Wyau Talwrn**<br>6 oedolyn/teulu & 10 o blant. Dynion 2.<br>**29/3/18 - Clapio Wyau Llynfaes**<br>7 oedolyn/6 teulu & 11 o blant. Dynion 1. | |
| 3. Erbyn Mawrth 2018, cynnal dau brosiect i weithio'n ddwys gyda hyd at 25 (cyfanswm) o deuluoedd er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth a'u defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Ers Mis Medi 22 teulu yng Nghaergybi.<br>3 teulu o ffoaduriaid yn Ardal Aethwy<br><br>**Crynodeb o'n cyrhaeddiad Chwarter 4:**<br>Caergybi - Cefnogi'r gymuned wrth sefydlu ysgol gynradd newydd sydd am asesu Cymraeg iaith gyntaf ar ôl traddodiad o esgeuluso'r Gymraeg yn rhan fwyaf o | **Chwarter 1**<br><br>**Llyfrgell Caergybi Dydd Mercher 10-11yb wythnosol**<br>Parhau gyda'r grŵp Rhiant a Phlentyn yn Llyfrgell Caergybi yn wythnosol. Gweithgareddau yn cynnwys canu a stori Cymraeg, crefftau, sgyrsiau am adnoddau a manteision addysg Gymraeg, a digwyddiadau hwyliog. Yn y cyfnod Ebrill-Mehefin 2017 bu 10 sesiwn a bu i 18 teulu fynychu. Mae'r mwyafrif yn ddi-Gymraeg ac mae'r adborth yn cynnwys: "**Thank you for all your energy, enthusiasm and encouragement! We love our Wednesday library sessions. "Diolch yn Fawr".'** | |
| | **Chwarter 2**<br>**Llyfrgell Caergybi Dydd Mercher 10-11yb wythnosol**<br>Ailddechrau Medi gyda 4 sesiwn hyd yma a 21 teulu wedi mynychu. O fod yn wrandawyr swil, y rhieni o'r flwyddyn gynt bellach yn cyd-ganu'r caneuon Cymraeg mwyaf poblogaidd ac yn ailadrodd enwau lliwiau / rhifau. | |
| | **Chwarter 3**<br><br>**Llyfrgell Caergybi Dydd Mercher 10-11yb wythnosol**<br>Cynnal 11 sesiwn sy'n cynnwys canu, stori a chrefftau bob tro ond hefyd yn cynnwys agweddau thematig o ymwybyddiaeth Cymraeg a traddodiadau, cyngor ac anogaeth i ymwneud a chyfleoedd drwy'r Gymraeg ee Cymraeg i Blant, Ti&Fi, yr Urdd, rhaglenni S4C, tegannau ac adnoddau Cymraeg i blant, ayb. Nifer y mynychwyr yn amrywio'n wythnosol 21, 17, 22, 16, 13, 17, 8, 22, 21, 21, 11 = | |

| | | |
|---|---|---|
| ysgolion y dref. Ers M<br>teulu wedi mynychu ein sesiynau yn Llyfrgell Caergybi.<br><br>Porthaethwy - targedir oherwydd diffyg darpariaeth cyn-ysgol Cymraeg ac amrywiaeth ieithyddol y gymuned. Mynychodd 22 teulu ein gweithgareddau. | 89. 16 teulu gan gynnwys 3 tad & 3 Pwyles & 2 Rwsieg. Un o'r rhieni di-Gymraeg bellach yn arwain gyda'r canu.<br><br>**Ardal Aethwy – Ffoaduriaid**<br>3 teulu o ffoaduriaid. Dau deulu gyda 1 plentyn wedi mynychu'r uned iaith Moelfre, 1 plentyn wedi dechrau CA1, & 1 babi yr un. Teulu mwyaf diweddar i gyrraedd: 1 plentyn am ddechrau ysgol Medi 2018 a plentyn 2 flwydd. Cyflwyniad anffurfiol i'r cymorth sydd ar gael yn y cartref megis apiau Selog & Magi Ann. Gwahoddiad i ddigwyddiadau Cymraeg a drefnir ym Mhorthaethwy – diddordeb ond methu dod hyd yma. Meithrin perthynas yn araf ond yn gyson er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r plant ddefnyddio eu Cymraeg ac ymuno mewn gweithgareddau cymunedol gyda'u teuluoedd. Prin yw Saesneg y rhieni mewn 2 deulu felly mae'r ferch ym Mlwyddyn 5 yn defnyddio'i Chymraeg i gyfieithu i'w mam. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**Llyfrgell Caergybi – Cynnal 9** (10 & 17 & 24 &31/1/18, 21 & 28/2, 7 & 14 & 21/3) sesiwn stori, canu a chrefftau i deuluoedd yn y Gymraeg.<br>Ar gyfartaledd 15 yn mynychu pob sesiwn. 18 teulu wedi mynychu yn Chwarter 4. Gweithgareddau wedi cynnwys cyflwyniadau iaith, paratoi i barêd Gŵyl Dewi, a ioga drwy gyfrwng y Gymraeg. Adborth gan y mynychwyr: 100% yn cytuno fod y sesiwn yn "yn hygyrch gyda chroeso i bawb" (mynychwyr o gefndiroedd ethnig ac ieithyddol amrywiol), 100% yn cytuno fod y sesiwn yn "yn effeithiol i godi hyder defnyddio'r Gymraeg gyda phlant", a 100% yn dweud fod mynychu yn gyfraniad at eu "defnydd o Gymraeg yn y gymuned". Adborth yn cynnwys y sylwadau a ganlyn: "H is so enthusiastic, she promotes the Welsh language in a fun and lively way and the children (& adults!) love her sessions!" "Excellent group - we love it!" "Wedi mwynhau diolch." "Thank you for the enjoyable sessions over the last few months. E and I are going to miss them when I go back to work." "H's enthusiasm! Action songs are a favourite & craft - excellent, age appropriate & easy ideas. Build upon what we're learning each week." | |

| | | |
|---|---|---|
| | **rthaethwy** – sesiwn wythnosol am 5 wythnos – Ioga i deuluoedd yn y Gymraeg<br>Targedir Porthaethwy oherwydd y diffyg darpariaeth cyn-ysgol ac amrywiaeth diwylliannol/ieithyddol y teuluoedd yn y dref. 5 teulu yn mynychu (5 oedolyn & 6 plentyn). Sesiwn ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac adnoddau megis apiau Cymraeg. Adborth yn cynnwys: "sesiynau ffantastig, wedi mwynhau gwneud gweithgaredd hefo fy mhlentyn. Diolch yn Fawr." "Gain post pregnancy fitness. Gain confidence speaking Welsh." A chan ddysgwraig: "A lovely way to spend a morning. A beautiful introduction to yoga and improved knowledge. Enjoy sharing it with my daughter. Learnt a lot of Welsh body parts! Diolch yn Fawr! Please DO AGAIN!!" "Cyfle i ddychwelyd i ddosbarthiadau ioga gyda'r plant [3 plentyn blynyddoedd cynnar] (dim gofal plant i ddychwelyd i sesiynau cyn-plant!) a chyfle i gyflwyno ioga i'r plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd mor falch o gael sesiynau Cymraeg i blant bach ym Mhorthaethwy." "Sesiynau addas i'r teulu cyfan, i gyflwyno ioga i blant bach a dysgu symudiadau newydd, i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg ac o fewn pellter cerdded. Ymlacio!! Sesiynau wedi eu dyfeisio a'u harwain yn wych a gwreiddiol. Da ni isho mwy!!"<br><br>**3/2/18 - Bore Hwyl o Rygbi a chrefftau – Porthaethwy**<br>Cyfle i deuluoedd gan gynnwys tadau i ymuno yn y gweithgareddau. 18 teulu yn mynychu (18 oedolyn 27 o blant) gan gynnwys 2 o deuluoedd o ffoaduriaid Syria (gyda'u tadau). Sesiwn rygbi i ddenu'r tadau yn cynnwys sesiwn crefftau, stori a chanu i hyrwyddo apiau Cymraeg i'w defnyddio yn y cartref.<br><br>**3/3/18 - Bore Hwyl pêl-droed - Porthaethwy**<br>(canslwyd munud olaf oherwydd yr eira gan fod y ganolfan hamdden wedi cau)<br><br>**13/2/18 - Gweithgaredd Teulu Awyr Agored Porthaethwy**<br>Prynhawn o hwyl gan gerdded i ymweld â lleoliadau o bwys diwylliannol megis, promenâd y ffoaduriaid o RhB1af, tŷ unnos, eglwys St Tysilio & adar gwyllt ger y Fenai. Hefyd ymddangosiad gan Selog i hyrwyddo defnydd o apiau Cymraeg. 3 teulu (3 rhiant a 6 o blant). | |

| | | |
|---|---|---|
| 4. Selog i fynychu 10 lleoliad i hyrwyddo ac annog 150 o rieni i ddarllen a defnyddio adnoddau Cymraeg yn y cartref efo'u plant erbyn Mawrth 2018.<br><br>Mae hwn ymhell dros y darged gyda 8000 o lawrlwythiadau erbyn chwarter 3 a Selog wedi ymweld a 26 o leoliadau.<br><br>**Chwarter 4**<br>Mae hwn ymhell dros y targed gyda 11000 o lawrlwythiadau erbyn Chwarter 4 a Selog wedi ymweld â dros 29 lleoliad. | **Chwarter 1**<br>26/4/2017 – Ysgol Cemaes & hyrwyddo ap Magi Ann drwy lythyr (40) & cyfryngau cymdeithasol i rieni.<br>[Data Trydar: argraffiadau 1,470 & Ymwneud (total engagement) 27. Facebook: cyrraedd 2900 & Clicio ar y neges 254 & Rhannu/ ymateb 34.]<br><br>27/4/2017 – Ysgol y Ffridd, Gwalchmai & Ymweliad Selog hyrwyddo ap Magi Ann drwy lythyr (60) & cyfryngau cymdeithasol i rieni.<br>[Data Trydar: argraffiadau 1,588 & Ymwneud (total engagement) 35. Facebook: cyrraedd 292 & Clicio ar y neges 52 & Rhannu/ ymateb 4.]<br><br>16/5/2017 – MYM Bodedern & hyrwyddo ap Magi Ann drwy lythyr (12) & cyfryngau cymdeithasol i rieni.<br>[Data Trydar: argraffiadau 1,900 & Ymwneud (total engagement) 38. Facebook: cyrraedd 2200 & Clicio ar y neges 513 & Rhannu/ ymateb 71.]<br><br>12/6/2017 – Ysgol Santes Fair & hyrwyddo ap Magi Ann drwy lythyr (60) & cyfryngau cymdeithasol i rieni.<br>[Data Facebook: cyrraedd 832 & Clicio ar y neges 100 & Rhannu/ ymateb 5.]<br><br>12/6/2017 – Ysgol Llangoed & hyrwyddo ap Magi Ann drwy lythyr (60) & cyfryngau cymdeithasol i rieni CS.<br>[Data Trydar: argraffiadau 1,470 & Ymwneud (total engagement) 27. Facebook: cyrraedd 1800 & Clicio ar y neges 641 & Rhannu/ ymateb 54.]<br><br>26/6/2017 – Ysgol Brynsiencyn hyrwyddo adnoddau & ap Magi Ann drwy lythyr (30) & cyfryngau cymdeithasol & sgwrs i rieni. | |

| | | |
|---|---|---|
| | i gofyn am fwy o wybodaeth ar ôl cyflwyniad ar ôl ysgol un-i-un: 5. Data Trydar: argraffiadau 1,316 & Ymwneud (total engagement) 36. Facebook: cyrraedd 963 & Clicio ar y neges 66 & Rhannu/ ymateb 5.] | |
| | **Chwarter 2**<br>**18/7/2017 – Ysgol Y Bont** ymweliad i ysgol disgyblion ag anghenion arbennig, i hyrwyddo adnoddau Selog & ap Magi Ann i'r plant CS ac i'r rhieni drwy lythyr (11) & cyfryngau cymdeithasol.<br>[Data Facebook: cyrraedd 2500 & Clicio ar y neges 690 & Rhannu/ ymateb 91.]<br><br>**19/7/2017 – Ysgol Rhoscolyn hyrwyddo adnoddau** Selog & ap Magi Ann i'r plant a drwy lythyr (60) & cyfryngau cymdeithasol.<br>[Data Trydar: argraffiadau 1,579 & Ymwneud (total engagement) 22.]<br><br>8/8/2017 - **Yr Eisteddfod & Sesiwn Maes D** i Selog a Magi Ann. Yn ogystal â chyflwyniadau dyddiol yn yr Eisteddfod ym Modedern, cynhaliwyd sesiwn arbennig ym Mhabell y Dysgwyr i hyrwyddo ap canu & darllen Selog, ag ap Magi Ann. Mynychodd 9 teulu gyda'u plant. Danfonwyd 60 e-bost mewn ymateb i ymholiadau am ap Selog yn ystod yr Eisteddfod.<br><br>9/8/2017 – Gweinidog Alun Davies, AC yn Lansio ap Selog yn yr Eisteddfod.<br>Lansiad cenedlaethol i ap Selog er mwyn hyrwyddo'r adnodd i gartrefi Cymraeg a di-Gymraeg. Cyhoeddusrwydd yn y wasg i gyd-fynd a'r lansiad & rhieni gan gynnwys o'r grŵp Caergybi a ysbrydolodd yr ap hwiangerddi yn bresennol yn ystod y lansiad oedd yn cynnwys canu gyda Selog. Sefydlu cyfrif Trydar i Selog i gyd-fynd â'r lansiad.<br>[Data erbyn diwedd Awst: argraffiadau 18,000, ymwneud (engagement) 653. Nifer y dilynwyr erbyn diwedd Awst: 48}<br><br>27/09/2017 – **Uned Iaith Caergybi.** | |

| | | |
|---|---|---|
| | wyno apiau Selog a Magi Ann fel adnodd i ddysgu'r Gymraeg i'r 16 disgybl sydd wrthi yn yr uned drochi iaith. Dosbarthu llythyr i 16 cartref. | |
| | **Chwarter 3**<br><br>**Selog yn mynychu 15 ysgol – i gyflwyno i'r Cyfnod Sylfaen ac mewn ysgolion bach Bl3&4 hefyd**<br>Drwy fynychu ysgolion efo Selog rydym yn cyflawni sawl peth.<br>• Hyrwyddo apiau canu & darllen Selog yn ogystal ag apiau Cymraeg eraill i blant megis Magi Ann<br>• Danfon llythyr am yr apiau Selog & Magi Ann adref i'r teuluoedd<br>• Rhannu lluniau ar y cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys cyfeiriad at lawrlwytho @SelogAp a @MagiAnn gan gyrraedd cynulleidfa llawer ehangach na rhieni CS yn unig.<br>• Meithrin perthynas gyda'r ysgolion/pennaethiaid ar gyfer dilyniant noson rieni – nifer o ysgolion, ymwybyddiaeth iaith i rieni ee Pentreth, gweithgaredd cymunedol posib ee Ysgol Bryngwran – Gwyl Madam Wen.<br><br>Mae'r cyflwyniadau yn cynnwys sesiwn ganu gyda ap Selog, darllen stori gan ddefnyddio ap Selog, gan amlaf arddangos ap Magi Ann, gyda Bl2, 3, 4 – chwarae rôl sut i groesawu plant di-Gymraeg ar yr iard drwy eu helpu i fentro siarad Cymraeg. Gofynir i'r athrawon a'r cymorthyddion i aros yn y dosbarth er mwyn trosglwyddo'r ymwybyddiaeth a'r defnydd o apiau i'w gwaith dysgu ac wrth gynghori rhieni di-Gymraeg yn y nosweithiau rhieni.<br>**A ganlyn y 15 ysgol gyda data'r ymateb ar y cyfyngau cymdeithasol:**<br><br>**3/10/17 – Ysgol Llanbedrgoch**<br>Data Trydar: argraffiadau 490 & Ymwneud (total engagement) 11. Facebook: cyrraedd 2000 & Clicio ar y neges 359 & Rhannu/ ymateb 30.]<br><br>**10/10/17 – Ysgol y Graig** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Trydar: argraffiadau 432 & Ymwneud (total engagement) 21. Facebook: cyrraedd 1800 & Clicio ar y neges 474 & Rhannu/ ymateb 30.]<br><br>**11/10/17 – Ysgol Rhyd-y-Llan**<br>Data Facebook: cyrraedd 1700 & Clicio ar y neges 454 & Rhannu/ ymateb 49.]<br><br>**12/10/17 –Uned Iaith Moelfre**<br>Data Trydar: argraffiadau 3,602 & Ymwneud (total engagement) 113 . Facebook: cyrraedd 4100 & Clicio ar y neges 594 & Rhannu/ ymateb 173.]<br><br>**13/10/17 – Ysgol Cybi**<br>Data Trydar: argraffiadau 1720 & Ymwneud (total engagement) 52. Facebook: cyrraedd 1600 & Clicio ar y neges 506 & Rhannu/ ymateb 36.]<br><br>**19/10/17 – Ysgol Bryngwran**<br>Data Trydar: argraffiadau 373 & Ymwneud (total engagement) 21. Facebook: cyrraedd 1900 & Clicio ar y neges 409 & Rhannu/ ymateb 31.]<br><br>**23/10/17 – Ysgol Talwrn**<br>Data Trydar: argraffiadau 632 & Ymwneud (total engagement) 21. Facebook: cyrraedd 1600 & Clicio ar y neges 163 & Rhannu/ ymateb 57.]<br><br>**9/11/17 – Ysgol y Ffridd, Gwalchmai**<br>Data Trydar: argraffiadau 578 & Ymwneud (total engagement) 40. Facebook: cyrraedd 2100 & Clicio ar y neges 517 & Rhannu/ ymateb 56.]<br><br>**13/11/17 – Ysgol Cornhir**<br>Data Trydar: argraffiadau 424 & Ymwneud (total engagement) 29. Facebook: cyrraedd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ) & Clicio ar y neges 440 & Rhannu/ ymateb 33.]<br><br>**16/11/17 – Ysgol Goronwy Owen, Benllech**<br>Data Trydar: argraffiadau 1159 & Ymwneud (total engagement) 81. Facebook: cyrraedd 2400 & Clicio ar y neges 538 & Rhannu/ ymateb 58.]<br><br>**16/11/17 – Ysgol Moelfre**<br>Data Trydar: argraffiadau 722 & Ymwneud (total engagement) 39. Facebook: cyrraedd 1300 & Clicio ar y neges 323 & Rhannu/ ymateb 23 .]<br><br>**17/11/17 – Ysgol Llanerch-y-medd**<br>Data Trydar: argraffiadau 1457 & Ymwneud (total engagement) 72. Facebook: cyrraedd 5400 & Clicio ar y neges 632 & Rhannu/ ymateb 53.]<br><br>**22/11/17 – Ysgol Ysceifiog, Gaerwen**<br>Data Trydar: argraffiadau 880 & Ymwneud (total engagement) 70. Facebook: cyrraedd 2400 & Clicio ar y neges 616 & Rhannu/ ymateb 60.]<br><br>**23/11/17 – Ysgol Rhosybol**<br>Data Trydar: argraffiadau 999 & Ymwneud (total engagement) 44. Facebook: cyrraedd 1500 & Clicio ar y neges 314 & Rhannu/ ymateb 45.]<br><br>**30/11/17 –Ysgol Morswyn**<br>Data Trydar: argraffiadau 661 & Ymwneud (total engagement) 32. Facebook: cyrraedd 1100 & Clicio ar y neges 246 & Rhannu/ ymateb 21.]<br><br>**1/12/17 – Ysgol Parc y Bont**<br>Data Trydar: argraffiadau 1701 & Ymwneud (total engagement) 47. Facebook: cyrraedd | |

| | | |
|---|---|---|
| | & Clicio ar y neges 124 & Rhannu/ ymateb 8.]<br><br>**8/11/17 – Hyrwyddo i Mentrau Iaith Cymru**<br>Mynychu cynhadledd a hyfforddiant blynyddol Mentrau Iaith Cymru gyda Selog gan ddosbarthu pecynnau o daflenni er mwyn eu defnyddio mewn ardaloedd ar draws Cymru. Mae ehangu'r defnydd o Selog gan y Mentrau eraill yn agwedd i'w datblygu'n genedlaethol.<br><br>**Defnyddio cyfri trydar Selog i dynnu sylw i'r apiau:**<br>Bellach mae gan @SelogAp 181 o ddilynwyr ac yn ystod y 3ydd chwarter mi gafod ei gyfri 974 ymweliad, gwnaeth 33,978 argraff trydar (tweet impression), a chafodd ei grybwyll 50 gwaith. | |
| | **Chwarter 4**<br>Selog yn mynychu:<br>**13/2/18 - Canolfan Hamdden Llangefni**<br>Ymweliad gan Selog i hyrwyddo apiau Cymraeg yn ystod Bore Hwyl yng Nghanolfan Hamdden CSYM yn Llangefni. Sgwrs un-i-un gyda 18 teulu. Data Trydar: argraffiadau 2,330 & Ymwneud 52 (total engagement) . Facebook: cyrraedd 1,520 & Clicio ar y neges 663 & Rhannu/ ymateb 34.]<br><br>**13/3/18 - Ysgol Dwyran**<br>Ymweliad i gynnal sesiynau hyrwyddo apiau Cymraeg yn y CS (Magi Ann a Selog) & CA2 (Bl3&4 - llyfrau Selog, Bl5&6 canu Selog). Data Trydar: argraffiadau 462 & Ymwneud (total engagement) 20. Facebook: cyrraedd 1,288 & Clicio ar y neges 209 & Rhannu/ ymateb 46.]<br><br>**21/3/18 - Ysgol Carreglefn**<br>Ymweliad i hyrwyddo apiau Cymraeg & hyrwyddo digwyddiad cymunedol Cymraeg - Clapio Wyau. Data Trydar: argraffiadau & Ymwneud (total engagement) . Facebook: cyrraedd & Clicio ar y neges & Rhannu/ ymateb .] | |

| | | |
|---|---|---|
| | raill mewn adrannau eraill yn cynnwys rhai nosweithiau rhieni, digwyddiadau teuluol, gwyliau, ysbyty, ayb. | |
| 5. Uwchlwytho 30 o raglenni stori a chân ar wefan y fenter neu Soundcloud gyda gwybodaeth ar gael ynglŷn â ble i gael gwybodaeth a chefnogaeth ynglŷn â siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | **Chwarter 1**<br>Gw. uchod | |
| | **Chwarter 2**<br>Gw. uchod | |
| | **Chwarter 3**<br>Gweler uchod<br>Lawrlwythiadau ap Selog:<br>Mae ffrwyth yr ymdrechion uchod i'w gweld yn y cyfanswm lawrlwythiadau apiau Selog sydd bellach dros 8000, gyda canu yn 6059 a llyfrau yn 2070. | |
| | **Chwarter 4**<br>LAWRLWYTHIADAU APIAU SELOG:<br>Yn dilyn yr hyrwyddo cyson, erbyn Chwarter 4, sef 6 mis ar ôl ei lansio'n swyddogol yn yr Eisteddfod, lawrlwythwyd ap Selog 11,000 gwaith.<br>(Mae'r cynnydd mwyaf rhwng Chwarter 3 & Chwarter 4 wedi bod gyda llyfrau: 4786 lawrlwythiad o Selog Llyfrau a 6230 o Selog Canu).<br>Mi fyddwn yn trosglwyddo presenoldeb Selog i'r safle We 2018-19 Ar hyn o bryd mae'r ffocws wedi bod ar gymeriad @SelogAp ar Trydar sy'n cefnogi gwaith Siarter Iaith ysgolion Cymru, ail-drydar ar chwaraeon (i ddenu tadau) & hyrwyddo adnoddau Cymraeg i deuluoedd/darparwyr. Bellach mae gan @SelogAp dros 250 ddilynwyr<br>[Data Trydar: 107,000 argraff 'impression' / 268 clic ar y linc / 260 aildrydar / 448 'hoffi'].<br>Mae gan Selog bresenoldeb bellach ararall ar y we hefyd ar safle WiciMôn gyda disgrifiad byr o'r cymeriad a'i bwrpas https://cy.wikipedia.org/wiki/Selog. | |
| 6. **Caergybi**<br>Cynnal hyd at 5 o weithgareddau cymdeithasol | **Chwarter 1**<br>**6/6/2017 – Disgo Ysgol Llanfawr, Caergybi.**<br>Cydweithio gyda phwyllgor disgyblion Siarter Iaith yr Ysgol & cydlynydd yr ysgol i hwyluso disgo a | |

| | | |
|---|---|---|
| amrywiol er mwyn g gwybodaeth a dealltwriaeth a dylanwadu ar ddefnydd o'r Gymraeg hyd at 100 o rieni, erbyn Mawrth 2018 | Ann gan wahodd rhieni CS hefyd. Cyfle i sgwrsio un-i-un gyda'r rhieni a 7 yn gadael cyswllt am fwy o wybodaeth.<br><br>[Rhieni yn gofyn am fwy o wybodaeth: 9 (dim ond un teulu Cymraeg yn eu plith). Data Facebook: cyrraedd 1000 & Clicio ar y neges 371 & Rhannu/ ymateb 28.] | |
| | **Chwarter 2**<br>**30/7/2017** – Sioe Blant Gŵyl Caergybi.<br>Cynnal sioe blant gyda chymeriadau S4C Dona Direidi & Lobs, Sali Mali & Superted, a'r cymeriadau MIM/MIC Selog & Magi Ann. Ymateb brwdfrydig iawn gyda thua **300** yn mynychu - traean o leiaf yn rhieni/gofalwyr. Y trefnwyr wedi disgwyl tua 80 gan ei fod yn weithgaredd Cymraeg felly wedi synnu o'r ochr orau a gofyn eisoes am gadarnhau ein bod yn cynnal sioe arall flwyddyn nesaf. Llwyddiant mawr i ddangos fod hwyl i'w gael yn y Gymraeg dim ots beth yw iaith y cartref. Bu modd denu rhai o rieni o dramor ein gweithgareddau eraill i fynychu ee mamau lleol o Wlad Pŵyl.<br>**[**Rhieni yn gadael cyswllt am fwy o wybodaeth: 28. Data Trydar: argraffiadau 1,994 & Ymwneud (total engagement) 66. Facebook: cyrraedd 5800 & Clicio ar y neges 954 & Rhannu/ ymateb 58.]<br><br>**1/8/2017** - Diwrnod Hwyl Caergybi Dechrau'n Deg. Trefnu helfa Drysor Magi Ann a stondin ymwybyddiaeth iaith ac adnoddau fel rhan o ddiwrnod hwyl i deuluoedd ardal ddifreintiedig Caergybi. | |
| | **Chwarter 3**<br>**6/12/17**<br>Ar ol cefnogi'r cais, mynychu seremoni wobrwyo grant digwyddiad Ysgol Morswyn sydd am fod yn gig gyda band poblogaidd. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**5/2/18 - Merched y Wawr Fali** | |

| | | |
|---|---|---|
| | neiniau i hyrwyddo’r defnydd o Gymraeg yn y teuluoedd yn nalgylch Caergybi.<br>Cyflwyniad ar bwysigrwydd trochi yn y Gymraeg a’r adnoddau modern megis apiau sydd ar gael i ferch/fab yng nghyfraith di-Gymraeg i’w defnyddio gyda’r wyrion. 10 yn mynychu gyda 3 yn gofyn am fwy o wybodaeth drwy e-bost.<br><br>**14/2/18 - Bore Hwyl Canolfan Hamdden Caergybi**<br>Hyrwyddo defnydd o apiau Cymraeg ac ystod gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn ardal Caergybi drwy gyfrannu at Fore Hwyl CSYM yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. Selog yn mynychu. 18 o deuluoedd yn derbyn mwy o wybodaeth drwy e-bost ar ôl sgwrs un-i-un.<br>[Data Trydar: argraffiadau 521 & Ymwneud 24 (total engagement). Facebook: cyrraedd 1168 & Clicio ar y neges 390 & Rhannu/ ymateb 9.] | |
| 7. **Caergybi**<br>Erbyn Mawrth 2017, cynnal hyd at 2 ymgyrch penodol i ddylanwadu ar ddefnydd iaith 150 o rieni mewn partneriaeth â grwpiau cefnogi teuluoedd ac ysgolion. | **Chwarter 16/6/2017 –**<br>Hyfforddiant Athrawon Caergybi mewn partneriaeth â’r Siarter Iaith Dafydd Idriswyn Roberts & CSYM Anwen Owen.<br>Hyfforddi 10 o athrawon o ysgolion Caergybi gan gyflwyno: adnoddau sydd ar gael iddynt i hyrwyddo’r defnydd o Gymraeg yn y cartref, arddangos apiau Selog & Magi Ann, rhannu pŵer bwynt ymwybyddiaeth iaith medrid ei ddefnyddio / addasu ar gyfer cyflwyniad mewnol i staff neu ei gynnig fel sylfaen i ymwybyddiaeth iaith i rieni, a chodi ymwybyddiaeth athrawon o bwysigrwydd cydweithio i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg MIM ac eraill yn y gymuned yng Nghaergybi er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i blant/teuluoedd di-Gymraeg gymdeithasu yn y Gymraeg. | |
| | **Chwarter 2** | |
| | **Chwarter 3**<br><br>**13/11/17 – Kingsland Nursery**<br>Mynchu gyda Selog i hyrwyddo defnydd o adnoddau Cymraeg gan y staff a gan teuluoedd y plant. Taflen i deuluoedd ac ailadrodd y neges ar gyfryngau cymdeithasol.<br>Data Trydar: argraffiadau 930 & Ymwneud (total engagement) 23. Facebook: cyrraedd 1800 & | |

| | | |
|---|---|---|
| | eges 359 & Rhannu/ ymateb 33.]<br><br>**13/12/17 – Meithrin Morswyn**<br>Mynychu gyda Selog i hrywyddo defnydd o adnoddau Cymraeg i'r teuluoedd. Taflen & ailadrodd y neges am apiau Cymraeg ar gyfryngau cymdeithasol.<br>Data Trydar: argraffiadau 496 & Ymwneud (total engagement) 16. Facebook: cyrraedd 650 & Clicio ar y neges 18 & Rhannu/ ymateb 1.] | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**24/1/18 - Hyfforddi staff MônCF Anglesey Childcare - "ymwybyddiaeth iaith / trochi a chefnogi teuluoedd dwyieithog".**<br>Roedd tîm Anglesey Childcare wedi methu'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith flaenorol. Derbyniwyd y cynnig i hyfforddi x2 ar y safle. 8 yn elwa o'r hyfforddiant. Dywedodd y rheolwraig, nad yw'n siarad Cymraeg yn y gwaith, ar ôl cyflwyniad ar agweddau cyfle cyfartal miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 - "I knew all of that but now I know why it's important."<br><br>**Hyfforddi staff Dechrau'n Deg Caergybi**<br>Erys hyn yn fethiant o ran trefnu hyfforddiant. Er cyfathrebu yn y fforwm, gydag unigolion a drwy e-byst, a'r addewid o gyfle i hyfforddi staff ar ymwybyddiaeth iaith pan fo'r cyfle'n codi - yn anffodus ar ddiwedd Chwarter 4 - ac ers dros flwyddyn o gynnig - nid yw DD wedi trefnu dyddiad eto ar gyfer hyfforddi staff. I'w gyflawni gyda help CSYM/arall yn 2018-19 - gan fod hyn yn fwlch yn ein hymgyrch ymwybyddiaeth trochi iaith Blynyddoedd Cynnar yng Nghaergybi.<br><br>**6/2/18 - Cyfarfod i gytuno ar gynllunio i gydweithio 2018/19 gyda phrosiect Dysgu Cymraeg: Cymraeg i Deuluoedd**<br>Cynnig mewnbwn ar agweddau cydweithio posib i swyddog Cymraeg i Deuluoedd er mwyn paratoi ei chynllun gweithredu 2018/19 | |

| | | |
|---|---|---|
| | **19/2/18 - Hyfforddi cymorthyddion dosbarth, Ysgol Cybi**<br>Cyfle i barhau ar dargedu Caergybi a newid agweddau tuag at y Gymraeg gan hyfforddi cymorthyddion ar adnoddau megis apiau sy'n cefnogi dysgu teuluoedd a phwysleisio pwysigrwydd profiad cyflawn o drochi i ddisgyblion - gan siarad Cymraeg a modelu iaith a sgwrsio yn y dosbarth ac ar yr iard / gyda rhieni. 26 o gymorthyddion yn derbyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a chefnogi dysgwyr priodol.<br><br>**19/2/18 - Hyfforddi athrawon Ysgol Cybi**<br>Cyfle i gefnogi'r ysgol newydd sy'n cyfuno 3 ysgol nad oedd yn asesu Cymraeg iaith-gyntaf, gan arfogi'r athrawon gyda'r dadleuon ynghyn a throchi Cymraeg CS a manteision dwyieithrwydd CA2 wrth drafod gyda rhieni yn y nosweithiau rhieni. Hyfforddiant i 19 o athrawon gan gynnwys hyrwyddo apiau ar gyfer teuluoedd i gefnogi'r dysgu adref. | |

**Pa dystiolaeth ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i waith gwerthuso'r gweithgareddau/prosiectau a wnaed gennych e.e. astudiaethau achos, canlyniadau holiaduron ayyb.**
***Os yn cyflwyno tystiolaeth fel atodiadau, nodwch eu teitlau isod).***

**LAWRLWYTHIADAU APIAU SELOG – erbyn diwedd Medi mae data yn dangos dros 5000 o lawrlwythiadau eisoes, sy'n cynnig tystiolaeth dda o lwyddiant apiau i drosglwyddo'r Gymraeg i'r cartref.**

**Bu 3000 mwy o lawrlwythiadau yn y 3ydd chwarter yn dilyn 15 ymweliad arall gan Selog a defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol i lawrlwytho ac i hyrwyddo'r defnydd o apiau Cymraeg i deuluoedd.**

Mae adroddiadau cyflawn o'r isod ar gael am wybodaeth bellach.

**Trip Glan-llyn - newid patrwm iaith teuluoedd.**
Yn gryno o'r adborth:
- Marciau o 10? Cyfartalog 97%

- Os wyt yn dy … drïa defnyddio mwy o Gymraeg? Do 100% (5)
- Ydi gweithgareddau fel hyn yn cyfrannu at eich defnydd o Gymraeg? Ydi 94% (29)

Un esiampl: Ar y trip, roedd 3 rhiant a fedrai siarad Cymraeg ond oedd yn siarad Saesneg gyda'u plant (problem gynyddol ar yr ynys). Mae'r ffaith eu bod wedi cofrestru i ddod yn dangos eu huchelgais ieithyddol dros eu plant ond yn amlwg nid oes modd mesur effaith seicolegol positif o dreulio diwrnod yng nghwmni teuluoedd sy'n arddel y Gymraeg yn naturiol gyda'u plant. Ond esiampl - roedd dwy fam o Gaergybi wedi arfer siarad Saesneg gyda'i gilydd ers yn ifanc a bellach yn cydweithio yn Swyddfa'r Cyngor trwy gyfrwng y Saesneg. Teimlwyd fod un am newid yr iaith rhwng y ddwy ond fod y llall yn ddihyder gan gynnwys wrth siarad gyda'i mab a oedd yn gwrthod siarad â hi yn y Gymraeg er bod ganddo'r sgiliau ieithyddol o'r ysgol. Cafwyd cyfle i drafod manteision dwyieithrwydd naturiol, manteision i'r plant o fod yn siarad Cymraeg â'r rhiant, a'r angen i ddyfalbarhau i siarad yn y Gymraeg hyd yn oed os yw atebion y plentyn yn y Saesneg ('dwyieithrwydd goddefgar' Colin Baker) Cafwyd cyfle hefyd iddynt weld normaleiddio'r defnydd o Gymraeg mewn teuluoedd. Dywedodd ar lafar faint yr oedd wedi mwynhau'r diwrnod gan siarad Cymraeg gyda'r trefnwyr drwy gydol y dydd o flaen ei phlentyn ag yntau yn cyfathrebu efo'i gyfoedion yn yr un modd - yn yr adborth (er yn ysgrifenedig yn Saesneg) dywedodd mai'r uchafbwynt oedd: "Listening to my son speak Welsh with others & gaining confidence with me to speak Welsh".

**Bore Hwyl Porthaethwy - cynnal a throchi teuluoedd ifanc yn y Gymraeg gan dargedu tadau**

Dywedodd 100% ei fod yn cyfrannu at eu defnydd o'r Gymraeg. Cafwyd adborth brwdfrydig ar lafar gan gynnwys diolch am gael darpariaeth trochi Cymraeg, ac esiampl o'r sylwadau pellach a gafwyd ar bapur oedd:
My daughter was translating instructions for me. Magical!
Roedd popeth yn dda ond doed dim digon o beli rygbi oherwydd roedd y sesiwn yn boblogaidd iawn!!
Roeddwn wedi gobeithio cael hyd at 12 o blant am y sesiwn ond pan fynychodd 18 roedd yma neges glir fod yna alw yn yr ardal am y fath yma o ddarpariaeth. Yn ogystal â'r rhiant di-Gymraeg a ddywedodd: 'My daughter was translating instructions for me. Magical!' Sydd bellach yn mynychu gweithgareddau MIM yn rheolaidd yn yr ardal. Roedd yma hefyd riant o Lundain sy'n ymgeisio magu ei phlentyn yn y Gymraeg ac am ddychwelyd eto os byddwn yn aildrefnu. Yn ogystal roedd canran uwch o dadau nag sy'n arfer mynychu digwyddiadau MIM ble nad oes gweithgaredd chwaraeon. Yn dilyn yr ymateb a'r adborth felly penderfynwyd cynnal digwyddiad arall 25/11/17 a chynllunio ar gyfer 2018.

**Nos Galan Gaeaf Llynfaes - cefnogi cymuned i gynnal digwyddiadau Cymraeg gan integreiddio mewnfudwyr**

Yn yr adborth marciwyd y digwyddiad 10/10 o ran mwynhad yn 100% o'r ymatebion gyda sylwadau eu bod wedi mwynhau ee: Cael cyfarfod cymdogion hen a newydd a cyfla i'r plant gymysgu a chwarae. Cymdeithas yn dod at ei gilydd. Pawb yn mwynhau (oedolion hefyd).

Cymdeithasu, gweld gymuned. Great fun. We really enjoyed, we had a great time. Yn ogystal roedd 100% wedi dweud fod y gweithgaredd yn cyfrannu at eu defnydd o'r Gymraeg a hefyd eu bod wedi cymdeithasu ag eraill ar y noson. Dywedodd dysgwr ei fod yn gyfle i ymarfer yr iaith, ac o deithio o amgylch y pentref roedd pawb a fedrai'r Gymraeg wedi ymateb yn y Gymraeg i'r plant ac roedd y ddau deulu di-Gymraeg wedi cyfarch neu ddiolch yn y Gymraeg - sy'n dangos datblygiad yn eu hyder o ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus ers y flwyddyn flaenorol. Denwyd teuluoedd o du hwnt i'r ardal i'r digwyddiad megis Pwyles a thri o'i phlant sy'n mynychu gweithgareddau rhiant a phlentyn Cymraeg y fenter iaith yng Nghaergybi. Mae'r gweithgaredd Gymraeg yma wedi profi ei werth nid yn unig o ran mwynhad y pentrefwyr a'r mynychwyr ond hefyd o fod yn weithgaredd sy'n gyfrwng i ddechrau gwreiddio newydd ddyfodiaid di-Gymraeg yn eu cymuned. Mae'r ffaith mai diwrnod yn unig yw Nos Galan Gaeaf yn ein cyfyngu rhywfaint ond gobeithiwn dreialu'r model mewn pentref arall hefyd erbyn 2018.

| Maes Strategol 2: Plant a Pobl Ifanc<br>Y Canlyniad a ddymunir:<br>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn Cymunedau ar draws Cymru. | | |
|---|---|---|
| **Targedau (ar ffurf CAMPUS)** | **Cynnydd** | **Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na** |
| 1. Cynnal 5 grŵp Theatr Ieuenctid Môn rheolaidd o fewn y sir gyda'r nod o gynnig cyfleoedd i 160 o blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg erbyn Mawrth 2018. Olrhain eu datblygiad ac agweddau drwy sesiynau gwerthuso ymarferol ar ddiwedd pob tymor. | **Chwarter 1**<br><br>Gweithdai theatr o dan arweiniad actorion a chantorion profiadol, Gwion Aled, Elin Angharad, Mared Elliw Huws, Cerian Griffiths, Catrin Jenkins, Gwen Elin ac Aled Sion.<br><br>Prif ffocws y gweithdai dros yr wythnosau hyn ydi sioe Llanrwla sy'n cael ei pherfformio yn Theatr y Maes ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol, Ynys Môn. Dyma gynhyrchiad sydd wedi ei hysgrifennu gan Angharad Llwyd, a'r gerddoriaeth wedi ei gyfansoddi gan Ynyr Llwyd. Mae'r cynhyrchiad wedi ei rannu yn dair rhan felly bydd criw Amlwch, Llangefni a Porthaethwy yn gweithio ar y sgript hwn am yr wythnosau nesaf hyd at yr Eisteddfod.<br><br>Niferoedd : 60<br><br>TIM Bach: Caergybi<br><br>Mae criw TIM Bach Caergybi'n gweithio ar ddarn gwreiddiol sydd wedi ei ysgrifennu'n arbennig ar gyfer y criw o syniadau tymor yr Hydref. | |

| | | |
|---|---|---|
| | : a'r caneuon wedi eu hysgrifennu gan y gantores Gwen Elin gyda chymorth y gantores Elin Angharad.<br><br>Niferoedd: 26<br><br>**TIM MAWR : Prosiect Lleisiau** @ Neuadd y Dref, Llangefni (bob nos Fercher)<br><br>Wedi sesiwn gadarnahol iawn yn recordio lleisiau ac ymatebion trigolion Porthaethwy, a sesiynau creu sgript drwy stori fyrddio fe ddatblygwyd 'Pawb a'i Lais' fel spoof i Pawb a'i Farn.<br><br>Pwrpas y spoof yw trosglwyddo barn amrywiol trigolion Ynys Môn o bobl ifanc yr Ynys. Gyda chymaint o drafodaethau ar ffurff rhaglen banel ar y teledu am drafodaethau Brexit, roedd y bobl ifanc yn hoffi troi'r fformat ffurfiol yn sioe gomedi tywyll.<br><br>Gwahoddwyd rhieni fel gwesteion i 'Pawb a'i Lais' i ddatblygu sgiliau'r bobl ifanc ymhellach – hynny yw, ymateb i gwestiynau a meithrin y gallu i ddatblygu cymeriad a byrfyryrio dan bwysau. Roedd hi'n noson llwyddiannus dros ben, a byddwn yn edrych i'w ddatblygu ymhellach yn y tymor newydd.<br><br>Sylw i'r gwaith yn Golwg.<br><br>Nifer y bobl ifanc: 10<br>Nifer y gynulleidfa : 35 | |
| | **Chwarter 2**<br>Ymarferion Llanrwla yn parhau. Ymarferion wythnosol o fewn y dalgylchoedd, Amlwch, Borthaethwy a Llangefni.<br><br>Profiad anhygoel i'r plant, wrth roi eu gwaith ar lwyfan a pherfformio yn Theatr y Maes. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynhyrchiad Llanrwla @ Theatr y Maes, Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn**<br>5/8/17<br><br>Profiad amhrisiadwy i holl aelodau Theatr Ieuenctid Môn. Adborth arbennig gan y plant a'r rhieni, a'r theatr yn orlawn.<br><br>Sylwadau lu ar ein cyfryngau cymdeithasol :<br><br>*Sioe grêt! Diolch o galon am y cyfle a'r profiad bythgofiadwy.*<br>*Diolch yn fawr iawn! What a fabulous show! Da iawn plantos!*<br>*Diolch yn fawr iawn i chi gyd enwedig Gwion, Elin & Nia, profiadau hollol wych iddyn nhw xx*<br>*Gwych !! Plant I gyd wedi cael profiad bythgofiafwy*<br>*Diolch i bawb o griw TIM am roi cyfle i'r plant berfformio yn yr eisteddfod heddiw. Sioe hollol wych.xx*<br>*Diolch yn fawr iawn am gadal i Manon a cadi gael y profiad. Sioe da iawn pawb wedi mwynhau - pob un yn brilliant, da iawn*<br>*Diolch i'r trwps i gyd am berfformiad hollol wych, cymeriadau doniol a pawb yn mwynhau. Diolch am y cyfle, Cadi a Noa wedi wir fwynhau*<br><br>**Sylwadau rhieni di-Gymraeg yn arbennig – roedd clywed eu plentyn yn siarad Cymraeg yn ddiethr iddynt, heb son am berfformio ar lwyfan.**<br><br>**Nododd un rhiant nad oedd hi erioed wedi dychmygu gweld Alex yn perfformio ar lwyfan - yn enwedig yn y Gymraeg. Roedd y Gymraeg iddi hi yn iaith â byrdwn, oherwydd profiadau negyddol yn y gorffennol – ond braf gweld Alex a'i ffrindau yn mwynhau defnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau hwyliog** | |

| | | |
|---|---|---|
| | ryd rhan : 60<br>Nifer yn y gynilleidfa : 150<br><br>**Perfformiad Byd yr Anifeiliaid @ Ysgol Gymraeg Morswyn, Caergybi**<br>20/6/17<br><br>Mae’r criw wedi bod yn cyfarfod bob prynhau dydd Mawrth o dan gyfarwyddyd Gwen Elin ac Elin Angharad.<br><br>Perfformiad hyfryd gan griw Caergybi, llawn hyder yn eu Cymraeg a pawb wedi mwynhau yn arw.<br><br>***Nododd un rhiant pa mor falch oedd hi o’i mab sydd wedi bod yn dioddef o ddiffyg hyder yn ei allu yn yr Ysgol, ac mewn darpariaethau allgyrsiol – a mor falch oedd hi o’i weld yn perfformio ar lwyfan.  Doedd Cymraeg ddim yn iaith naturiol yn y cartref, ond roedd ganddi edmygedd mawr yn y modd yr oedd Owain yn gallu trosi o un iaith i’r llall mor naturiol, a serennu mewn iaith sy’n ail-iaith iddo.***<br><br>Niferoedd : 26<br>Niferoedd y gynulleidfa : 45 | |
| | **Chwarter 3**<br><br><br>**TIM Bach (Cynradd)**<br>Tymor llwyddiannus arall i Theatr Ieuenctid Môn (TIM Bach) sydd bellach yn rhedeg yn sefydlog yn Llangefni, Amlwch, Porthaethwy a Chaergybi gyda niferoedd uchel o blant rhwng 7 ac 11 oed yn cyfarfod yn wythnosol yn y 4 lleoliad hwn.  Elin Angharad, Gwen Elin, Cerian Griffiths, Mared Elliw Huws, Aled Sion Jones sy’n arwain ar gynwys creadigol y sesiynau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | dau newydd yn dilyn ein llwyddiant yn **Eisteddfod Genedlaethol** Ynys Môn.<br>Tudalen Facebook hefyd wedi ennill tir ers perfformiad yn yr Eisteddfod gyda + 60% o ddilynwyr newydd ers Chwarter 2.<br><br>Data Llawn Facebook yma:<br><br>\\nyd1\RedirectedFolders\nia\My Documents\Nia\TIM\Data Export - Facebook Theatr Ieuenctid Môn Chwarter 3.xml<br><br>Criw Amlwch a Chaergybi wedi gweithio tuag at sioe Nadolig, gyda criw Llangefni a Porthaethwy yn gweithio ar sgiliau unigol o feithrin a magu hyder gan fod gymaint o griw iau wedi ymuno y tymor hwn, gan weithio tuag at berfforiad yn yr Haf.<br><br>**Sioe Nadolig Caergybi @ Ysgol Gynradd Morswyn 21/12/17**<br><br>Profiad amhrisiadwy i'r plant gael perfformio sioe lwyfan wedi ei hysgrifennu ar eu cyfer gan Gwen Elin, yn ogystal â eitemau cerddorol. 2 o gerddorion lleol, Rhys Edwards a Deio Jones wedi rhoi eu hamser yn wirfoddol i gefnogi talentau cerddorol y plant.<br><br>Cynulleidfa : 40<br><br>**Sioe Nadolig Amlwch @ Neuadd Goffa Amlwch 18/12/17**<br>(wedi ei ohurio oherwydd rhesymau tu allan i'n rheolaeth – ail drefnu 29/1/18)<br><br>Llwyddiant arall yw ein bod ni wedi parhau i gynnal diddordeb yr aelodau oedd yn symyd i'r Ysgol Uwchradd, wrth i nifer o'r criw symyd ymlaen at gynllun TIM Mawr (Uwchradd) y tymor hwn. | |

90 o aelodau

**TIM Mawr (Uwchradd)**

Cynllun peilot o gydweithio gyda chwmni theatr pop-up, Amrant, gan ymateb i her gan Menter Iaith Môn.

'**Sut mae cyflwyno iaith, hanes a diwylliant i Ymwelwyr Ynys Môn a Gwynedd?'**

Mewn rhaglen arbennig 14 wythnos roedd cyfanswm o 21 o bobl ifanc yn rhan o'r prosiect, o'r gwaith ymchwil i'r dyfeisio a'r perfformio. Profiad anhygoel i'r bobl ifanc oedd cael perfformio ar y cyd â chwmni Amrant a gweithio gydag actor proffesiynol, Gwion Aled. Yn ogystal â criw Amrant a Gwion Aled, daeth Barry 'Archie' Jones, cyfarwyddwr ac ysgrifennwr rhaglen 'Dim Byd' a 'R'un Sbit' i gynnal gweithdy meistr gyda'r bobl ifanc, yn ogystal â'r actor a'r cyfarwyddwr Elgan Rhys.

Her newydd oedd perfformio yn gymunedol, nid ar lwyfan traddodiadol ond ar strydoedd prysur Bangor, Caernarfon, Biwmares a Llangefni dros gyfnod prysur y siopa Nadolig.

Roedd y gwaith yn ateb yr her i'r dim, a'r bobl ifanc wedi mwynhau yn ofnadwy.

100% yn nodi fod y prosiect yn dda iawn a 100% eisiau cymryd rhan mewn prosiect tebyg yn y flwyddyn newydd.

Rhai sylwadau :

*'Rwyf wedi mwynhau dysgu mwy am iaith, hanes a diwylliant Cymru a cael lot o hwyl wrth wneud*

*l. Wrth fy modd yn cael neud petha dydw i rioed wedi neuyd o blaen a datblygu fel actor ifanc.'*

*'Wedi mwynhau perfformio ar y stryd yn ofnadwy achos dydi pobl ddim yn talu am docyn i ddod i weld chdi, felly ti'n goro rili dal sylw nhw a odd huna'n her dw i di fwynhau.'*

*'Ma'r prosiect yma wedi agor fy llygaid i be ydy aiith, hanes a diwylliant, a ma gymaint mwy na Cenin Pedr a Welsh Ladies'*

*'Ma'r prosiect wedi neud i fi werthfawrogi bod teledu Cymraeg angen mwy o werthfawrogiad wrth i ni neud y gwaith ymchil. Prosiect cwl iawn, a balch o'r cyfle!'*

Tystiolaeth fideo diwrnod y perfformiad (cynnwys adborth cynilleidfa + rhieni + pobl ifanc) :
https://www.facebook.com/theatrieuenctidmon/videos/383249495433199/

Cyrrhaeddiad Facebook: 5,600

Holl dystiolaeth gweledol (fideos a diweddariadau wythnosol) :
https://www.youtube.com/watch?v=cv2K7w3kpFM&list=PLpHU0yg9NeVLGQbh9fAZR6Qffi-lhvXJb

https://www.facebook.com/theatrieuenctidmon/

Cyrrhaeddiad yr holl fideos ar Facebook : 42,987

Yn dilyn llwyddiant y prosiect, mae 3 o griw Amrant wedi derbyn gwaith cyflogedig yn y maes perfformio ar gyfer y flyddyn newydd.

| | | |
|---|---|---|
| | **Chwarter 4**<br><br>**Theatr Ieuenctid Môn**<br><br>Mae'r sesiynau yn mynd o nerth i nerth yn dilyn rhaglen gyffrous 2017.<br><br>Mae llwyddiant cynhyrchiad Llanrwla a gwaith gyda chwmni Amrant wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar TIM wrth i ragor o aelodau newydd ymuno. Cynydd sylweddol ym Mhorthaethwy a nifer o aelodau ifanc newydd yn Llangefni.<br><br>Niferoedd fel a ganlyn.<br>Amlwch : 20<br>Porthaethwy : 25<br>Llangefni : 25<br>Caergybi : 25<br>TIM Mawr : 22<br><br>Mae'r criw ym Mhorthaethwy yn canolbwyntio ar greu perfformiad pop-up ar gyfer ffair fwyd Borthaethwy ar thema'r môr. Mae criw Llangefni yn gweithio ar gynhyrchiad pop up ar gyfer Gŵyl Cefni, a chriw Caergybi ac Amlwch yn gweithio tuag at gynhyrchiad ar y cyd ar gyfer Gŵyl Gopr, ar thema Ynys Môn. Yn ychwanegol i'r rhaglen waith arferol, sef gweithdai codi hyder a pherfformio o dan ofal profiadol a chreadigol tiwtoriaid proffesiynol<br><br>Cynhaliwyd: **Sioe 'Nadolig' Amlwch** 29/1/1 (ail drefnu oherwydd tywydd/salwch)<br>Defnyddiwyd syniadau gan y plant i greu sioe lwyfan ddoniol a chwareus. Cynulleidfa : 80 | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cwmni Da @ Theatr Ieuenctid Môn 7/3/18**<br>Daeth criw Cwmni Da i ffilmio gyda criw TIM Mawr ar gyfer sgetsh deledu ar raglen DIM BYD. Profiad newydd i'r bobl ifanc gael blas o greu cynnwys ar gyfer y teledu, a cawsom sgwrsio gyda cyfarwyddwr a'r criw technegol am eu swyddi.<br><br>Yn chwarter 4 cynhaliwyd 5 x 10 gweithdy wythnosol = 50<br>Hynny yw, 5 gweithdy mewn lleoliadau amrywiol am 10 wythnos gyda chyfartaledd o **115 o blant a phobl ifanc yr wythnos.**<br><br>**Adborth:**<br>**100%** yn nodi fod TIM wedi codi eu hyder mewn perfformio<br>**100%** yn nodi fod TIM wedi codi eu hyder i berfformio drwy gyfrwng y Gymraeg<br>**100%** yn nodi fod TIM wedi helpu greu ffrinidau newydd<br><br>Ystadegaethau rhagorol – yn enwedig 'gwneud ffrindiau newydd' gan fod iaith y clybiau yn Gymraeg, mae perthynas yr unigolion hynny wedyn yn ffynnu mewn awyrgylch Gymraeg anffurfiol, a'r cyfathrebiad cyntaf yn Gymraeg.<br><br>Casglwyd data at ddiwedd tymor y Gwanwyn yn anffurfiol drwy gemau, cardiau fflach, a blwch ymatebion. Rhai enghreifftiau o'r blwch ymatebion :<br><br>'Mae TIM wedi helpu fi bod yn fwy hyderus, ddim bod yn ofn, i feddwl yn fwy creadigol a dim bod yn shei.'<br><br>'Mae TIM wedi helpu fi fod yn greadigol, edrych ymlaen at yr wythnos a dod i nabod fy ffrindiau yn well.  Mae wedi helpu fi efo hyder ers symyd yn ol i'r ardal.' | |

| | | |
|---|---|---|
| | n neud i fi feddal am bethau mewn ffordd gwahanol, fel helpu pobl a gweithio gyda'n gilydd, helpu eraill a canolbwyntio.'<br><br>'Mae TIM wedi helpu fi defnyddio dy nychymyg, datblygu sgiliau actio, neud ffrindia efo plant sy'n licio run petha a fi ac i canu, actio a dawnsio yn well.'<br><br>'Mae pawb yn ddoniol iawn yn TIM rydw i byth yn drist achos mae popeth yn hwyl yma.'<br><br>**Byddwn yn cynnal ymchwil trylwyr ar ddiwedd y flwyddyn addysgol (blwyddyn ariannol 2018+) i iaith gartref aelodau TIM a'r effaith mae darpariaeth TIM wedi cael ar eu defnydd nhw o'r Gymraeg.** | |
| 2. Cynnal 20 o weithdai cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc y Sir gyda'r nod o gynnig cyfleoedd i 120 o bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg. Olrhain eu ymatebion drwy holiaduron, dyddiaduron a chamerâu fideo, erbyn Mawrth 2018. | **Chwarter 1**<br><br>**Gweithdai Blasu Theatr Ieuenctid Môn**<br>Pwrpas y gweithdai hyn ydi rhoi blas ar ddarpariaeth Theatr Ieuenctid Môn i ieuenctid y sir a chodi ymwybyddiaeth am y ddarpariaeth, yn ogystal â chefnogi'r Ysgolion gyda'u hymdrechion gyda'r Siarter Iaith. Mae dulliau yma y gall athrawon eu mabwysiadu ar gyfer cyflwyno iaith drwy ddrama a gemau syml i godi hyder a chyfrannu at ddatblygiad llafaredd.<br><br>Gweithdai codi hyder ydy rhain, wedi ei teilwra i ba bynnag oed a ddymunir.<br><br>1. 26/4/17 @ Ysgol Gynradd Cemaes : 60 o blant<br>2. 27/6/17 + 29/6/27 @ Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch (anwytho bl. 6) : 78 o blant<br><br>**<u>Bocsŵn</u>**<br>**Gwyliau Pasg – Sesiynau iwcalili** | |

| | | |
|---|---|---|
| | 11/4/17<br>12/4/17<br><br>9 o bobl ifanc rhwng 5 a 9 oed<br><br>Holiaduron yn dangos cynnydd o 20% yn eu agwedd tuag at faint o bwysig yw hi i siarad Cymraeg, 12% mewn faint o deledu a cherddoriaeth Cymraeg roeddent yn ei wylio/gwrando, 11% yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a 15% yn eu defnydd o'r Gymraeg gartref gyda rhiant neu warchodwr.<br><br>**<u>Sesiynau iwcalili – Amlwch (3.30 tan 4.45)</u>**<br>24/4/17<br>8/5/17<br>15/5/17<br>22/5/17<br><br>6 o bobl ifanc i ddysgu chwarae, cyfansoddi a recordio cân.<br><br>Seren Iaith - rhwng 5 a 9 oed - cynnydd o 40% yn eu defnydd o'r Gymraeg gyda eu ffrindiau yn y dosbarth, 100% yn eu defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ysgol, 60% yn eu agwedd tuag ar pwysigrwydd siarad yr iaith Gymraeg a 100% o gynnydd yn eu defnyddio dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn yr oedran 10 i 15 oed fe recordiwyd cynnydd o 18.5% yn eu defnydd o'r Gymraeg o amgylch yr ysgol, 26% yn y defnydd o'r Gymraeg adref, a 48% y eu defnydd o raglenni teledu a cherddoriaeth Gymraeg. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **reu Cerddoriaeth Cymunedol – Llannerchymedd (4 tan 5.15 a 5.15 tan 6.30)**<br>26/4/17<br>3/5/17<br>10/5/17<br>17/5/17<br>24/7/17<br><br>10 o bobl ifanc yn cymryd rhan dros 2 sesiwn wythnosol dros gyfnod o 5 wythnos.<br><br>**Band 1** - Yn yr oedran 5 i 9, fe ddangosodd y 'Seren Iaith' bod eu agwedd tuag at y Gymraeg wedi cynyddu 300% yn eu defnydd o'r Gymraeg adref, 20% mewn faint o gyfforddus maent yn gweithio'n y Gymraeg (e.e. darllen ac ysgrifennu), a 67% o gynnydd yn faint o deledu a cerddoriaeth Cymraeg maent yn ei wylio/wrando ar.<br>Yn yr oedran 10 i 15 dangoswyd y 'Seren Iaith' gynnydd o 16% yn eu defnydd o'r Gymraeg o amgylch yr ysgol, 58% yn eu defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg, a 40% yn falin o adloniant Cymraeg roeddent yn ei wylio/gwrando ar.<br><br>**Band 2** – O ran canlyniad y 'Seren Iaith' oed 5 i 9, fe gofnodwyd cynnydd o 11% yn eu defnydd o'r Gymraeg yn y dosbarth, 50% yn eu defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg, a 100% yn faint o wylio/gwrando ar adloniant Cymraeg roedd y buddiolwyr yn wrando/gwylio.<br>Yn yr oedran 10 i 15 recordiwyd cynnydd o 29% yn eu defnydd o'r Gymraeg yn y dosbarth, 81% yn eu defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth yn weddill yr ysgol, 100% yn eu defnydd o'r Gymraeg gartref, 11% yn eu agwedd tuag at pwysigrwydd siarad Cymraeg, a 75% o gynnydd yn eu defnydd o dechnoleg trwy'r Gymraeg e.e. apps, y wê a tecstio. | |
| | **Chwarter 2** | |

**Gweithdai Blasu Theatr Ieuenctid Môn**
10/7/17 + 12/7/17 @ Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch (blwyddyn 7) : 90 o blant

13/7/17 @ Ysgol Uwchradd, Caergybi (anwytho bl. 6 – 2 ddosbarth) : 55 o blant

8/9/17 @ Ysgol Gynradd Rhoscolyn (CA2) : 34 o blant

18/9/17 @ Uwch Adran yr Urdd, Gaerwen (Uwchradd) : 18 o bobl ifanc

26/9/17 @ Adran yr Urdd, Llangristiolus (Cynradd) : 22 o blant

**Sesiynau 'Anwytho' Ysgol Uwchradd Bodedern**
**6/7/17**

Cafodd Bocsŵn wahoddiad i gynnal gweithgareddau i ddisgyblion blwyddyn 6 bydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Bodedern yn mis Medi. Cynhelir cyfres o weithgareddau iwcalili trwy'r dydd 5 grwp o bobl ifanc. Cafodd cyfanswm o 107 o ddisgyblion y profiad o ddysgu a chwarae cyfres o gordiau ar yr offeryn.

**Sesiynau blasu ysgolion cynradd**
**10,11,12,13/7/17**
**17,18,19/7/17**

Cyfres o weithgareddau cerddoriaeth o amgylch rhai o ysgolion cynradd Ynys Môn er mwyn roi profiadau newydd o bobl ifanc trwy chwarae offerynnau a codi ymwybyddiaeth am y Fenter a gwaith Prosiect Bocsŵn gyda pobl ifanc.
Mewn 7 ysgol cafodd 213 o bobl ifanc y dyfle i chwarae drymiau, gitâr a cael y profiad o gyd-

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Gwyliau Haf</u>**<br><br>**25/7/17**<br><br>Gweithdy ar y cyd gyda Gwasanaeth Ieuenctid Môn, yr heddlu a Bocswn.<br>Prynhawn o weithgareddau yn Amlwch i 10 o boli ifanc gael trio offerynnau gwahanol a chael gyfle i jamio.<br><br>**<u>Sesiynau Creu Cerddoriaeth</u>**<br>**31/7/17**<br>**1/8/17 (10 tan 11.30 a 1.30 tan 3)**<br>**2/8/17**<br>**3/8/17**<br><br>**Grwp1 -** 4 o bobl ifanc, i gyd yn cael profiadau newydd ac yn ennill achrediad Agored Cymru am eu sgiliau rhythm.<br><br>Yn eu agwedd tuag ar iaith fe ofynnwyd i'r buddiolwyr lenwi 'Seren Iaith' i gofnodi lefelau ac eu agwedd tuag at yn iaith Gymraeg.<br>Yn y pobl ifanc rhwng 5 a 9 oed fe recordiwyd cynnydd 60% o'u defnydd o deledu / cerddoriaeth Cymraeg, 40% yn eu defnydd o dechnoleg (ee apps, tecstio) yn y Gymraeg.<br>Yn yr oedran 10 i 15 ddangoswyd cynnydd o 20% yn eu defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg (ee defnyddio apps, tecstio, y wê), cynnydd o 20% mewn faint o deledu a cherddoriaeth Gymraeg maent yn ei ddefnyddio a 4% yn eu defnydd o'r Gymraeg gartref gyda rhiant neu warchodwr. | |

| | | |
|---|---|---|
| | un wybodaeth gyda'r ail grwp o blob ifanc.<br>Yn canlyniadau 'Seren Iaith' y buddiolwyr 5 i 9 oed fe gofnodwyd cynnydd o 50% yn eu defnydd o'r Gymraeg gartref gyda rhiant neu warchodwr, 66% yn eu defnydd o'r Gymraeg allan yn y gymuned, 20% yn eu defnydd o deledu / cerddoriaeth Gymraeg a 8% yn eu agwedd o fod siarad Cymraeg yn bwysig.<br>Dangoswyd canlyniadau 'Seren Iaith' y buddiolwyr 10 i 15 oed gynnydd o 31% % yn eu defnydd o deledu / cerddoriaeth Gymraeg, 63% yn eu defnydd o dechnoleg yn y Gymraeg (ee tecstio. apps ayyb) a 7% yn eu hyder wrth siarad Cymraeg.<br><br>**Eisteddfod Genedlaethol**<br>**5/8/17**<br>**6/8/17**<br>**7/8/17**<br>**8/8/17**<br>**9/8/17**<br>**10/8/17**<br>**11/8/17**<br>**12/8/17**<br><br>**Caffi Maes B – Awst 5ed a 6ed – 11.30 tan 13.15 / Gweddill yr wythnos o 11.30 tan 12.15**<br>Bocsŵn oedd yn cynnal y sesiynau (drop-in) ukulele yn nghaffi Maes B pob dydd.<br>Roedd y sesiynau yn agored i bawb gael dod draw i drio'r ukulele am y tro cyntaf neu i rhywun profiadol gael y cyfle i gyd-chwarae gyda eraill. Ymunodd dros 100 o bobl o bob oedran, gallu a chefndir yn y gweithgareddau, gyda adborth cadarnhaol iawn wedi ei dderbyn am y sesiynau.<br><br>**Maes D – Awst 7fed - 14.00 tan 14.45**<br>Pod Maes D - sesiwn ukulele i griw o ddysgwyr . Mynychodd dros 20 o bobl y sesiwn, lle cawsant y cyfle i ddysgu sgiliau newydd trwy gyfrwng y Gymraeg. | |

**Stondin Menter Môn - Prynhawniau Awst 8fed, 9fed a 10fed**

Ar brynhawniau Awst 8fed, 9fed a 10fed cynhaliwyd sesiynau ukulele yn stondin Mentr Môn lle roedd cyfle i bobl ddod draw i gael sesiwn dysgu'r ukulele. Sesiynau anffurfiol, hwyliog ac addysgiadol i rhieni a plant gael dysgu gydai gilydd. Unwaith eto cafwyd adbordd ffafriol dros ben am y sesiynau gyda plant a rhieni yn dod yn ôl am sesiynau ar y dyddiau canlynol.

**Sesiynau Creu Cerddoriaeth (band)**

21/8/17
22/8/17
23/8/17
24/8/17

Yn dilyn sesiynau blasu o amgylch ysgolion cynradd Môn, daeth criw o 6 o bobl bobl ifanc at ei gilydd yn Stiwdio 12, Llangefni i gymeryd rhan mewn gweithdy creu cerddoriaeth mewn ffurf band.
Cafwyd y cyfle i drio offerynnau gwahanol, cyfansoddi a recordio cân wreiddiol mewn stiwdio recordio.

Ar ddechrau a diwedd y prosiect fe ofynwyd i'r buddiolwyr lenwe mewn 'Seren Iaith' i gofnodi eu agweddau a defnydd o'r iaith Gymraeg rhwng dechrau a diwedd y prosiect.
Yn yr oedran 5 i 9 oed fe recordiwyd cynnydd 14 % yn eu defnydd o'r Gymraeg gartref, 25% yn defnydd o'r Gymraeg allan yn gymdeithasol, 35% yn eu defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg (ee mynd ar y wê, defnyddio apps, tecstio ayyb) a 50% yn eu defnydd o deledu a cherddoriaeth Gymraeg.
Yn yr oedran 10 i 15 fe recordiwyd cynnydd o 13% yn eu defnydd o'r Gymraeg yn eu bywyd cymdeithasol, 216% yn eu defnydd o dechnoloeg trwy gyfrwng y Gymraeg (ee tecstio, syrffio'r wê, apps ayyb) a 8% yn eu defnydd o deledu a cherddoriaeth Gymraeg.

| | | |
|---|---|---|
| | **Sesiynau Creu Cerddoriaeth (ukuleles)**<br>29/8/17<br>30/8/17<br>31/8/17<br><br>Cynhlaliwyd tridiau o weithgareddau iwcalili yn Stiwdio 12, Llangefni yn ystod wythnos olaf gwyliau'r haf. Daeth 8 o bobl ifanc at ei gilydd i ddysgu chwarae, cyfansoddi a recordio cân wreiddiol gyda'r iwcalili.<br><br>'Seren Iaith' - 5 i 9 oed fe cofnodwyd cynnydd o 17% yn eu defnydd o'r Gymraeg gartref gyda rhiant neu warchodwr, 29% yn eu defnydd o'r Gymraeg yn eu bywyd cymdeithasol a 100% yn eu defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg (ee tecstio, apps, y wê ayyb)<br>Yn yr oedran 10 i 15 fe recordiwyd cynnydd o 11% yn eu defnydd o'r Gymraeg yn eu bywyd cymdeithasol a 16% yn eu defnydd o deledu a cherddoriaeth Gymraeg.<br><br>**8/6/2017 –** Gweithdy Celf Gŵyl Cefni yn Oriel Môn i greu celf ar gyfer yr orymdaith.<br>10 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan. | |
| | **Chwarter 3**<br><br>**Bocswn –** https://www.facebook.com/bocswn/<br><br>Hanner tymor - Gwirfoddoli<br>31/10/17<br>1/11/17<br>2/11/17 | |

Yn ystod y gwyliau cafodd pobl ifanc ddod at diwtoriaid Bocsŵn i helpu gyda'r sesiynau creu cerddoriaeth yn Stiwdio 12, Llangefni.
Cafodd Lily (sydd yn bl 11 Ysgol Gyfun Llangefni) brofiad o weithio gyda phobl ifanc mewn gweithdai cerddoriaeth. Buodd hi'n helpu'r bobl ifanc dysgu chwarae gitâr, bas, drymiau ac allweddellau, yn ogystal â chyfansoddi. Cynorthywodd Lily blant ieuengach i siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn ystod y sesiwn.

Hanner Tymor - Sesiynau creu cerddoriaeth
31/10/17
1/11/17
2/11/17
3/11/17

Cynhaliwyd gweithgareddau dros 4 diwrnod yn Stiwdio 12, Llangefni yn ystod gwyliau hanner tymor.
Daeth 2 griw o bobl ifanc at ei gilydd i greu band, cyfansoddi a recordio cân unigryw yn ystod y gwyliau. Cawsant eu hyfforddi i chwarae sawl offeryn yn ystod y sesiynau e.e drymiau, gitâr, allweddellau a bas cyn ffurfio band a cychwyn cyfansoddi.

Ar ddechrau a diwedd y prosiect gofynnwyd i'r buddiolwyr lenwi holiadur i ymwneud â'i hyder i drio pethau newydd ac ateb holiadur byr am eu hagweddau a defnydd o'r iaith Gymraeg.

Grwp 1
Dangoswyd canlyniadau holiadur y grŵp cyntaf bod cynnydd o 7% yn eu hyder i drio pethau

| | | |
|---|---|---|
| | 6% yn eu hyder i rannu syniadau gydag eraill.<br>Yn 'Seren Iaith' y buddiolwyr 5 i 9 oed y grŵp fe recordiwyd cynnydd o 100% yn eu defnydd o'r Gymraeg gyda'i ffrindiau, 63% yn eu defnydd o'r Gymraeg gyda rhiant neu warchodwr, 17% yn eu hyder i weithio yn y Gymraeg e.e. darllen ac ysgrifennu, 46% yn nodi ei bod yn bwysig siarad Cymraeg a 25% yn eu defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. defnyddio apps, y we, tecstio ayyb<br>Gyda'r buddiolwyr 10 i 15 oed cofnodwyd cynnydd o 43% yn eu defnydd o'r Gymraeg gyda'i ffrindiau, 33% yn eu defnydd o'r Gymraeg gyda rhiant neu warchodwr a 54% o gynnydd mewn gwylio teledu a gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg.<br><br>Roedd presenoldeb ar gyfer y sesiynau hyn yn 96%<br><br>Grwp 2<br>Yn holiadur gwerthuso'r ail grŵp fe gofnodwyd cynnydd o 6% yn eu hyder i drio pethau newydd, 6% yn eu hyder i rannu syniadau a 69% yn eu hyder i weithio gydag eraill.<br>Yn eu 'Seren Iaith' gwelwyd cynnydd o 50% mewn faint o deledu a cherddoriaeth Cymraeg maen nhw'n ei wylio / gwrando, 25% o gynnydd mewn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol a 75% yn eu defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. tecstio, defnyddio apps, y we ayyb<br><br>Roedd presenoldeb ar gyfer y sesiynau hyn yn 100%<br><br><br>**Sesiynau creu cerddoriaeth – Niwbwrch**<br>8/11/17<br>15/11/17 (Sesiwn 1 – 16.00 – 17.15)<br>22/11/17 (Sesiwn 2 – 17.15 – 18.30)<br>29/11/17<br>6/12/17 | |

Cynhaliwyd cyfres o weithdai creu cerddoriaeth yn Neuadd Pritchard Jones, Niwbwrch. Agorwyd y sesiynau allan i bobl ifanc yng nghymunedau Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo.

Yn y grŵp cyntaf cymerodd 4 o bobl ifanc y cyfle i greu band a recordio cân unigryw eu hunain, trwy wneud hyn yn ennill achrediad Agored Cymru am eu sgiliau rhythm.

Ar ddechrau a diwedd y prosiect fe ofynnwyd i'r bobl ifanc lenwi holiadur am eu defnydd / agweddau at yr iaith Gymraeg. Yn y grŵp hwn fe ddangoswyd cynnydd o 29% yn faint o weithgareddau Cymraeg roedden nhw'n ei wneud tu allan i'r ysgol.
Roedd presenoldeb ar gyfer y grŵp hwn yn 80%

Rhoddwyd yr un holiadur i fuddiolwyr yr ail grŵp. Fe recordiwyd 21% o gynnydd yn eu defnydd o'r Gymraeg adref, 23% mewn faint o weithgareddau Cymraeg mae nhw'n cymryd rhan ynddynt tu allan i'r ysgol, 38% yn eu hyder i weithio (darllen / ysgrifennu) yn y Gymraeg a 18% yn eu hyder i siarad Cymraeg.
Roedd presenoldeb y sesiynau hyn yn 92%.

**Sesiynau creu cerddoriaeth – Canolfan Gymunedol Gwelfor, Caergybi**

6/11/17
13/11/17 (Sesiwn 1 – 16.00 – 17.15)
20/11/17 (Sesiwn 2 – 17.15 – 18.30)
27/11/17
4/12/17
11/12/17

| | | |
|---|---|---|
| | Agorwyd sesiynau allan yn gymunedol i bobl ifanc ardal Llanfawr, Caergybi. Dyma ardal ble nad ydi gweithgareddau Cymraeg yn digwydd yn rheolaidd nac yn naturiol.<br>Daeth dau griw at ei gilydd pob nos Lun am 6 wythnos i chwarae a chreu cerddoriaeth yn Canolfan Gymunedol Gwelfor.<br>Enillodd pob yn o’r buddiolwyr achrediad Agored Cymru am eu sgiliau rhythm.<br><br>Grwp 1<br>Ar ddechrau a diwedd y prosiect gofynnwyd i’r bobl ifanc lenwi holiadur i werthuso eu hagwedd at drio pethau newydd ac ar eu defnydd / agweddau o’r iaith Gymraeg trwy lenwi ‘Seren Iaith’.<br>Yng nghanlyniadau'r grŵp cyntaf fe recordiwyd 7% o gynnydd yn eu hyder i drio pethau newydd a 10% yn eu hyder i rannu syniadau gydag eraill.<br>Fe rannwyd y grŵp yn ddau o ran eu hoedrannau ar gyfer canlyniadau eu seren iaith.<br>Yn yr oedran 5 i 9 oed fe ddangoswyd cynnydd o 43% yn eu defnydd o’r Gymraeg gyda’i ffrindiau, 22% yn eu defnydd o’r Gymraeg adref a 12% o gynnydd yn y gweithgareddau Cymraeg maen nhw’n ei wneud tu allan i’r ysgol.<br>Yn yr oedran 10 i 15 fe ddangoswyd mwy o gynnydd yn eu defnydd o’r Gymraeg. Dangoswyd 40% o gynnydd yn eu defnydd o’r Gymraeg gyda'u ffrindiau, 50% gyda'u rhieni, 90% yn eu gweithgareddau Cymraeg tu allan i’r ysgol, 16% yn fwy cyfforddus i weithio a darllen yn y Gymraeg, 25% yn eu hyder i siarad Cymraeg a 40% o gynnydd mewn faint o deledu a cherddoriaeth Cymraeg maent yn ei wylio / gwrando.<br><br>Roedd presenoldeb ar gyfer y grŵp hwn yn 87%<br><br>Grwp 2<br>Yng nghanlyniadau Seren Iaith yr ail grŵp fe recordiwyd cynnydd o 23% yn eu defnydd o’r Gymraeg gartref gyda’i rhieni / gwarchodwr, 29% yn nifer o weithgareddau Cymraeg tu allan i’r ysgol a 100% yn eu defnydd o deledu / cerddoriaeth Cymraeg. | |

Roedd presenoldeb ar gyfer y gweithgareddau'r ail grŵp yn 92%.

**Sesiynau creu Cerddoriaeth – adran trochi, Ysgol Llanfawr, Caergybi**

Cynhaliwyd sesiynau creu cerddoriaeth gyda'r iwcalili ar y cyd ag Uned Iaith yn Ysgol Llanfawr, Caergybi. Dros gyfnod o 6 wythnos ar ddiwedd 2017 gweithiodd tiwtoriaid Bocsŵn gyda phlant yr uned i gefnogi eu hydrechion i ddysgu Cymraeg trwy greu cân yn seiliedig ar beth maen nhw wedi ddysgu yn ystod eu hamser yn yr uned h.y. atgyfnerthu rheolau iaith, ffurf brawddegau etc.

Ar ddechrau a diwedd y prosiect fe ofynnwyd i'r bobl ifanc lenwi holiadur ar ffurf 'Seren Iaith' mesur eu defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â'u hagweddau tuag at yr iaith.
Yn yr oedran 5 i 9 fe ddangoswyd cynnydd ar draws yr holiadur cyfan. 31% o ddefnydd o'r Gymraeg gyda'i ffrindiau, 41% yn eu defnydd o'r Gymraeg gartref, 110% yn y nifer o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg tu allan i'r ysgol, 7% o gynnydd mewn faint o gyffyrddus maen nhw i ddarllen yn y Gymraeg, 10% yn eu hyder i siarad Cymraeg, 8% yn eu hagwedd bod siarad Cymraeg yn bwysig a 16% o gynnydd yn eu defnydd o deledu a cherddoriaeth Cymraeg.

Yn yr oedran 10 i 15 recordiwyd cynnydd o 66% yn eu defnydd o'r Gymraeg gyda'u ffrindiau, 14% o ddefnydd o'r Gymraeg gartref, 30% yn y nifer o weithgareddau Cymraeg tu allan i'r ysgol, 24% mewn faint o gyffyrddus maent i weithio a darllen yn y Gymraeg a 27% yn eu hyder i siarad Cymraeg.

Bydd Bocsŵn yn parhau i weithio gyda'r uned iaith yn y flwyddyn newydd gyda chriw newydd o ddysgwyr.

**Sesiynnau blasu Theatr Ieuenctid Môn**

| | | |
|---|---|---|
| | 3/10/17 – Ysgol Gynradd Rhosybol – 28 o blant<br>3/10/17 – Clwb Sgowtiaid, Amlwch – 20 o blant<br>11/10/17 – Ysgol Rhyd y Llan - 60 o blant<br>24/10/17 – Adran Bach yr Urdd, Henblas – 30 o blant<br>15/11/17 – Ysgol Penysarn - 45 o blant<br>30/11/17 – Clwb Hwyl a Sbri, Caergybi – 12 o bobl ifanc<br><br>Gweithdai am ddim i Ysgolion ac adrannau er mwyn rhoi blas ar yr hyn sy'n cael ei gynnig yn wythnosol yn y sesiynnau. Pwyslais amlwg ar dalgylch Amlwch er mwyn ceisio codi niferoedd yno.<br><br>Bwriad y sesiynau ydy codi ymwybyddiaeth am y ddarpariaeth, yn ogystal â chefnogi'r Ysgolion gyda'u hymdrechion gyda'r Siarter Iaith. Mae'r dulliau yn rhai gall yr athrawon eu mabwysiadu ar gyfer cyflwyno iaith drwy gemau theatric syml i godi hyder a chyfrannu at ddatblygiad llafaredd.<br><br>**Prosiect Profi – partner i brosiect gyda Pontio**<br><br>**Gweithdy 1 : 20/11/17**<br>**Gweithdy 2 : 22/11/17**<br><br>Cynllun i uwch sgilio pobl ifanc sy'n debygol o ddisgyn i gategori NEET. Cyflwyno her i bobl ifanc ysgolion dalgylch Ynys Môn, Gwynedd a Conwy gan weithio'n ddwys efo Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Bodedern gan edrych ar sut i **gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar Gyfryngau Cymdeithasol.**<br><br>Rhagor o waith i ddilyn yn Chwarter 4.<br>Cyflwyno i griw dethol o flwyddyn 12 o 12 Ysgol Uwchradd – gweithio'n ddwys gyda 10. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**Bocsŵn**<br><br>**Sesiynau Creu Cerddoriaeth – Porthaethwy**<br>15/1/18<br>22/1/18<br>29/1/18<br><br>Gweithdai cafodd eu trefnu ar y cyd â Gwasanaeth Ieuenctid Môn a'r heddlu. Amcan y prosiect oedd rhoi cyfleoedd a sgiliau newydd i 6 o bobl ifanc mewn sefyllfa fregus, er enghraifft mewn peryg o gael ei diarddel o'r ysgol, mewn trwbl gyda'r heddlu ac yn y blaen.<br>Yn y tri gweithdy cafodd y bobl ifanc gyfle i droi eu llaw at offerynnau gwahanol, jamio, meddwl am eiriau i ganu, a rhoi profiad Cymraeg positif i'r bobl ifanc ar gydweithio ar brosiect hwyliog.<br><br>**Sesiynau Creu Cerddoriaeth – Amlwch**<br>3/1/18<br>10//1/18<br>17/1/18 Sesiwn 1 4- 5.15<br>24/1/18 Sesiwn 2 5.15 – 6.30<br>31/1/18 | |

Prosiect ar y cyd â Gwasanaeth Ieuenctid Môn i ddarparu gweithgareddau creadigol, hwyliog i bobl ifanc yn Amlwch.
Cynhaliwyd y sesiynau i 8 o bobl ifanc yn adeiladau Hyfforddiant Parys, Amlwch.
Cafodd pob un o'r bobl ifanc gyfle i chwarae sawl offeryn gwahanol, ffurfio band, dysgu chwarae, cyfansoddi a recordio cân Gymraeg unigryw eu hunain. Hyn i gyd wrth ennill achrediad Agored Cymru am eu sgiliau newydd.
Ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect gofynnwyd i'r bobl ifanc lenwi holiadur am eu hyder ac am eu defnydd / agwedd tuag at yr iaith Gymraeg.

Grŵp 1
Dangoswyd canlyniadau holiadur y grŵp cyntaf bod cynnydd o 5% wedi bod yn eu hyder i roi cynnig ar bethau newydd a 26% yn eu hyder i weithio gydag eraill.
Recordiwyd canlyniadau eu defnydd ac agweddau at yr iaith Gymraeg ar ffurf Seren Iaith.
Dangoswyd cynnydd yn pob un o'r cwestiynau a ofynnwyd.
.Dw i'n siarad Cymraeg efo'n ffrindiau - 48%
.Dw i'n siarad Cymraeg hefo fy rhieni / gwarchodwyr -21%
.Dw i'n gwneud gweithgareddau Cymraeg tu allan i'r ysgol - 32%
.Dw i'n teimlo'n gyffyrddus wrth weithio yn y Gymraeg e.e. darllen, ysgrifennu -7%
.Dw i'n hyderus wrth siarad Cymraeg - 12%
.Dw i'n meddwl bod hi'n bwysig siarad Cymraeg - 21%
.Dw i'n gwrando ar fiwsig a/neu wylio rhaglenni Cymraeg- 26%

Roedd presenoldeb ar gyfer y sesiynau hyn yn 95%

Grŵp 2
Dangoswyd canlyniadau holiadur yr ail grŵp bod cynnydd o 4% wedi bod yn eu hyder i drio pethau

| | | |
|---|---|---|
| | %yn eu hyder i rannu syniadau a 13% yn eu hyder i weithio gydag eraill.<br>Recordiwyd canlyniadau eu defnydd ac agweddau at yr iaith Gymraeg ar ffurf Seren Iaith. Dangoswyd cynnydd yn eu hagweddau a defnydd o'r Gymraeg yn y pwyntiau canlynol….<br>.Dw i'n gwneud gweithgareddau Cymraeg tu allan i'r ysgol 40%<br>.Dw i'n hyderus wrth siarad Cymraeg 17%<br>.Dw i'n hyderus wrth siarad Cymraeg 31%<br><br>Roedd presenoldeb ar gyfer y sesiynau hyn yn 89%<br><br>**Creu cerddoriaeth a chyfansoddi gyda'r ukulele – Ysgol Llanfawr, Caergybi**<br>12/1/18<br>18/1/18<br>25/1/18<br>1/2/18<br>8/2/18<br><br>Gwahoddwyd Bocsŵn gan ysgol Llanfawr i weithio gyda chriw o ddisgyblion bregus, Cymraeg ail iaith er mwyn gwella ei sgiliau ffocysu a chanolbwyntio. Gwnaethpwyd hyn trwy gyfres o weithdai dysgu chwarae a chyfansoddi gyda'r ukulele.<br>Cafodd 8 o ddisgyblion eu dewis i gymryd rhan yn y gweithgareddau roedd hefyd yn cael ei ystyried yn rhan allweddol o'u haddysg a gwella eu sgiliau iaith.<br>Fe ddysgodd y plant chwarae nifer o gordiau ar yr ukulele, dysgu sut i ddod fyny gydag alawon ac yna roi geiriau i'r gân cyn ei recordio.<br>Trwy ddysgu eu sgiliau newydd fe enillwyd achrediad Agored Cymru gan bob un o'r disgyblion.<br><br>Ar ddechrau a diwedd y prosiect fe gasglwyd data gan y bobl ifanc am eu defnydd ac agweddau tuag at yr iaith Gymraeg trwy lenwi holiadur ar ffurf 'Seren Iaith'. Dangoswyd cynnydd yn y canlyniadau ar y pwyntiau canlynol; | |

| | | |
|---|---|---|
| | ad Cymraeg efo'n ffrindiau 34%<br>.Dw i'n siarad Cymraeg hefo fy rhieni / gwarchodwyr 3%<br>.Dw i'n gwneud gweithgareddau Cymraeg tu allan i'r ysgol 15%<br>.Dw i'n teimlo'n gyffyrddus wrth weithio yn y Gymraeg e.e. darllen, ysgrifennu 27%<br>.Dw i'n gwrando ar fiwsig a/neu wylio rhaglenni Cymraeg 152%<br><br>**Sesiynau cyfansoddi gyda'r ukulele – Canolfan Addysg Y Bont, Llangefni**<br>16/1/18<br>30/1/18<br>6/2/18<br>20/2/18<br>27/2/17<br><br>Prosiect gydag adran gerdd Canolfan Addysg Y Bont, Llangefni.<br>Aeth tiwtoriaid Bocsŵn yno i weithio gyda 7 disgybl oed cynradd sydd gydag anghenion dysgu arbennig i gynnal sesiynau hwyliog gyda'r ukulele.<br>Fe ddysgodd pob plentyn gordiau gwahanol ar yr ukulele, dod fyny gydag alawon, ysgrifennu geiriau a recordio cân unigryw.<br>Yn ystod y sesiynau buodd y disgyblion yn gwneud gweithgareddau er mwyn ennill achrediad Agored Cymru am eu sgiliau rhythm.<br><br>**Sesiynau creu cerddoriaeth – Niwbwrch (Gwasanaeth Ieuenctid)**<br><br>19/2/18<br>26/2/18<br>5/3/18<br>12/3/18<br>19/3/18 | |

Cynhelir sesiynau creu cerddoriaeth gyda Gwasanaeth Ieuenctid Môn yn Eglwys Bach, Niwbwrch. Cafodd 5 o gyfranogwyr y cyfle a'r profiad o ddysgu offeryn, ffurfio band, cyfansoddi a recordio cân unigryw eu hunain.
Yn ystod y sesiynau enillodd y bobl ifanc achrediad Agored Cymru am eu sgiliau newydd

**Sesiynau creu cerddoriaeth – Llangefni (Trac)**

26/2/18
5/3/18
12/3/18
19/5/18
9/4/18
16/4/18

Cynhelir cyfres o weithdai creu cerddoriaeth gyda gwasanaeth Trac, Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth yn gofalu am ddisgyblion sydd mewn perygl o gael ei diarddel o'r ysgol.
Rhoddwyd y profiad i griw o9 bobl ifanc ddo i ddysgu chwarae offeryn, ffurfio band, cyfansoddi a recordio cân eu hunain yn Stiwdio 12, Llangefni.

Derbyniwyd achrediad Agored Cymru am eu sgiliau newydd

Sesiynau creu cerddoriaeth – Stiwdio 12, Llangefni

21/2/18
28/2/18 Sesiwn 1 - 4 tan 5.15

| | | |
|---|---|---|
| | Sesiwn 2 – 5.30 tan 6.45<br>14/3/18<br>21/3/18<br><br>Cynhelir cyfres o sesiynau creu cerddoriaeth i ddau griw o bobl ifanc yn stiwdio recordio, Stiwdio 12, Llangefni. Agorwyd y sesiynau allan i bobl ifanc ardal Llangefni a Talwrn.<br>Daeth y plant at ei gilydd am 5 sesiwn o ddysgu, ymarfer, cyfansoddi a recordio eu cân unigryw. Enillodd y cyfranogwyr achrediad Agored Cymru am eu sgiliau newydd.<br><br>**Gweithdai Blasu Theatr Ieuenctid Môn 16/1/18** –<br>**Ysgol Gymraeg Morswyn, Caergybi**<br>Sesiynau blasu gyda blynyddoedd 2-5 fel blas o'r ddarpariaeth wythnosol yn TIM Bach Caergybi.<br>7 o aelodau newydd wedi ymuno o ganlyniad i'r gweithdai hyn.<br>Nifer : 90<br><br>**Prosiect Profi**<br>**Gweithdy 3 – 29/1/18**<br>**Gweithdy 4 – 31/1/18**<br>Gweithio'n ddwys gyda chynrhychiolaeth o ddwy ysgol, Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol David Hughes. Annog a rhoi cyfeiriad ar eu gwaith digidol Cymraeg. Cyflwyno manteision dwyieithrwydd i'r criw er defnydd eu cynllun prosiect. Arfogi'r bobl ifanc i fod yn hyderus yn cyflwyno gwybodaeth am y Fenter mewn digwyddiad i'r cyhoedd yn Theatr Bryn Terfel, Pontio (6/3/18).<br>Niferoedd : 10<br>**Canlyniadau -**<br>100% wedi mwynhau y profiad newydd yn fawr<br>100% wedi codi hyder mewn defnyddio meddalwedd technegol | |

| | | |
|---|---|---|
| | y hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg ar y We | |
| 3. Cynnal 25 o sesiynau ymwybyddiaeth iaith i hyd at 500 o blant a phobl ifanc gyda'r nod o newid eu arferion iaith ar y buarth ac yn gymdeithasol ar ôl ysgol erbyn Rhagfyr 2017. Cofnodi ymatebion drwy holiaduron. Erbyn Mawrth 2018 ailymweld â'r 500 er mwyn argyfnerthu'r neges a mesur effaith drwy waith gwerthuso pwrpasol. | **Chwarter 1**<br><br>**26/6/17 : Ymwybyddiaeth Iaith i 6ed Ysgol David Hughes**<br><br>Cynhaliwyd sesiwn ymwybyddiaeth effeithiol iawn gyda criw y 6ed. Rhoddwyd bwyslais ar ddau brif ogwydd, sef y Gymraeg mewn byd gwaith, a defnydd gymdeithasol y Gymraeg.<br><br>Roedd y sesiwn yn un ymarferol a chynhwysol, yn edrych am hysbysebion swyddi lleol, a'r bywyd gymdeithasol fyrlymus yn y Gogledd – defnyddiwyd y ffaith fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod yma i Ynys Môn fel arweiniad clir hefyd.<br><br>Wedi'r sesiwn fe anfonodd staff y Fenter fanylion swyddi a chyfleodd gwirfoddoili ymlaen at y criw, a fe lwyddodd dau, Buddug a Ellis i ffeindio gwaith ar faes yr Eisteddfod, Buddug gyda s4c a Ellis ym mhabell Maes D.<br><br>Nifer presennol: 80 | |
| | **Chwarter 2**<br>Ar ddechrau'r flwyddyn acedemaidd cynhaliwyd sesiynau Ymwybyddiaeth iaith i holl flwyddyn 7 y sir. Yn chwarter 2, rydym hanner ffordd drwy'r sesiynnau a wedi cwblhau dwy ysgol. Mi fydd y data yma yn cael ei ddadansoddi, a'i fwydo yn ôl i'r Ysgol, ac i fforwm iaith y sir, yn ystod Chwarter 3. | |

| | | |
|---|---|---|
| | 15 + 22 + 29 /9/17 @ Ysgor Syr Thomas Jones : 78 o ddisgyblion.<br><br>18 + 27/9/17 + 4/10/17 @ Ysgol Gyfun Llangefni : 103 o ddisgyblion<br><br>21 + 28/9/17 + 5/10/17 @ Ysgol Uwchradd Caergybi : 167 o ddisgyblion<br><br>26/9/17 @ Ysgol David Hughes : 30 o ddisgyblion<br><br>Rhagor o sesiynnau YDH wedi'r trefnu ar gyfer Chwarter 3 a sesiynau yn Ysgol Uwchradd Bodedern i'w trefnu.<br><br>Bydd adborth drylwyr yn cael ei fewnbynnu i'r adroddiad yn Chwarter 3. | |
| | **Chwarter 3**<br><br>Adborth y sesiynnau sydd wedi eu cwblhau hyd yma :<br><br>Ysgol Gyfun Llangefni : **96**% wedi dysgu rhywbeth newydd am iaith, hanes neu ddiwylliant Cymru. **94**% eisiau dysgu mwy am hanes Cymru. **92**% yn teimlo ym mwy balch o'u Cymreictod. **92**% yn teimlo fod y Gymraeg yn bwysig am resymau gyrfaol a chymdeithasol.<br>Ysgol Uwchradd Caergybi : **89**% wedi dysgu rhywbeth newydd am iaith, hanes nei diwylliant Cymru. **94**% eisiau dysgu mwy am hanes Cymru. **83**% yn teimlo ym mwy balch o'u Cymreictod. **69**% yn teimlo fod y Gymraeg yn bwysig am resymau gyrfaol a chymdeithasol.<br>Ysgol Syr Thomas Jones : **100**% wedi dysgu rhywbeth newydd am iaith, hanes nei diwylliant Cymru. **84**% eisiau dysgu mwy am hanes Cymru. **100**% yn teimlo ym mwy balch o'u Cymreictod. **95**% yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gymraeg yn bwysig am resymau gyrfaol a chymdeithasol.<br><br>Gweler atodiad i'r canlyniadau yn llawn – gan gynnwys sylwadau'r bobl ifanc.<br><br>Canlyniadau calonogol dros ben.<br><br>Canlyniadau i'r ddwy Ysgol Uwchradd arall yn y Chwarter nesaf. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith Ddigidol 8/1/18 – Clwb Gwyrdd, Bodedern. Niferoedd : 5**<br>**26/2/18 – Clwb Ieuenctid Bodedern. Niferoedd : 40**<br><br>Cyflwyniad i 40 o bobl ifanc, gweithio'n ddwys gyda 7.<br>Cynhaliwyd dwy sesiwn ymwybyddiaeth ddigidol gyda criw o bobl ifanc ym Modedern. Pwrpas y sesiynau oedd annog a dysgu'r bobl ifanc am y platfformau digdol sydd ar gael yn y Gymraeg, ac i feithrin eu hyder wrth greu cynnwys ar gyfer cyfryngau cymdeithasol.<br>Yn dilyn llwyddiant y sesiwn yn y Clwb Ieuenctid, mae Swyddog Ieuenctid y dalgylch wedi rhoi cyfrifoldeb cynnwys digidol i un o'r criw ddangosodd ddiddordeb a sgil yn y gwaith creu. Dyma'r tro cyntaf i Aron greu cynnwys digidol, gan nad oedd ganddo'r offer i allu gwneud hynny adref. Roedd ei brofiad cyntaf o greu cynnwys er mwyn defnydd cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, ac yn brofiad cadarnhaol dros ben. Mae Aron bellach hefyd wedi ymuno gyda ein Theatr Ieuenctid.<br><br>**Clwb Fideo – prosiect ar y cyd gydag Urdd Ynys Môn Llangefni (15/1/18 – 5/2/18)**<br>**Stiwdio12**<br><br>Cyfres o sesiynau wythnosol yn canolbwyntio ar greu cynnwys digidol Cymraeg. Ymchwilio i'r ddarpariaeth bresennol, adnabod y tueddiadau poblogaidd a rhoi cynnig eu hunain ar greu | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd un gweithdy penodol yn canolbwyntio ar sefyllfa ailgylchu / gwastraff yn lleol. Cafwyd ymweliad gan gynrychiolydd o Cadw'ch Gymru'n Daclus aeth a'r criw o bobl ifanc i Nant y Pandy yn Llangefni, a defnyddiodd y criw y cyfle hwn i ddogfennu sefyllfa gwastraff yn lleol a creu fideo yn hyrwyddo ailgylchu drwy gyfrwng y Gymraeg. 100% wedi mwynhau yn arw 100% wedi codi hyder mewn defnyddio meddalwedd technegol 100% yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg ar y We | |
| 4. Cynnal Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc i hyd at 12 o bobl ifanc ar y tro gyda'r nod o gynnal 4 digwyddiad cymdeithasol Cymraeg yn ystod y flwyddyn ac erbyn Mawrth 2018. | **Chwarter 1**<br><br>Mae 'Rhywdwaith Perfformwyr Ifanc' yn parhau pob nos Fawrth yn ystod tymor Ysgol.<br>Bydd y seseiwn cyntaf yn cymeryd lle am 4.30 tan 6 gyda'r ail sesiwn yn mynd o 6.30 tan 8.<br>Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda 2 grwp, A(n)naearol a Carma yn eu hyfforddi ar drefnu digwyddiadau, cyfansoddi ac i datblygu eu sgiliau perfformio.<br><br>Yn ychwanegol i'r sesiynau uchod, bydd y bandiau yn cael y cyfle i recordio eu deunydd ac ei uwchlwytho i'w soundcloud eu hunain.<br><br>**18 a19 /4/17 - Carma yn y stiwdio**<br>Yn dilyn cystadlu yn Brwydr Y Bandiau C2 daeth Carma mewn i'r stiwdio i recordio deunydd newydd.<br>Recordiwyd dwy gân newydd sbon, 'Ni Di'r Hogia' a 'Stopio'.<br><br>Bydd y band yn sefydlu Soundcloud eu hunain ar lein ar ôl gorffen recordio a chymysgu. Mae'r band hefyd wrthi yn creu poster i hysbysebu am fasydd newydd.<br><br>Ers bod yn y stiwdio yn mis Ebrill, mae Carma bellach wedi gorffen recordio 2 gân sydd yn barod i roi ar eu tudalen Soundcloud newydd. Hefyd mae Carma ac A(n)aearol wedi derbyn hyfforddiant | |

dlu tulalen Wicipedia eu hunain.

Mi fuodd A(n)naearol hefyd yn y stiwdio yn mis Mai. Cafodd y band sesiwn recordio cân newydd sbon ‘Rhyfeddodau’, bydd yn cael ei ychwanegu yn fuan iawn at ei tudalen Soundcloud.

Bydd y ddau fand yn perfformio yn Gwyl Cefni eieni.
Perfformiodd Carma yn noson ‘Gadael Ysgol’ yn Ysgol Gyfun Llangefni ar Fehefin 26ain ac wedi eu ychwanegu at Gwyl Rhosneigr, Gorffennaf 29ain

Yn mis Gorffenaf cafodd aelodau’r ddau fand eu achrediadau Agored Cymru trwodd am eu gwaith caled o drefnu gigs drost y nadolig. Ac rwan ma’r ddau fand wrthi’n ymarfer yn galed am eu slot yn Maes D yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Hefyd yn ystod Gorffennaf cafodd y ddau fand aelodau newydd. Fe ymunodd Ciaran ar y gitar gyda Carma, ac ymunodd Cordelia fel canwr i A(n)naearol.

**Chwarter 2**

**27/7/17 – Gweithdy Celf ‘Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc’**

Cafodd criw ‘Rhwydwaith’ y cyfle a profiad o withdy addurno gyda artist Menna Thomas.
Mi cafodd llythrennau mawr pren ‘Bocsŵn’ ei comisiynnu, felly mi ddaeth y criw at ei gilydd o dan hyfforddiant i’w addurno ar gyfer digwyddiau ‘Rhwydwaith’ yn y dyfodol.

**11/8/17 – Gig Maes D**

Gwahoddwyd bandiau Bocsŵn i chaware ar lwyfan Maes D yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Ynys Môn yn Modedern. Cafwyd set yr un gan Carma ac A(n)naearol ar ddydd gwener, Awst 11fed.
Profiad anhygoel i’r pobl ifanc gael perfformio o flaen cynulleidfa newydd sbon, diarth yn prifwyl

| | | |
|---|---|---|
| | **31/8/17**<br><br>Yn ystod ywthnos olaf gwyliau'r haf mi ddaeth band newydd i ymuno â'r 'Rhwydwaith'<br>Mi cafodd Jac a Simon gyfle i ddod draw i Stiwdio 12, Llangefni i ddechrau jamio.<br>Bydd y ddau yn cychwyn dod i'r sesiynau yn reolaidd o mis Medi ymlaen a cychwyn eu hyfforddiant a dayblygiad cerddorol o dan arweiniad profiadol tiwtoriaid proffesiynol.<br><br>Yn sgîl hyn bydd Carma yn cymeryd cam yn ôl a dod pob yn ail wythnos i'r stiwdio i ymarfer, gan roi y cyfle i Jac a Simon ddefnyddio'r adnoddau.<br>Erbyn hyn mae Carma wedi datblygo i allu sefyll fwy ar traed eu hunain, chwilio am gigs a hefyd wedi ffeindio gofod ymarfer newydd i'w hunain. | |
| | **Chwarter 3**<br><br>**Rhwydwaith**<br><br>**Hyfref / Tachwedd**<br><br>**Carma**<br><br>Cafodd Carma sesiwn gyda pherchenog label cyhoeddi a recordiau, Dan Amor. Yn y sesiwn eglurwyd prosesau hawlfraint a phrosesau casglu breindaliadau cerddoriaeth, pwysigrwydd cofrestru caneuon ac eu hunain fel artisitiaid gyda'r PRS .<br><br>Chwaraeodd Carma gig diwedd tymor yn ysgol Bodedern yn mis Hydref mewn gig oedd wedi ei drefnu gan ddisgyblion yr ysgol. Gig anibynnol sydd wedi codi yn sgil llwyddiant y prosiect hwn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Bu Carma yn fuddigol mewn cystadleuaeth brwydr y bandiau yn Ngholeg Menai ar yr 21ain o Dachwedd. Fel gwobr bydd yn band yn cael perfformio yn Pontio, Bangor ar y 23ain o Ionawr<br><br>**A(n)naearol**<br>Mae A(n)aearol wedi cychwyn cyfansoddi o’r newydd o dan arweiniad cerddor profiadol, Dan Amor. Byddant yn gweld ffrwyth llafur y sesiynau hyn cyn y nadolig gyda recordiad newydd sbon.<br><br>Yn dilyn ymddangosiad cân A(n)naearol ar podcast Super Furry Animals llynedd mae eu cân ‘Cysawd Yr Haul’ wedi cael ei gynnwys ar CD amlgyfranog Recordiau Cae Gwyn ar gyfer Dydd Miswig Cymru 2018. Bydd pob disgybl yn Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst yn derbyn copi am ddim, bydd y CD ar gael mewn gigs unrhyw artist yn gysylltiedig â Recordiau Cae Gwyn, a bydd y CD yn cael ei anfon i bawb ar rhestr cysylltiadau Recordiau Cae Gwyn e.e DJs 6 Music, Radio Cymru, Radio Wales, Radio 1 a thu hwnt. Bydd yr albym yn cael ei dosbarthu yn ddigidol yn fyd eang a bydd y CD ar gael am ddim gyda phecynnau arbennig ar wefan y label. Byddwn ni hefyd yn rhoi copi am ddim i bawb bydd yn cymeryd rhan yn gweithgareddau Bocsŵn ar ôl y dyddiad rhyddhau. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc**<br><br>Cafodd y grwp A(n)naearol eu cynnwys ar CD amlgyfrannog ‘Casgliad Cae Gwyn’ ar gyfer Dydd Miwsig Cymru, ac yn sgil hyn, chwraewyd un o’u caneuon ar BBC 6 Music ar sioe Tom Ravenscroft ar nos Wener, Ionawr 12fed ac yna ar sioe Gideon Coe ar nos Lun, Ionawr 15fed.<br><br>Chwaraeodd A(n)naearol 2 gig yn ddiweddar. Un fel rhan o daith cylchgrawn Y Selar yn Cartio Môn, Bodedern ac yna trefnwyd gig gyda fforwm ieuenctid Ysgol Uwchradd Caergybi i ddathlu Dydd Miwsig Cymru yn yr ysgol ar ddydd Gwener y 9fed o Chwefror. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafodd fideo ohonynt yn perfformio ei ddefnyddio mewn fideo promo gan gwmni Working World sydd yn gyfrifol am waith PR ar gyfer Dydd Miwsig Cymru. Dangoswyd y fideo ar BBC Breakfast ar y 8fed o Chwefror pan oedd llysgenad y diwrnod, Huw Stephens yn siarad ar y sioe.<br>Yn ystod yr un penwythnos cafodd eu cân 'Cysawd Yr Haul ei chwarae ar sioe Adam Walton ar BBC Radio Wales.<br><br>Bu Carma hefyd yn rhan o'r ddwy gig uchod yn ogystal â Brwydr y Bandiau Colegau Cymru yn Pontio, Bangor ar ddydd Mawrth 23ain o Ionawr.<br>Yn dilyn sesiwn recordio lwyddiannus yn Stiwdio 12, bydd Carma yn rhyddhau sengl newydd yn ystod mis Mawrth.<br><br>Perfformiodd Jac Elis-Roberts yn y gig i ddathlu Dydd Miwsig Cymru, ei gig cyntaf ers ymuno â Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc Bocsŵn. | |
| 5. Cefnogi 3 band newydd lleol i berfformio yn Gymraeg mewn 2 Ŵyl a chystadlu yn Brwydr y Bandiau neu gystadleuaeth Gymraeg gyffelyb erbyn Mawrth 2018. | **Chwarter 1**<br><br>Carma wedi cystadlu yn Brwydr y Bandiau<br><br>Gw. Manylion Rhwydwaith uchod. | |
| | **Chwarter 2**<br><br>Perfformiodd Carma yn noson 'Gadael Ysgol' yn Ysgol Gyfun Llangefni ar Fehefin 26ain a<br><br>Gwyl Rhosneigr, Gorffennaf 29ain<br><br>Carma wedi perfformio yn yr Eisteddfod yn MaesD | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gweler uchod. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>Gweler uchod | |
| 6. **Caergybi**<br>Cynnal hyd at 8 gweithdy amrywiol i gynyddu hyder 50 o bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyfoedion ac yn gymdeithasol erbyn Mawrth 2018. | **Chwarter 1**<br>Mae clwb Amser Cinio yn cael ei gynnal ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Ieunctid, yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn YUCaergybi. Clwb hwyl ydi hwn sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhwng 10-20 yn dod yn rheolaidd.<br>O ganlyniad i'r sesiynau y bwriad yw arwyddbostio'r bobl ifanc ymlaen at weithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol newydd, a dod i adnabod eu hyfforddwyr/arweinyddion o flaen llaw i fynychu gweithgaredd tu allan i'r ysgol. | |
| | **Chwarter 2**<br>Mae'r Clwb Hwyl yn parhau mewn partneriaeth.<br>Mae'r swyddog wedi dychwelyd o'i chfynod mamolaeth ac wrthi'n cynllunio rhaglen ar gyfer gweddill y flwyddyn.<br>Bydd hyn yn cynnwys sesiynau busnes, sesiynau Wici, radio etc a fydd yn arwain at alluogi a chodi hyder y bobl ifanc i drefnu rhain fel gweithgareddau rheolaidd yn yr ysgol. | |
| | **Chwarter 3**<br>Clwb hwyl a sbri yn parhau i gael ei gynnal mewn partneriaeth â'r Urdd, CFfi a'r Gwasnaethau Ieuencitd. Erbyn hyn mae 20-30 o ddisgyblion yn mynychu pob wythnos. Cynlluniau ar y gweill i gynnal Clwb ar ôl ysgol i flwyddyn 7 ac 8, yn sgil llwyddiant y clwb amser cinio. Y clwb wedi profi yn ffordd effeithiol i gael y plant i gymdeithasu a gwneud gweithgareddau drwy'r Gymraeg e.e. amrywiaeth o gemau a chynnal cwis yn llwyddo i gael y disgyblion i drafod gyda'u cyfoedion yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gan bod y clwb yn arbennig ar gyfer blwyddyn 7, bydd cynnal clwb ar ôl ysgol ar gyfer blwyddyn 7 ac 8 yn galluogi mwy o amser gyda mwy o blant er mwyn sicrhau gweithgareddau Cymraeg yn eu hamser hamdden, gweithio'n fwy dwys a dilyniant i'n gwaith. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>Mae'r Clwb Hwl a Sbri parhau yn wythnosol amser cinio yn yr Ysgol Uwchradd. Cyd-weithrediad rhwng y mudiadau yn gweithio yn dda a phawb yn gweithio mewn rota i ddarparu er mwyn rhoi ystod o brofiadau i'r mynychwyr.<br>11/1/18 - 25 wedi mynychu.<br>31/1/18 - 24 wedi mynychu.<br>08/02/18 – 9 wedi mynychu. (nifer llai oherwydd bod gweithdy arall ymlaen ar y diwrnod).<br><br>Mae hyder y bobl ifanc i gymryd rhan a defnyddio eu Cymraeg wedi cynyddu yn fawr, ac mae'r athrawon wedi nodi ei fod yn braf cael digwyddiad hwyliog i'r plant gael defnyddio Cymraeg yn naturiol.<br><br>Fforwm Iaith Ynys Mon hefyd yn monitro'r targed hwn. | |
| 7. **Caergybi**<br>Cynnal a chefnogi gweithgor iaith pobl ifanc yn yr ardal gyda hyd at 8 o fuddiolwyr yn cyfrannu at greu rhaglen o 5 gweithgaredd i'w cyfoedion erbyn Mawrth 2018 gyda'r | **Chwarter 1** | |
| | **Chwarter 2**<br>Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo ym mis Medi wrth i'r flwyddyn academaidd newydd gychwyn. Bydd y gweithgor yn edrych ar wahanol weithgareddau sy'n cynnwys –<br>Gweithdai Wici;<br>Creu nwyddau Cymraeg;<br>Sesiynau Radio a | |

| | | |
|---|---|---|
| bwriad o godi eu hy<br>ddefnyddio a gweld gwerth cymdeithasol yn y Gymraeg. | ›lig etc ar gyfer Blwyddyn 7 ac 8 | |
| | **Chwarter 3**<br>Gweithgor wedi ei sefydlu, criw gweithgar o flwyddyn 12 wedi bod yn trefnu cynnal gig yn yr Ysgol ar gyfer eu cyfoedion ar gyfer dechrau'r flwyddyn. Mae gan bob aelod o'r fforwm dasg ei hunain i gwblhau ar gyfer cynnal y gig e.e.<br>- Chwilio am brisiau glitter ar gyfer y wyneb<br>- Creu poster<br>- Mynd o amgylch dosbarthiadau Cymraeg blwyddyn 7 er mwyn addurno/creu 'bunting'.<br>- Rheoli arian a chefnogi elusenau o'u dewis (hanner yr arian yn mynd yn ôl i'r pot er mwyn cynnal gig Gwyl Ddewi a'r hanner arall yn mynd i Mind Cymru).<br><br>**Gweithgaredd**<br>Wedi cynnal 3 sesiwn flogio gyda blwyddyn 8 yn Ysgol Uwchradd Caergybi. Y disgyblion wedi cael cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg ar ffilm gan geisio ei wneud mor naturiol â phosib. Bydd cyfle i'r disgyblion ffilmio a golygu y flogs, gyda'r bwriad o'u uwchlwytho i sianel EinTiwb MIC fel rhan gynllun cenedlaetho a rhoi cyd-destun i'w gwaith. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**Sesiwn crefftau Santes Dwynwen 23/01/18**<br>Trefnwyd seiswn crefftau creu calonau a sloganau 'caru' Cymraeg gyda disgyblion yn yr ysgol fel rhan o ddathliadau Santes Dwynwen. Daeth 8 o ferched o flwyddyn 9 i greu ac ysgrifennu geiriau Cymraeg ar y calonau bach pren oedd yn cael eu gwerthu a'u dosbarthu i'w cyfoedion. Roedd hefyd yn gyfle i holi'r disgyblion am eu defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Nid oedd y criw yma yn siarad unrhyw Gymraeg yn eu hamser hamdden, felly roedd y sesiwn yma a chyfle i weithio'n ddwys i'w hannog i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg wedi bod o fudd iddynt ac yn ffordd o feithrin y berthynas gyda nhw ar gyfer datblygiad pellach. | |

**Gig Dydd Miwsig Cymru**

Cydweithiodd y gweithgor i gynnal gig yn yr Ysgol ar y 9fed o Chwefror i ddathlu Dydd Miwsig Cymru. Roedd hyn yn ffordd effeithiol a chadarnahol o hyrwyddo'r diwrnod ymysg y disgyblion wrth i'w cyfoedion berfformio ar y llwyfan. Trefnodd y gweithgor i 3 band o Rwydwaith Bocswn berfformio yn y gig sef Carma, Anaearol a Jac Roberts.

Mynychodd ddisgyblion blwyddyn 7 a 8, cyfanswm o tua 270 yn dathlu dydd Miwsig Cymru yng Nghaergybi. Casglwyd arian drwy gynnal diwrnod di-wisg, gyda hanner yr elw yn mynd at Mind Cymru a'r hanner arall yn cael ei ail fuddosddi er mwyn cynnal gig Cymraeg arall yn yr ysgol yn fuan. Casglwyd £400.

Cafodd y disgyblion a fynychodd y gig fanylion albwm Recordiau Cae Gwyn i'w lawrlwytho, a phecynnau Dydd Miwsig Cymru, sy'n rhoi mynediad iddynt i archif o ganeuon Cymraeg ar Spotify a Soundcloud.

Trefnodd criw y 6ed weithdai i flwyddyn 7 wneud fflagiau Cymraeg ar gyfer y gig i addurno'r Neuadd.

Dyma enghraifft o ddigwyddiad cynhwysol ble roedd adnoddau a phrosiectau'r Fenter Iaith yn cael eu defnyddio i'r defnydd ac effaith gorau. Drwy gydweithio yn yr ysgol llwyddwyd i greu naws Gymraeg a Chymreig gyda'r plant yn dathlu ac adnabod eu hunaniaeth mewn awyrgylch ddiogel a chadarnhaol.

**Flogio**

Mae sesiynau Flogio yn parhau gyda criw o flwyddyn 8. Mae'r Fenter wedi gweithio'n ddwys gyda dau grŵp yn wythnosol yn ffilmio a golygu fideos. Mae'n amlwg nad yw'r disgyblion yma yn defnyddio Cymraeg o gwbl yn eu hamser hamdden, felly mae'r sesiynau flogio wedi bod yn gam cyntaf dewr a chadarnahol er mwyn meithrin eu harfer o ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r gwersi

| | | |
|---|---|---|
| | ac yn gyhoeddus.<br>Roedd y flogs yn canolbwyntio ar ddiddordebau'r disgyblion.<br>Mae'r criw wedi cael sawl sesiwn ffilmio a golygu, ac yn dal i weithio i gael fideo terfynnol.<br><br>Rydym yn parhau i wneud gwaith flogio ac yn ei weld yn ffordd effeithiol o gael disgyblion i siarad Cymraeg drwy son am bethau sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Maent hefyd yn dysgu sgiliau digidol drwy olygu eu gwith ar iMovie. Rydym yn defnyddio offer cyfrifiadurol yr ysgol sy'n caniatau i'r disgyblion allu golygu eu gwaith yn eu hamser eu hunanin. | |
| 8. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a'r Urdd, rhoi Cynllun Gweithredu y 'Fframwaith cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc' ar waith erbyn Medi 2017. | **Chwarter 1**<br>Y Fframwaith wedi'i greu, targedau wedi eu llunio a chamau gweithredu. Bwriedir ei ymgorffori/ is- fframwaith i'r Strategaeth Sirol Hydref ymlaen. | |
| | **Chwarter 2**<br>Adolygiad o'r Fframwaith a diweddariad yn cael ei gynnal Hydref 2017. | |
| | **Chwarter 3**<br>Y Fframwaith yn ffurfio rhan o'r Strategaeth Sirol – ac isgrwp yn cyfarfod i adolygu'r blaenoriaethau.<br>Adroddiadau cyson i'r Fforwm Iaith Sirol fel rhan o fonitro'r strategaeth. | |
| | **Chwarter 4**<br>Y Fframwaith yn ffurfio rhan o'r Strategaeth Sirol – ac isgrwp yn cyfarfod i adolygu'r blaenoriaethau.<br>Adroddiadau cyson i'r Fforwm Iaith Sirol fel rhan o fonitro'r strategaeth. | |
| 9. Cynnal o leiaf un digwyddiad neu weithgaredd penodol gyda'r coleg addysg bellach lleol dros yr ardal er mwyn cefnogi, hyrwyddo a chydweithio i gynnal | **Chwarter 1** | |
| | **Chwarter 2**<br>Mae cyswllt wedi ei wneud â'r swyddog perthnasol a chyfarfod i'w drefnu i drafod. | |
| | **Chwarter 3**<br>Cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda swyddogion o'r Coleg.<br>Bwriedir mapio a chynlluno gweithagredd ar gyfer Ionawr -Mawrth gan edrych ar faes gwaith | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| digwyddiadau, fydd defnydd ieithyddol ac ymwybyddiaeth ieithyddol y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a'r di-Gymraeg. | | | |
| | **Chwarter 4** | | |

| |
|---|
| **Pa dystiolaeth ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i waith gwerthuso'r gweithgareddau/prosiectau a wnaed gennych e.e. astudiaethau achos, canlyniadau holiaduron ayyb.** ***Os yn cyflwyno tystiolaeth fel atodiadau, nodwch eu teitlau isod).*** |
| **Rhai o sylwadau'r adborth Ymwybyddiaeth Iaith hyd yma. Dengys yr ychydig sylwadau isod bwysigrwydd a gwerth y sesiynau ymwybyddiaeth:**<br><br>**Ydych chi'n teimlo yn fwy balch o'r iaith Gymraeg ar ôl dysgu ar yr hanes heddiw?**<br>**'***Yes, because of how strong the Welsh language must be to still be here today.  All of the people who have fought for our language, I want to respect them a do my best to support it.'*<br>*'Yes, because of what Wales has been through in the past 800 years, and I knew such little of the history, I understnad better now.'*<br>*'Ydw, dwi'n falch o fod yn Gymro achos dylsa bo pawb yn caru iaith sy'n fyw yn ein cymuned ni, mae llawer o bobl wedi ymladd drosdo, dyletswydd ni dio wan.'*<br>*'Ydw, toeddwn i ddim yn gwybod am hyn i gyd felly mae'n newyddi mi – dw i am wneud y mwyaf o fy ngallu i siarad Cymraeg rwan bod ni wedi cael gwybod gymaint am ein hanes ni fel Cymry, nid Prydain.'*<br>*Ydw, tan rwan mi ydw i wedi bod yn siarad Saesneg gyda fy ffrindiau, ond rwan mi wnai ceisio siarad mwy o Gymraeg o'u cwmpas.  Mae'r iaith wedi cael ei siarad am flynyddoedd, mae'n gyfrifoldeb i ni gadw'r iaith yn fyw.'*<br>*'Roedd llawer o bethau yno doeddwn i ddim yn gwybod amdano – a Cymraeg ydy fy iaith gyntaf!'* |

**Maes Strategol 3: Y Gymuned**
Y Canlyniad a ddymunir:
Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn Cymunedau ar draws Cymru.

| Targedau (ar ffurf CAMPUS) | Cynnydd | Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na |
|---|---|---|
| 1. Cynnal Gŵyl Cefni gyda chefnogaeth y Pwyllgor Gwaith/Ardal gan ddenu 3000 o drigolion i fwynhau'r gorau o gerddoriaeth ac adloniant Gymraeg erbyn diwedd Mehefin 2018. | **Chwarter 1**<br>Wedi derbyn cadarnhad ariannol gan CCC . Mae'r pwyllgor yn weithgar gyda'r trefniadau a thrafodaethau cadarnhaol ac yn gyson gyfarfod gyda Menter Gymdeithasol Llangefni, y tafarndai lleol, Oriel Môn a phartneriaethau'r Fenter Iaith i sicrhau cyrrhaeddiad a hyrwyddo effeithiol.<br><br>Dyddiau'r Cyfarfodydd : 4/4/17, 18/4/17, 2/5/17, 16/5/17, 24/5/17, 30/5/17.<br><br>**Gweithdy Celf @ Oriel Môn**<br>**8/6/17**<br><br>Gweithdy celf i blant a theuluoedd dan arweiniad yr artist Eleri Jones.<br>Pwrpas y gweithdy oedd comisynu gwaith newydd i addurno canol tref Llangefni ar gyfer yr ŵyl. Y thema a osodwyd gan y pwyllgor oedd cerddoriaeth, ac felly crewyd sawl darn o waith lliwgar ar ffurff offerynnau cerdd. Defnyddiwyd y gwaith celf fel rhan o'r parêd Gŵyl Cefni ar y bore dydd Sadwrn, ac fe'i defnyddiwyd i addurno llwyfan bach y Bull.<br><br>Daeth yr holl deuluoedd a oedd yn rhan o'r gweithdy celf i'r Bore o Hwyl i'r Teulu ar y dydd Sadwrn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **80**% o fynychwyr wedi **nodi for y ddarpariaeth yn wych**, adborth wedi ei gasglu drwy Survey Monkey.<br><br>Niferoedd : 25<br><br>**Noson Gwis @ Tafarn y Railway**<br>**07/06/17**<br><br>Cwis hwyliog yn Nhafarn y Railway, cyfle anffurfiol i sgwrsio a chymdeithasu'n Gymraeg gan apelio at bobl na fyddai fel arfer yn cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Eleni, daeth criw o Gymry di-Gymraeg i gymryd rhan yn y cwis, yn ogystal â ymwelwyr tramor. Roedd y noson yn gwbl ddwy ieithog a roedd yn gyfle euraidd i ddangos i bobl sy'n newydd i'r Gymraeg bod modd cymdeithasu a chael hwyl yn y Gymraeg.<br><br>80% o fynychwyr wedi nodi fod y trefniant a'r cwis wedi bod yn wych neu yn dda iawn (Survey Monkey).<br><br>**Gig Bach yr Ŵyl @ Theatr Fach, Llangefni**<br>**9/06/17**<br><br>Alys Williams a'r band oedd prif fand y noson, gyda Gwilym yn cefnogi. Band lleol ydy Gwilym, a roedd yn brofiad arbennig iddynt gael rhannu llwyfan ag Alys a'r cerddorion talentog.<br>85% yn meddwl fod y noson yn wych.<br><br>Niferoedd : 49 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **l i'r Teulu** @ Capel Moreia, Llangefni<br><br>Sioe deuluol gyda Dona Direidi, Lobs a Seren a chymeriadau S4C. Cyfle hefyd i gyfarfod cymeriadau'r Fenter – Magi Ann a Selog.<br><br>Niferoedd : 500 (400 i'r capel + teuluoedd ychwanegol i sesiwn gyfarfod y cymeriadau yn Gwesty'r Bull)<br><br>100% yn meddwl fod y ddarpariaeth yn Wych neu yn Dda Iawn (Survey Monkey)<br><br>**Gweithdai Bocsŵn @ Neuadd y Dref, Llangefni**<br><br>Cyfle anffurfiol i roi cynnig ar ddysgu offeryn newydd gyda thiwtoriaid Bocsŵn yng nghanol y dref. Llwyddodd y tiwtoriaid i ennyn diddordeb dros 200 o blant yn y ddarpariaeth, a llwyddwyd i rannu gwybodaeth am y ddarpariaeth gyda rhieni a chael aelodau newydd i'r sesiynau wythnosol.<br><br>85% yn nodi fod y ddarpariaeth yn Wych neu yn Dda iawn (Survey Monkey)<br><br>Niferoedd : 200 +<br><br>**Y Gig Fawreddog @ Llangefni**<br><br>Daeth rhai o dalentau gorau Cymru i Ŵyl Cefni eleni gan ddangos amrywiaeth o gerddoriaeth sydd i'r sin gerddorol Gymraeg. Yn rhan o'r amrywiaeth oedd Geraint Jarman, Daniel Lloyd a Mr Pinc, Calfari, Gwilym Bowen Rhys, Meinir Gwilym, Yr Angen, Band Samba Canolfan Addysg y Bont, Carma, A(n)naearol, Y Brodyr Magee a Beth Frazer.<br><br>Cynhaliodd tafarndai'r dref eu gigs Cymraeg eu hunain ar ôl yr ŵyl yn dilyn llwyddiant cynllun y | |

| | | |
|---|---|---|
| | diwethaf. Mae hyn yn dangos i ni fod busnesau yn gweld gwerth y Gymraeg ar gyfer denu cwsmeriaid i mewn ac yn cefnogi ymdrechion bandiau newydd, lleol i sefydlu eu hunain.<br><br>Niferoedd: 1200+<br><br>Cyfanswm y diwrnod : 2000+<br><br>Nododd 90% fod y Gig Fawreddog yn Wych neu yn Dda Iawn<br>Nododd 90% fod i drefniant yn Wych neu yn Dda Iawn<br>Nododd 84% fod yr Ŵyl yn codi proffil y Gymraeg yn y dref<br>Nododd 96% yr hoffai nhw weld rhagor o gigs Cymraeg yn y dref | |
| | **Chwarter 2** | |
| | **Chwarter 3** Trefniadau ar y gweill, cyfarfodydd cychwynol gyda gwirfoddolwyr ac ariannwyr. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**Gwyl Cefni 2018 –**<br>Cyfarfodydd cyson gyda'r pwyllgor i drafod cynnwys yr Ŵyl. Cais am arian wedi ei gyflwyno i CCC ac artistiaid wedi adnabod a chytuno mewn egwyddor. Cydweitho gyda S4C a'r Urdd i gynnal gig ieuenctid a sioe Cyw yn ystod trefniadau'r ŵyl. Bydd y rhaglen artistig yn cael ei gwblhau o fis Ebrill ymlaen | |
| 2. Cefnogi ymdrechion pwyllgorau apêl Eisteddfod Genedlaethol Môn 2018 i barhau i adnabod cyfleoedd i barhau â momentwm a chreu ddigwyddiadau lleol erbyn Mawrth 2018. | **Chwarter 1** | |
| | **Chwarter 2**<br><br>**20/6/2017 – Lansio pecyn addysg yr Eisteddfod ym Mryngwran.**<br>Cefnogi lansio a hyrwyddo pecyn sy'n tynnu rhieni mewn i weithgareddau'r Eisteddfod a chodi ymwybyddiaeth drwy waith cartref disgyblion Môn. Pecyn yn cynnwys gweithgareddau cymunedol | |

oddau i ddysgwyr.

**Gweithdy Ffoli ar Fflagiau @ Ysgol Uwchradd Bodedern**
**18/07/17**

Gweithdy cymunedol i gefnogi ymdrechion pwyllgorau apêl yr Eisteddfod i harddu'r gymuned.

Trefnwyd 'marathon' i greu fflagiau bychain ar ffurf 'bunting' i addurno trefi a pentrefi cyfagos i faes yr Eisteddfod. Roedd yn weithdy llwyddiannus dros ben, wrth bontio cenhedloedd, teuluoedd, plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd cymunedol yn yr ysgol uwchradd ddalgylch.

Gwirfoddolodd aelodau o Fercher y Wawr a Cymdeithas Brodwaith Cyrmu i greu y fflagiau a gwahoddwyd ysgolion cynradd y dalgylch i gymryd rhan yn y creu.

Fe wirfoddolodd 4 aelod o YUB i helpu gyda torri'r defnydd a helpu'r plant cynradd i greu eu fflagiau nhw.

Braf oedd gweld teuluoedd yr ardal yn bachu ar y cyfle i gydweithio ar brosiect oedd yn elwa'r gymuned leol hefyd.

Braf hefyd oedd croesau criw o ddysgwyr lleol oedd wedi dod i wirfoddoli am y diwrnod, ag aeth a'r fflagiau i Gaergybi i addurno'r strydoedd yno.

Niferoedd : 100 +

**ai Harddu Cymunedol @ Canolfan Jesse Hughes Caergybi**
**12/7/17 + 19/7/17**

Gweithdai i gefnogi pwyllgorau apêl yn yr ymdrech i estyn croeso cynnes i ymwelwyr yr Eisteddfod.

Comisiynwyd yr artist Elan Rhys i greu llythrennau 6 troedfedd yn sillafu 'EISTEDDFOD' ac i arwain ar weithdai creadigol ar hyd a lled yr Ynys i'w haddurno. Bydd y llythrennau hyn yn cael eu gosod mewn cae gwbl weledol o'r A55, y brif ffordd i faes yr Eisteddfod.

Yn ogystal â estyn croeso i ymwelwyr yr Eisteddfod, roedd hi'n bwysig i ni godi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod, a'r amrywiaeth sydd ar gael i bobl ifanc.

Doedd dim llawer o bobl ifanc y clwb yn ymwybodol o'r ŵyl, felly fe lwyddwyd i godi ymwybyddiaeth drwy ddangos fideos o'r Eisteddfod a Maes B,  roedd llawer yn synnu fod yr ŵyl a'r gerddoriaeth yn gyfan gwbl yn Gymraeg.

Niferoedd : 40 o bobl ifanc

**3. Gweithdai Harddu Cymunedol @ Canolfan Hamdden Plas Arthur, Llangefni**
**13/7/17 + 20/7/17**

Roedd naws gwahanol i'r gweithdai yn Llangefni, roedd y criw yn edrych ymlaen yn arw at yr Eisteddfod a wedi gwirioni cael cynnig i gyfrannu tuag at yr ŵyl mewn ffordd greadigol.

Fe lwyddodd Elan yr artist i gyfuno sawl techneg gwahanol i adduro'r llythrennau felly fe ddysgodd y criw llawer o dechnegeu celfyddydol newydd.

| | | |
|---|---|---|
| | 15<br><br>Cafodd y llythrennau hyn sylw cadarnhaol dros ben, yn enwedig ar ein cyfryngau cymdeithasol a'r wasg. Roedd y gweithdai hyn yn dangos parodrwydd y Fenter i ymrwyno dasg gymunedol a sicrhau cynhwysiant – ein hawydd i fod yn hyblyg ac ymateb i anghenion y gymdeithas, ac i gydlynnu prosiect cyffrous gyda trawstoriad o bobl ifanc yr ardal. | |
| | **Chwarter 3**<br><br>I gynnal diddordeb trigolion Ynys Môn mewn celfyddyd a'r theatr wedi momentwm yr Eisteddfod, rydym bellach yn cymryd rôl flaenllaw mewn sicrhau bod cynyrchiadau proffesiynol yn teithio yma i Ynys Môn gyda chefnogaeth cynllun Noson Allan.<br><br>Dim Byd Ynni, Theatr Bara Caws – Theatr Fach, Llangefni : 5/10/17<br>Niferoedd cynulleidfa : 45 o bobl<br><br>Sieiloc, Rhodri Miles – Theatr Fach, Llangefni : 11/10/17<br>Niferoedd cynulleidfa : 22 o bobl (diwrnod y perfformiad yn taro ar ddigwyddiad cymuneol arall)<br><br>Mwgsi, Cwmni Fran Wen – Ysgol Gyfun Llangefni : 9/11/17<br>Niferoedd cynulleidfa : 120 o bobl | |
| | **Chwarter 4**<br>**Theatr Genedlaethol Cymru**<br>Cais wedi ei gyflwyno i Noson Allan i deithio Estron i Fodedern yn mis Mai. Gwaith hyrwyddo yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | ystod y chwarter hwn. TGC hefyd wedi cytuno i ddarparu gweithdy technegol i griw Theatr Ieuenctid Môn fydd yn digwydd yn y chwarter nesaf.<br><br>Wedi cael adborth ar Facebook y Fenter yn canmol ymroddiad y Fenter i sicrhau darpariaeth theatr i'r Ynys fel gwaddol i'r Eisteddfod: *'Diolch, Menter Môn am drefnu Noson Allan a gwahodd Sheiloc a oedd ar daith. Roedd popeth am y ddrama yn wych! a pherffomiad Rhodri Miles yn aruthrol!'* | |
| 3. Cydweithio gyda chymuned benodol er mwyn cynnal 3 o ymgyrchoedd penodol i annog hyd at 400 o bobl i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg erbyn Mawrth 2018 | **Chwarter 1**<br>Hyrwyddo'r Eisteddfod yn gyffredinol yn ystod y cyfnod hwn. Dosbarthu adnoddau mewn sawl cymuned. | |
| | **Chwarter 2**<br><br>Trefniadau Parêd Gŵyl Ddewi, Llangefni<br>Cyfarfod 1<br>25/9/17<br>Cyfarfod cychwynnol i drafod syniadau, cydlynnu rhagor o aelodau, a hel syniadau am barêr gwyl ddewi 2018 – parêd i'r gymuned oll gan bontio'r ysgolion cyradd dalgylch gyda'r ysgol Uwchradd, Canolfan Addysg y Bont, busnesau lleol ac artistiaid lleol.<br><br>Cyfarfod arall wedi'w drefnu yn Chwarter 3 i roi trefniadau pendant yn eu lle. | |
| | **Chwarter 3**<br>Cefnogi Cymuned Llangefni<br>• **Noson Gwylwyr S4C – Clwb Rygbi, Llangefni : 26/10/17**<br>Cefnogi a sicrhau presenoldeb yn noson gwylwyr S4C. Gwahodd athrawon sy'n gweithio yn y Canolfanau Trochi Iaith gyda mewnfudwyr i gyfleu'r angen am ddarpariaeth i ddysgwyr Cyfnod | |

| | | |
|---|---|---|
| | . Ar sail hyn, datblygwyd perthynas gyda S4C ac mae datblygidau yn eu lle ar gyfer y flwyddyn newydd fydd yn sicrhau rhagor o fwrlwm cymunedol ar draws Ynys Môn (dangosiad ‘premiere’ o Deian a Loli er enghraifft).<br>• **Digwyddiad Selog cymunedol : 1/12/17**<br>Cyfrannu naws Gymraeg i lawnsiad Goleuadau Nadolig Llangefni a chefnogi busnesau lleol y dref e.e. y siop lyfrau Gymraeg i gynnal sesiwn stori a chan i drigolion y dref. Cyrhaeddiad Facebook: 1,225.<br>• **Noson Garolau Llangefni : 19/12/17**<br>Trefnwyd noson o ganu carolau er budd elusen lleol, Digartref Ynys Môn. Codwyd dros £100 i elusen yn ogystal â dod â chymuned o bobl yn agosach at ei gilydd. Cyrhaeddiad Facebook : 2,800. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**Deian a Loli 18/1/18 – Theatr Fach, Llangefni**<br><br>Diolch i berthynas weithiol dda gyda S4C, cynhaliwyd dangosiad arbennig o bennod newydd Deian a Loli, ar thema Santes Dwynwen yn Theatr Fach, Llangefni. Roedd y dangosiad yn boblogaiddd ac oherwydd y galw fe benderfynwyd ar ail dangosiad yn hwyrach ymlaen yr un noson.<br><br>Sawl rhiant wedi nodi mai dyma’r tro cyntaf iddyn nhw ymweld â Theatr Fach, felly roedd y rhaglen hynod boblogaidd yma wedi llwyddo i ddenu pobl o’r newydd i’r theatr gymunedol gan dynnu sylw tuag at ddarpariaeth a chynhyrchiadau Cymraeg eraill.<br><br>**46** rhiant wedi ymaelodi â rhestr ebostio’r Fenter ar draul y digwyddiad hwn.<br><br>Niferoedd mynychu: **180** | |

ı **Dydd Gŵyl Dewi** – 8/3/18 Llangefni

Diwrod llwyddiannus i blant, busnesau a thrigolion Llangefni yn dathlu diwrnod ein nawddsant.

Daeth 10 o ysgolion dalgylch y sir i gymryd rhan mewn gorymdaith gŵyl Ddewi yng nghanol tref Llangefni. Roedd yr orymdaith yn diweddu gydga adloniant gan y Moniars ar lwyfan cymunedol ger y sgŵar yn y dref, lle cafwyd cyfle i bawb gyd ganu ac ymunodd yr holl ysgolion, athrawon, rhieni a thrigolion y dref yn yr hwyl.

Cafodd y trefniadau i'w gwneud ar y cyd ag athrawon y dalgylch a chynrhychiolaeth o'r Cyngor Ysgol. Darparwyd fflagiau Cymru bychan i holl fynychwyr yr wyl, a paratowyd y plant ddarn creadigol ar gefn y fflag o dan y teitl 'Dyma dw i'n ei garu am Gymru...' o flaen llaw.

Daeth detholiad o'r plant ar y llwyfan i ddatgan eu gwaith creadigol. Gweler fideo yma : https://www.facebook.com/Menter.Iaith.Mon/videos/1852310188112719/

Oherwydd y tywydd garw, roedd rhaid newid dyddiad yr orymdaith ac o'r herwydd ni lwyddodd Ysgol Gyfun Llangefni na Chanolfan Addysg y Bont ymuno yn y dathliadau.

**Niferoedd : 350 – 400**

**Sylw gan un athro Ysgol Llangaffo** : *'Nid llawer o blant ein hysgol ni sydd wedi cael mynd i ŵyl lle mae na gerddoriaeth byw, safonol yn cael ei chwarae. Dyma brofiad arbennig i'r plant, a gwell fyth fod eu profiad cyntaf o gerddoriaeth byw yn gyfrwng Cymraeg. Gwych hefyd oedd y taflenni geiriau caneuon a ddarparodd y Fenter Iaith o flaen llaw, yn ogystal ag app Selog oedd yn cynnwys y gerddoriaeth er mwyn gallu ymarfer y canu yn ein gwersi yn yr Ysgol. Mae'r plant i gyd yma'n canu'n anthem!'*

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4. **Caergybi**<br>Annog hyd at 200 o bobl mewn 5 grŵp cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned gan gynnal 3 ymgyrch penodol erbyn Mawrth 2018 | **Chwarter 1** | |
| | **Chwarter 2**<br>Cyfarfod cychwynnol Parêd Gŵyl Ddewi 2018 wedi ei gynnal ym18/09<br>Trafod trefniadau a syniadau posib gyda dros 15 yn bresennol o 6 mudiad/sefydliad yn ogystal ag ysgolion y dalgylch.<br>Cyfarfod nesa wedi ei drefnu at mis Hydref. | |
| | **Chwarter 3**<br>Wedi ymweld â chlwb cinio Canolfan Gwelfor yng Nghaergybi. Wedi sgwrsio dros baned gyda amryw o aelodau hŷn o'r gymuned, rhai yn Gymraeg a rhai yn ddi-Gymraeg gan ddefnyddio hyn fel cyfle i ymchwilio am y barodwydd y pensiynwyr i ddefnyddio'r Gymraeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg fel 'Bingo Cymraeg' neu cael adloniant Cymraeg achlysurol yn y clwb cinio.<br><br>Trefniadau ar y gweill ar gyfer Dydd Gwyl Dewi gyda'r nod o dynnu grwpiau cymunedol imewn i addurno a harddu'r dref. Bydd Merched y Wawr Caergybi yn bartner pwysig er mwyn gallu cynnig bunting i fusnesau'r dref addurno ei ffenestri/tu allan i'w busnesau ar gyfer Mawrth y 1af.<br>Bydd y sesiynnau agored yn cael eu cynnal ym mis Ionawr a Chwefror a bydd yn hollol agored i'r gymuned, gan dargedu grwpiau lleol i gymryd rhan er mwyn adeiladu ar y berthynas yn lleol.<br>Rydym hefyd wedi trefnu i ddosbarthiadau tecstiliau Ysgol Uwchradd Caergybi i gymryd rhan yn y weithgaredd er mwyn pontio rhwng y gymuned a'n pobl ifanc.<br><br>**18/10/17 & 28/11/17 – Cyd-lynnu Pwyllgor Trefnu Parêd Gŵyl Dewi Caergybi**<br>Parhau i gydlynu'r grwp er mwyn sicrhau gorymdaith cofiadwy gymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg ac i annog gweithdrefnau Cymraeg / dwyieithog ymysg y partneriaid lleol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **fod cyntaTrefnu Cyngerdd Gwyl Dewi i'r gymuned yn Ysgol Uwchradd Caergybi**<br>Cadarnhau cefnogaeth pennaeth YUC & uwch dim rheoli'r ysgol i ganiatau defnydd o'r ysgol a'r adnoddau ar gyfer cyngerdd Cymraeg cymunedol. Wrth ymwneud a'r trefniadau, anelu i gyflwyno gweithdrefnau Cymraeg wrth ymdrin a'r croeso, yr ymborth gan Gymdeithas Rieni Athrawon yr ysgol, y gwirfoddolwyr ifanc, a'r cyflwyniad o'r llwyfan**.** | |
| | **Chwarter 4**<br><br>**9/1, 30/1, 20/2, 28/2, 20/3 - Cyd-lynu trefniadau Pared Caergybi**<br>Hyrwyddo treftadaeth ac iaith ymysg y partneriaid wrth drefnu'r Pared. Cyfle i drafod yn y Gymraeg gyda phartneriaid nad ydynt bob tro yn arfer cael cyfarfodydd Cymraeg, codi hyder partneriaid i ymdrin â'r Gymraeg / dwyieithrwydd mewn cyfarfodydd. Cefnogi'r ysgolion a eirioli dros fuddiannau pobl ifanc y dref gan arwain at gefnogaeth drefol gadarn i'r Pared. Wedi cael cytundeb y FAW i fenthyg baner anferthol sy'n cael ei ddefnyddio yn y Stadiwm yng Nghaerdydd ond i ni dalu'r costau cludiant, felly uchafbwynt eleni oedd i Gyngor Tref Caergybi ystyried y sefyllfa a buddsoddi dros £600 i brynu Baner 9x6m ar gyfer y Pared a digwyddiadau yn y dref.<br><br>**1/3/18 wedi ei ohirio tan 8/3/18 – Cynnal Pared Caergybi**<br>Drwy fod MIM yn cyd-lynu trefniadau Pared Caergybi gyda'r holl bartneriaid lleol mae modd sicrhau fod y Gymraeg yn flaenllaw yn y gweithdrefnau trefnu yn ogystal â bod yn iaith yn ganolog i'r dathlu gan fod yr ysgolion i gyd yn dysgu caneuon Cymraeg i'w canu ar hyd y stryd. Tua 400 o ddisgyblion a chymuned yn dod i'w gwylio.<br><br>**25/1, 28/1 - Cyd-lynu trefniant Cyngerdd Mawreddog Caergybi ar gyfer 1/3/18**<br>Trefnu cyngerdd o ganeuon Cymraeg gan artistiaid poblogaidd lleol Only Boys Aloud, Cor Meibion Caergybi, Brodyr Magee, & Sophie Jane yn ogystal â thalentau o'r ysgolion lleol. Y bwriad oedd dathlu talentau lleol yn y Gymraeg gan ysbrydoli'r disgyblion wrth berfformio gyda grwpiau profiadol/proffesiynol. Yn ogystal roedd yn gyfle i ddod a chyngerdd Cymraeg i ysgol uwchradd sydd wedi ei adnabod fel ysgol sydd â chynllun datblygu ysgol i ddatblygu'r defnydd a'r ethos | |

CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | | |
|---|---|---|
| | n anffodus oherwydd yr eira a chau'r ysgol roedd yn rhaid canslo'r cyngerdd 28/2/18 - heb gyfle i aildrefnu. Roedd yr artistiaid eisoes wedi gwirfoddoli eu hamser ac mewn egwyddor wedi cytuno gwneud yn yr un modd 2019.<br><br>**28/2/18 – Rhaglen "Help Llaw" i Gaergybi**<br>Cefnogi ymgyrch MIM i ddenu gwirfoddolwyr, gwahodd Cwmni Boom - rhaglen "Help Llaw" gan gynnig profiad gwaith i ddysgwraig yn ein gweithgareddau teuluoedd yng Nghaergybi, yn ogystal â gweithgareddau yn Llangefni. Bu rhaid gohirio ail ran y rhaglen - sef gwirfoddoli yn ystod y Pared, oherwydd yr eira a'r aildrefnu. Darlledir y rhaglen ar fore Sul 8/4/18.<br><br>**Sesiynnau creu addurniadau stryd 29/01/18, 5/2/18, 12/2/18.**<br>Drwy gyd-weithio gyda Merched y Wawr a'r Ysgol Uwchradd trefnwyd sesiynau 'galw mewn' er mwyn rhoi cyfle i'r gymuned ddod ynghyd i greu fflagiau coch, gwyn a gwyrdd ar gyfer addurno ffenestru busnesau'r dref. Bwriad cynnig y fflagiau i'r busnes oedd eu hannog nhw i arddurno eu siop ar Gyfer y dathliadau Gwyl Ddewi.<br>Daeth 3 disgybl o Ysgol Uwchradd Caergybi i greu y banneri a hefyd daethant o amgylch yr holl fusnesau i ddosbarthu y fflagiau gorffenedig.<br>Daeth 12 o wirfoddolwyr i greu y banneri a crewyd 100 o resi o'r fflagiau ar gyfer y gymuned. | |

| |
|---|
| **Pa dystiolaeth ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i waith gwerthuso'r gweithgareddau/prosiectau a wnaed gennych e.e. astudiaethau achos, canlyniadau holiaduron ayyb.**<br>***Os yn cyflwyno tystiolaeth fel atodiadau, nodwch eu teitlau isod).*** |
| Nododd un o fynychwyr ifanc y gweithdai creu llythrennau ei fod yn falch o gael bod yn rhan o'r ŵyl genedlethol, doedd o rioed wedi meddwl fod yn Eisteddfod yn ŵyl fyddai'n berthnasol iddo, a doedd o chwaith rioed wedi mynychu Eisteddfod, ond roedd cael cymryd rhan mewn gweithdy oedd yn sicrhau effaith gadarnhaol a thrawiadol ar fynychwyr yr ŵyl yn gyffrous iawn iddo. |

CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Maes Strategol 4: Y Gweithle**
<u>Y Canlyniad a ddymunir:</u>
Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

| **Targedau (ar ffurf CAMPUS)** | **Cynnydd** | **Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na** |
|---|---|---|
| 1. Cynnal y cynllun Cymraeg yn y sector preifat yn nhref Caergybi gan gydweithio â hyd at 10 o fusnesau'r dref er mwyn dylanwadu ar eu defnydd o'r Gymraeg erbyn Rhagfyr 2017. | **Chwarter 1**<br>**22/5/17 –** Cwmni chwaraeon Score Sports Coaching – Pêl-droed y Wlad.<br>Cefnogi menter newydd ddarparu hyfforddiant chwaraeon i blant ar ôl ysgol / iard ysgol ym Môn. Cynnal cyfarfodydd briffio ar ddisgwyliadau'r Siarter Iaith ac arsylwi gan gynnig adborth i sesiwn yn y Gymraeg i blant di-Gymraeg yn ysgol Santes Fair, Caergybi. | |
| | **Chwarter 2**<br>Gorffennaf-Awst 2017<br><br>**Cynhaliwyd ymgyrch yn y dref** yn y cyfnod yn arwain ar yr Eisteddfod er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a chyfleoedd i fanteisio ar yr Eisteddfod.<br>Ymwelwyd â thros 30 o fusnesau yn dosbarthu adnoddau iaith gwaith<br><br>**Lansiwyd 'BOTWM'** (give your Welsh a push) - Botymau bach gyda recordiadau sain o frawddegau syml Cymraeg yn cael eu hadrodd gyda'r ystyr Saesneg wedi ei nodi ar y botwm. Rhoddwyd rhai o'r botymau yn bar Syched yn yr Eisteddfod ac mewn amryw o dafarndai a bwytai yr ardal. Roedd amryw o frawddegau ar y botymau gan gynwys archebu diod a gofyn am gyfarwyddiadau. Mae'n debyg bod y botymau yn dda am ddechrau sgwrs rhwng cwsmeriaid i siarad am yr iaith gyda'i | |

CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | | |
|---|---|---|
| | yn mae'r botymau dal o amgych y busnesau, gyda'r bwriad o'u hadnewyddu ar gyfer ymgyrch 'Dymunwch Nadolig Llawen' fydd yn digwydd gyda busnesau tref Caergybi. | |
| | **Chwarter 3**<br>Parhau i ymweld gyda busnesau tref Caergybi yn rheolaidd.<br>Templed gyda chyfieithiadau syml i fusnesau wedi eu dosbarthu er mwyn hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar eu rhwydweithiau cymdeithasol. Llawer o fusnesau yn yr ardal heb unrhyw un yn rhugl yn y Gymraeg yn rhan o'r busnes, felly roedd cynnig templedau gyda penawdau syml mewn Cymraeg o fudd iddyn nhw. Bydd ymgyrch Santes Dwynwen a Gŵyl Ddewi yn ffocws nesaf ar gyfer ymweld â'r busnesau a pharhau â'r gwaith hwn. | |
| | **Chwarter 4**<br>**Ymgyrch Santes Dwynwen 2018**<br>Fel rhan o ddathliadau Santes Dwynwen cynhaliwyd cystadleuaeth yn y Stryd Fawr ble roedd y busnesau yn arddurnod eu ffenestri i'r thema Cariad a Chymraeg. Fe gymerodd 6 busnes rhan yn y gystadleuaeth sef:<br>U.B.AK.A, Affrican Orphans, Kalico, Ynys Môn Cakery, Kleiser's a Siop Deunydd Ysgrifennu.<br>Disgyblion o'r Ysgol oedd yn beirniadu'r ffenestri a daeth Ynys Môn Cakery i'r brig.<br>Hefyd fel rhan o'r ymgyrch trefnwyd digwyddiad celf a chrefft yn yr Ysgol Uwchradd.<br>Bwriad y gystadleuaeth oedd dosbarthu gwybodaeth ac anoddau i helpu cynyddu defnydd o'r Gymraeg a chael sgwrs er mwyn deall eu anghenion. Roedd hefyd yn ffordd o fesur effaith defnyddio'r Gymraeg.<br><br>Mae cyswllt barhaus wedi bod a'r busnesau dros y flwyddyn diwethaf er mwyn cynnal y berthynas gyda'r busnesau.  Ymwelir â'r busnesau gyda nwyddau Cymraeg yn rheolaidd, ac felly mae'r busnesau yn ymwybodol o waith y Fenter Iaith ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu am wybodaeth bellach.<br>Ymwelwyd â'r busnesau sawl tro ar gyfer paratoadau Pared Gwyl Ddewi, i hywyddo digwyddiadau yn yr ardal ac i roi banneri iddynt arddurno ffenest y siop. Trefnwyd gweithdy pwrpasol gyda | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nawr, Cymdeithas Brodwaith Cymru, y WI a'r Ysgol er mwyn creu cannoedd o *bunting* a cafodd pob busnes yn y dref y baneri arbennig hyn i addurno fel rhan o'r dathliadau. Anogwyd pawb hefyd i addurno eu ffenestri ar thema Gŵyl Ddewi.<br>Dyma restr o'r busnesau ble mae cyfres o ymweliadau wedi eu cynnal er mwyn cefnogi a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.<br><br>1. Halo Salon<br>2. Williams & Goodwin<br>3. J.Raymond Jones (Cigydd)<br>4. Kalico<br>5. Ynys Môn Cakery<br>6. Kleisers Jewelers<br>7. Clare's Shoes<br>8. Oyster Catcher,<br>9. White Eagle<br>10. Kleisers Jewellers | |
| 2. Ymchwilio i ffynhonellau ariannol gan gynlluio a hywryddo ymgyrch #CroesoCymraeg ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol gan gydweithio â 10 o fusnesau lletygarwch i hyrwyddo gwerth economaidd y Gymraeg erbyn Awst 2017. | **Chwarter 1**<br><br>**Brecwast Busnes @ Oriel Ynys Môn, Llangefni**<br>**5/7/17**<br><br>Cynhaliwyd Brecwast Busnes llwyddiannus dros ben fel rhan o ymgyrch #CroesoCymraeg yr Eisteddfod.<br><br>Daeth 10 o fusnesau lleol i sgwrsio, hel syniadau, a cael eu hysbrydoli gan siaradwyr gwadd. Un o'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | wadd oedd Dafydd Roberts o gwmni Sain, wnaeth agor llygaid pawb oedd yn bresennol i fanteision defnyddio'r Gymraeg fel USP yn eu cwmni. Llwyddodd cwmni Cain i sicrhau stondin grefftau yn y babell grefftau yn yr Eisteddfod Genedlaethol hefyd, ac fe gytunodd y siop ddeunyddiau lleol i gefnogi a darparu defnydd rhad i gynnal y gweithdy 'Ffoli ar Fflagiau'.<br><br>**Brecwast Busnes @ Gwesty Lastra, Amlwch**<br>**6/4/17**<br><br>Bore cadarnhaol arall gyda Halen Môn yn trafod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg mewn brandio byd-eang, a manteision gweud hynny i fusnes lleol fel Halen Môn. Daeth 4 cwmni lleol arall, yn ogystal â chriw o 10 o bobl ifanc o YSTJ.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'r criw o bobl ifanc yma ar gynyddu defnydd o Gymraeg mewn busnesau lleol yn Amlwch o fid Medi ymlaen | |
| | **Chwarter 2**<br>Ymgyrch #CroesoCymraeg.<br>Sicrhawyd arian Leader i weithredu ymgyrch #CroesoCymraeg. **Gorffennaf/Awst 2017**<br><br>i. Dylunwyd taflen gweithgareddau i blant a rhieni ar gyfer bwytai yr ardal. Taflenni yn cynnwys cymeriadau cyfarwydd fel Magi Ann a Selog a nifer o weithgareddau hwyliog i blant bach a phlant ychydig hyn. Bwriad y taflenni yw annog sgwrs a modd i siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg ddefnyddio'r tafleni gan ddysgu ambell air newydd. Dosbarthwyd 2000 o daflenni yn mis Awst i 8 o fusnesau bwyd ardal Caergybi. Bydd mwy yn cael eu dosbarthu yn y chwarter nesaf gyda'r gwaith fydd yn digwydd gyda'r Sector breifat yn ardal Caergybi.<br>ii. Sesiwn hanner diwrnod ar gyfer busnesau sector preifat ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes, gan ganolbwyntio ar yr Eisteddfod Genedlaethol cyn i'r Brifwyl gyrraedd Ynys Mon. Mynychodd 5 o bobl y cwrs. Adborth bositif gan y mynychwyr, yn nodi nad oeddent yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | dol faint o bobl oedd yn mynychu Yr Eisteddofd Genedlaethol.<br>iii. Derbyniodd yr Iorwerth Arms ym Mryngwran gymorth fel rhan o'r cynllun #CroesoCymraeg. Cynigwyd ddiod lleol am ddim i ddysgwyr Cymraeg oedd yn archebu drwy'r Gymraeg wrth y bar. Y gobaith ydi dal i fwrw ymlaen gyda'r digwyddiadau Cymraeg a gynhaliodd y dafarn ar ôl yr Eisteddfod, a gobeithio cynnal digwyddiad arbennig i ddysgwyr Cymraeg. | |
| | **Chwarter 3**<br><br>Gweithio gyda 2 fusnes ychwanegol ar y prosiect #CroesoCymraeg sef Marram Grass ac White Eagle.<br>Wedi dosbarthu 2000 o daflenni gweithgareddau bwrdd Cymraeg i blant i amryw o leoliadau bwyd dros yr ynys. Byddwn yn ail ddosbarthu rhain yn y gwanwyn.<br>Cynhaliwyd digwyddiad ar y **23 Tachwedd** i ddathlu llwyddiant y prosiect ac estyn gwahoddiad i fusnesau yr ardal i glywed manteision Cymraeg mewn busnes. **Gw. Isod astudiaethau achos 2 o'r busnesau.**<br><br>Rydym yn parhau i ddatblygu'r brand yma er mwyn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i drigolion y dref wrth weithio gyda busnesau gan ddangos fod y Gymraeg yn arf marchnata.<br>Roedd cyfle i'r busnesau i gyd drafod ar ddiwedd y noson gyda cyfle i bawb drafod unrhyw heriau oeddent yn ei wynebu gyda'r Gymraeg, ac roedd yn gyfle i'r fenter iaith gynnig cymorth a chyngor pellach. | |
| | **Chwarter 4**<br><br>Cyfnod gwerthuso y prosiect #CroesoCymraeg. Mae'r prosiect wedi llwyddo i:<br><br>1. Dangos gwerth economaidd y Gymraeg i fusnesau wrth ddenu ymwelwyr a chwsmeriaid;<br>2. Denu ymwelwyr yn ôl ar ôl yr Eisteddfod oherwydd profiad positif | |

| | | |
|---|---|---|
| | vanegu naws i'r busnes – defnyddio'r Gymraeg fel USP<br>4. Marchnata modern<br>5. Denu ystod eang o ymwelwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.<br><br>Mae'r busnesau wedi parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu busnes ar ôl cyfnod yr Eisteddfod gyda dulliau marchnata modern yn cael eu defnyddio gan Catch22 wneud defnydd o'r hashnod #yagym fel rhan o'u marchnata ac i gyrraedd cynulleidfa Gymraeg – ni fyddai hyn wedi digwydd heb y prosiect.<br><br>Cynhaliodd Catch 22 noson arbennig ar gyfer Santes Dwynwen. Roedd y noson yn cynnwys bwydlen arbennig a telynores lleol yn cynnal adloniant gyda naws Gymreig a rhamantus. | |
| 3. Cynnal cynllun Ymwybyddiaeth Iaith Gwaith gyda hyd at 10 o bobl ifanc mewn 2 ysgol Uwchradd gyda'r nod o hyrwyddo manteision y Gymraeg mewn busnes yn eu dalgylchoedd nhw erbyn Medi 2017 | **Chwarter 1**<br>Cyfarfod cychwynnol gyda Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch a chriw o Fodedern.<br>Oherwydd gofynion arholiadau, Eisteddfod a gwyliau haf bydd hwn yn parhau yn yr Hydref. | |
| | **Chwarter 2** | |
| | **Chwarter 3**<br>Penodiad newydd rôl Swyddog Cymraeg a'r Sector Breifat (LLC) yn cynnig cyfle i gydweithio ar y cynllun hwn.  Cyfnod hyfforddiant ar hyn o bryd, gan gynnwys hyfforddiant creu cynnwys digidol fydd yn arf dda i addysgu'r bobl ifanc all wedyn fynd ati i greu cynnwys digidol ar fusnesau sy'n llwyddo yn y Gymraeg, yn ogystal â busnesau sy'n newydd i'r Gymraeg drwy gymorth y Swyddog newydd. | |
| | **Chwarter 4** | |
| **Pa dystiolaeth ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i waith gwerthuso'r gweithgareddau/prosiectau a wnaed gennych e.e. astudiaethau achos, canlyniadau holiaduron ayyb.**<br>***Os yn cyflwyno tystiolaeth fel atodiadau, nodwch eu teitlau isod).*** | | |

**Astudiaeth Achos - Busnes** Prosiect #Croeso Cymraeg...
Lansiwyd CroesoCymraeg nol ym mis Gorffennaf 2017 er mwyn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ymysg busnesau yn lleol i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern yn ystod mis Awst eleni.

Agorodd Catch 22, Y Fali ei ddrysau am y tro cyntaf yn gynharach yn 2017. Yn fusnes teulu wedi ei sefydlu gan gogydd lleol, Neil Davies, ei bartner Mel Harley, a'i chwaer hi Ellie – mae eisoes wedi ennill ei blwyf fel un o fwytai poblogaidd yr ynys.
Wrth sefydlu'r bwyty roedd Neil a'i tîm yn awyddus i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael lle amlwg, ond heb yr hyder yn eu sgiliau iaith i wneud hynny yn llawn.
Roedd Croeso Cymraeg yn gyfle delfrydol iddynt felly ddefnyddio'r Gymraeg yn y busnes a chael cefnogaeth ymarferol i wneud hynny.
Meddai Neil: "Gyda'r Eisteddfod ychydig filltiroedd i fyny'r ffordd o'r bwyty, roedd yn ysgogiad i ni feddwl o ddifri am sut oeddem am sicrhau bod ni'n defnyddio mwy ar y Gymraeg yma.
"Trwy'r prosiect cawsom gymorth i gyfieithu ein bwydlenni a'n deunyddiau marchnata a chodi ymwybyddiaeth a chodi hyder ymysg ein staff. Heb os fe wnaeth wahaniaeth i ni yn ystod wythnos yr Eisteddfod – gyda nifer o'n cwsmeriaid yr wythnos honno, ac yn bwysicach, ers hyn-ny yn gwneud sylw am ba mor falch oeddent o'r gwasanaeth Cymraeg yn Catch 22."
"Rydym yn falch iawn o'n hardal ac o ddefnyddio cynnyrch lleol o Ynys Môn. Gyda'n staff i gyd yn lleol hefyd - mae'n gwneud synnwyr felly i sicrhau bod y Gymraeg sydd yn rhan mor bwysig o fywyd yr ynys yn cael lle amlwg yn y bwyty."

**Yr Iorwerth Arms**
Tŷ tafarn gymunedol yw'r Iorwerth, wedi ei brynu gan drigolion pentref Bryngwran, Ynys Môn yn 2015. Bellach mae'r dafarn yn hwb cymunedol ac yn ganolbwynt i weithgareddau yn y pen-tref.
Mae defnyddio'r Gymraeg wedi bod yn rhan bwysig a chanolog o'r busnes ers y cychwyn cyntaf. Mae gigs a digwyddiadau yn cael eu cynnal yn yr Iorwerth yn rheolaidd ac mae'r rhan fwyaf oh-onynt yn digwydd yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg.
Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn lleol yn 2017 – gwelodd y tîm gyfle i hyrwyddo'r dafarn ac i greu wythnos o ddigwyddiadau. Roeddent yn awyddus i fanteisio ar gynllun Croeso Cymraeg i godi ymwybyddiaeth o'u defnydd o'r Gymraeg ac i annog eraill i siarad Cymraeg yn y dafarn.
Penderfynwyd felly i wneud cynnig arbennig i ddysgwyr, gyda diodydd am bris gostyngol wrth archebu yn Gymraeg.
Yn ôl Neville Evans, cadeirydd Pwyllgor yr Iorwerth: "Rydym wedi ein lleoli mewn cymuned Gymraeg yma ym Mryngwran – ac felly roedd

gwneud yn siŵr bod nes a'r ffordd rydym yn gweithio o ddydd i ddydd yn beth gwbl naturiol.
"Roedd yr Eisteddfod yn gyfle gwych i ni hyrwyddo'r Iorwerth ac yn sgil hynny roedd cynllun Croeso Cymraeg yn gwneud gwaith pwysig o godi ymwybyddiaeth o'r manteision o ddefnyddio Cymraeg mewn busnes. I ni mae'n gwbl naturiol ac yn adlewyrchu'r gymuned 'rydym yn rhan ohoni ac yn ffordd o ddangos parch at ein cwsmeriaid."

**Chwarter 4**

Ynys Môn Cakery- yn siarad am ymgyrch Santes Dwynwen 2018 a dod yn gyntaf yn y gystadleuaeth arddurno ffenest
Dywedodd y perchennog Vicky Roberts "Roeddem yn falch iawn ein bod wedi dod yn gyntaf. Rydym yn ceisio defnyddio'r Gymraeg yn ein busnes pan fo'n bosibl. Mae'n braf gweld cystadlaethau fel hyn yn y dref. Fe wnaethon ni y mwyaf o Ddiwrnod Santes Dwynwen a chynnig pris arbennig am focs o chwe theisen, anrheg gret i berson arbennig."

| **Maes Strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg**<br><u>Y Canlyniad a ddymunir:</u><br>Mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny. | | |
|---|---|---|
| **Targedau (ar ffurf CAMPUS)** | **Cynnydd** | **Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na** |
| 1. Cydweithio gyda 10 o leoliadau gofal plant er mwyn cefnogi eu defnydd o'r Gymraeg gan ddatblygu pecynnau adnoddau a chefnogaeth bwrpasol ar eu cyfer erbyn Mawrth 2018. | **Chwarter 1**<br>**Cyfarfod cyntaf MIM – Neuadd y Dref.**<br>Sefydlu gweithgor strategol i ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth yn y Gymraeg i'r oed cyn-ysgol. Cydweithio â CSYM gan wahodd partneriaid strategol megis MYM, Cymraeg i Blant, Dechrau'n Deg, Llyfrgelloedd, Dysgu Cymraeg, Siarter Iaith. Sicrhau fod y gwaith yn bwydo i Fforwm Iaith Ynys Môn. | |
| | **Chwarter 2**<br>**26/7/2017 Rhyddhau Drafft Fframwaith Strategol**<br>Wedi cydweithio gyda Swyddog o CSYM, i gloriannu mewnbwn y partneriaid, rhyddhau Drafft Fframwaith Cymraeg i Deuluoedd Môn.<br><br>**26/7/2017**<br>Cynnal cyfarfod strategol defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau plant. Cydlynu cyfarfod rhwng CSYM/Dechrau'n Deg BWJ a Phrifysgol Bangor - Dysgu Cymraeg IG - i adnabod y cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg a chodi hyder defnyddio Cymraeg i staff meithrinfeydd Dechrau'n Deg & | |

| | | |
|---|---|---|
| | at Môn.<br>**13/9/2017 Cadarnhau Camau Gweithredu'r Bartneriaeth CID.**<br>Ail gyfarfod y bartneriaeth i gytuno ar meysydd cydweithio ag amserlen i wneud mwy i hwyluso mynediad at y Gymraeg i deuluoedd. | |
| | **Chwarter 3**<br><br>**4/10/17 Cyflwyniad i staff hyfforddi blynyddoedd cynnar Coleg Llandrillo Menai**<br>Cyflwyno'r staff hyfforddi blynyddoedd cynnar i'r adnoddau a'r ddarpariaeth gall MIM eu cynnig gan gynnwys Selog, ymwybyddiaeth iaith, a chyfleoedd gwirfoddoli/profiad gwaith gyda MIM.<br><br>**1/11/17 - Cydweithio ag asiantaethau yn targedu difreintedd yn Amlwch**<br>Cyflwyno gwybodaeth o'r stondin i aelodau'r cyhoedd, a chyfathrebu gwasanaeth MIM ac adnoddau Cymraeg perthnasol i bartneriaid yn bresennol mewn digwyddiad i gefnogi pobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.<br><br>**29/11/17 - Cydlynu Cyfarfod Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd**<br>Gweler y diweddariad ar y camau gweithredu - mae'r bartneriaeth hon eisoes wedi ennill ei phlwy gyda sawl esiampl bellach o gydweithio mwy effeithio a chyflawni mwy ar y cyd nag asiantaethau unigol. Mae esiamplau yn cynnwys:<br>• Rhannu cynlluniau rhwng MIM, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg i adnabod cyfleoedd cyd-weithio, osgoi dyblygu a clash dyddiad/amser/lleoliad.<br>• Cyfleodd sydd wedi codi yw gwahoddiad gan Siarter Iaith a Chyngor Sir Ynys Môn i MIM gyflwyno adnoddau a chyfleodd Cymraeg i ysgolion/teuluoedd/cymunedau mewn 2 gyfarfod 5/10 - un i benaethiaid ac un i gydlynwyr Siarter Iaith yr ysgolion a'r dalgylch.<br>• Cyflwyno Dechrau'n Deg a'r Gwasanaeth Maethu i gyfleoedd Cymraeg yn y Gweithle gan gynrychiolydd Dysgu Cymraeg.<br>• Gwahoddiad i MIM gyflwyno ymwybyddiaeth iaith i rieni maeth.<br>• Cyfle i gyfuno amcanion cynllun chwarae Cyngor Sir Ynys Môn gyda chodi hyder a rhannu | |

| | | |
|---|---|---|
| | dda defnydd o’r Gymraeg yn y teulu.<br>• Gwahoddiad gan CSYM i MIM roi hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith i ddarparwyr gofal blynyddoedd cynnar yr ynys.<br><br>**20/11/17 & 21/11/17 - 3 sesiwn hyfforddiant i staff Blynyddoedd Cynnar Môn**<br>Yn hytrach na mynychu lleoliadau unigol – gweithredwyd yn fwy strategol.<br>**Hyfforddi tua 70 o ymarferwyr blynyddoedd cynna**r gyda 2 sesiwn i ymarferwyr Cymraeg neu ddwyieithog a’r 3ydd sesiwn ar gyfer ymarferwyr di-Gymraeg.<br>Hyfforddiant yn cynnwys ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau’r Llywodraeth, disgwyliadau rhieni am blant dwyieithog, a’r gefnogaeth sydd ar gael gan gynnwys adnoddau trochi yn y Gymraeg hyd yn oed i ymarferwyr di-Gymraeg ee Cyw S4C, apiau, cds cerddoriaeth ayb.<br>Yr ymateb yn gadarnhaol iawn gan gynnwys cais gan 3 o ddarparwyr di-Gymraeg i gyflwyno ac arddangos i’r staff sut i ddefnyddio apiau Selog a Magi Ann gyda phlant bach. Hefyd yn answyddogol dywedodd pennaeth sydd yn asesu un o’r darparwyr a oedd yn drafferthus ynglŷn â’r Gymraeg fod yr hyfforddiant wedi cael effaith gyda’r staff sy’n medru Cymraeg bellach yn defnyddio eu Cymraeg gyda’r plant a bod y rheolwraig ddi-Gymraeg wedi canmol yr hyfforddiant ac yn awyddus i ddangos eu bod yn defnyddio’r adnoddau.<br><br>Roedd y mynychwyr yn cynnwys darparwyr o leoliadau ar draws yr ynys (Mudiad Meithrin, PPA, meithrinfeydd preifat) yr unig fylchau amlwg oedd darparwyr blynyddoedd cynnar Dechrau’n Deg Caergybi canolfan Jesse Owens a Anglesey Childcare dan ofal MonCF yng Nghaergybi (Communities First - Bellach Communities Forward).<br>Mae’r cynnig wedi ei wneud eisoes i hyfforddi’r staff yma yn y safle gwaith i sicrhau fod y mwyafrif llethol o ddarparwyr Môn wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith sy’n arwain at ddefnyddio mwy o Gymraeg llafar yn ogystal â defnyddio technegau ac adnoddau er mwyn trochi’r plant yn fwy effeithiol yn y Gymraeg er mwyn arwain at ddwyieithrwydd rhugl. | |
| | **Chwarter 4** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **19/2/18 - Cyflwyniad am gynnal dwyieithrwydd yn y teulu a'r gymuned i gymorthyddion Llanfairpwll**<br>Ymatebwyd i bryder rhieni am leihad yn y Gymraeg ar yr iard/chwarae cymunedol, a'r pennaeth i hyfforddi cymorthyddion yr ysgol er mwyn sicrhau cefnogaeth gadarn i gynnal y Gymraeg. Dealltwriaeth a chefnogaeth dda o drochi yn y dosbarth ond diddordeb yn yr adnoddau newydd megis apiau a'r rhesymu i ddefnyddio gyda phlant i annog y plant sy'n medru'r Gymraeg i'w rannu gydag eraill er mwyn cynnig cyfle cyfartal i ddod yn ddwyieithog i blant o gartrefi di-Gymraeg. Hyfforddi 11 cymhorthydd.<br><br>**21/2/18 - Fforwm Teuluoedd - Cyfarfod i adolygu ein camau gweithredu ar y cyd.**<br>Mae'r Fforwm Cymraeg i deuluoedd bellach wedi ennill ei blwy fel fforwm i drafod darparu gwasanaethau heb ddyblygu a chan hyrwyddo cydweithio. Cofnod o Gamau Gweithredu diweddaraf y Fforwm ar gael. Yr aelodau bellach yn cynnwys: Menter Iaith, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Dechrau'n Deg, CSYM - Addysg, CSYM - Teuluoedd Môn, Maethu Môn, Siarter Iaith Môn, Coleg Menai GLLM, a Dysgu Cymru. Materion trafod diweddaraf yw sut i gefnogi MM wrth sefydlu 2 gylch newydd ar yr ynys a recriwtio ar gyfer Clwb Cwtsh, sut i gydweithio gyda Dysgu Cymraeg ar gyfer Cymraeg i Deuluoedd, a sut i godi ymwybyddiaeth iaith ymhlith staff Dechrau'n Deg Caergybi a darparwyr preifat, sut i gefnogi ysgolion ar eu hagwedd cymunedol o'r Siarter Iaith, sicrhau cydweithio pan mae gorgyffwrdd rhwng gweithgareddau ee Cymraeg i Blant / Dechrau'n Deg / CSYM / Menter Iaith.<br><br>**27/2/18 - Hyrwyddo defnydd o apiau Cymraeg – Selog & Magi Ann – ar y cyd gyda Macsen – gwasanaeth Cymraeg gwasanaeth iechyd Betsi Cadwaladr.**<br>Cyfle i gyd-weithio gyda'r Bwrdd Iechyd wrth iddynt hyrwyddo gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio eu cymeriad - draig o'r enw Macsen. Cyfle i hyrwyddo apiau / adnoddau Cymraeg at ddefnydd plant yn eu gwlâu yn Ward y Plant ar y diwrnod ond hefyd i'r staff cefnogol. Trafod gydag uned Gymraeg yr awdurdod am 2 hanes yn ein cyrraedd drwy rieni am ymwelwyr | |

ynghori rhieni i beidio parhau gyda'r Gymraeg er mwyn peidio amharu a datblygiad plentyn (cf barn arbenigwr ar ddwyieithrwydd Yr Athro Colin Baker). Nid am fynd ar ôl unigolion ond yn hytrach cynnig sesiwn ymwybyddiaeth iaith fel rhan o hyfforddiant ymwelwyr iechyd. I'w drefnu 2018/19. Yr Awdurdod yn cadarnhau nad oes neb chwaith yn cyflawni rôl Twf o ran sesiynau ymwybyddiaeth iaith / darbwyllo siarad Cymraeg os yn bosib, gyda darpar-rieni. O weithio ar lawr gwlad - adnabod ei fod yn llawer anoddach newid arfer nag ydi o i lywio barn cyn dechrau - trafodaeth bellach mentrau iaith / Mudiad / Cymraeg i Blant / Awdurdodau Iechyd & Llywodraeth?
[Data Trydar: argraffiadau 2570 & Ymwneud 36 (total engagement)]

**15/1/2018 - Benllech Playgroup**
Yn dilyn yr hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff, gwahoddiad i arddangos defnydd o'r adnoddau a'r potensial o ddefnyddio apiau Selog a Magi Ann. Cyfle da i gyflwyno mwy o Gymraeg i'r ddarpariaeth ym Menllech sydd bellach heb Gylch Meithrin.
[Data Trydar: 2909 argraffiadau & Ymwneud 18 (total engagement). Facebook: cyrraedd 1108& Clicio ar y neges 157 & Rhannu/ ymateb 10.]

**16/1/18 - Rhieni Maeth – hyfforddiant ar gefnogi plant dwyieithog (targedu)**
Prinder teuluoedd sy'n medru'r Gymraeg i faethu ym Môn, felly'r mwyafrif o blant mewn cartrefi di-Gymraeg ag eto angen cefnogaeth wrth fynychu ysgolion dwyieithog. Yr hyfforddiant mwyaf heriol eleni, wrth i ddau deulu di-Gymraeg ategu ystrydebau am y Gymraeg mewn ysgolion ee cosbi am beidio siarad Cymraeg ar yr Iard / dim yn cael mynd i doiled / problemau cymdeithasol yn deillio o beidio siarad Cymraeg ayb. Yn yr un modd un yn cwestiynu'r angen i ddysgu Cymraeg o gwbl os am gyflogau uwch yn Llundain. Ag eto gyda ffeithiau parod, cyfle gwych i wyntyllu'r ofnau / pryderon ac i ddiweddu gyda chynulleidfa nad oedd yn teimlo cymaint o fygythiad ac yn barod i ddefnyddio adnoddau Cymraeg. Nifer yn cysylltu'n unigol wedyn drwy e-bost am gefnogaeth neu eglurhad ar faterion yn ymwneud a'r Gymraeg. ee "I am interested in Welsh for adults, if you do put on a course. My husband is a Welsh speaker so the Welsh Language is encouraged with the

care. Many thanks." "I found your presentation very interesting and really worthwhile, especially as I currently have a child in my care being taught through the medium of Welsh at Ysgol David Hughes. I previously had a child with me for 3 full years at Ysgol Morswyn, and it was a point of interest for me that the children were speaking Saesneg in the playground, but my experience was far different than some experiences shared this morning, because the school operated a theme of "Encouraging the children to use Welsh during the break times", rather than any form of pressure or discipline. I thought they had a good balance in their management of the situation, and also provided a setting for Welsh learning for parents."
Mae'r cwestiwn am sut yr ydym am gefnogi rhieni maeth (ymddengys canran uchel yn unigolion heb fagwraeth yng Nghymru – felly angen fwy o gefnogaeth i gynnal plant mewn addysg ddwyieithog) a rhieni 'Home Schooling' yn rhywbeth i'w drafod yn genedlaethol gyda Mentrau Iaith eraill.

**22/1/18 - Llandegfan Playgroup**
Eto yn dilyn hyfforddiant, gwahoddiad gan y staff i arddangos defnydd o apiau er mwyn cynyddu'r defnydd o Gymraeg yn y ddarpariaeth.
[Data Trydar: argraffiadau 1467 & Ymwneud 36 (total engagement). Facebook: cyrraedd 923 & Clicio ar y neges 76 & Rhannu/ ymateb 21.]

**29/1/18 - Parc y Bont Meithrin**
Yn dilyn cefnogaeth drwy gynnal stondin yn ffair yr ysgol, gwahoddiad i arddangos defnydd o apiau yn y Cylch Meithrin. Un aelod o staff yn ddysgwraig cynnar ac am elwa yn fawr o ddefnyddio ap Selog & Magi Ann i sicrhau modelu iaith gywir i'r plant.
[Data Trydar: argraffiadau 1590 & Ymwneud 37 (total engagement). Facebook: cyrraedd 992 & Clicio ar y neges 123 & Rhannu/ ymateb 28.]

**Pa dystiolaeth ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i waith gwerthuso'r gweithgareddau/prosiectau a wnaed gennych e.e. astudiaethau achos, canlyniadau holiaduron ayyb.**
***Os yn cyflwyno tystiolaeth fel atodiadau, nodwch eu teitlau isod).***

O ganlyniad i sefydlu grŵp o bartneriaid sy'n gweithio i gefnogi teuluoedd ac hefyd y Gymraeg, mae fframwaith cefnogi troglwyddo'r Gymraeg wedi ei chreu gyda phartneriaid yn cytuno ar bwyntiau gweithredu a ffyrdd gydweithio effeithiol. Bydd y fframwaith hon yn gweithredu fel is-gynllun ar gyfer y Strategaeth Sirol, ac yn cyfrannu at y weledigaeth yn ehangach, yn dwyn y teitl : **Copi Fframwaith Cymraeg Teuluoedd**

Gweler hefyd :

**Canlyniadau Sesiynau Ymwybyddaieth Iaith cychwyn siwrne Uwchradd (bl7) Môn (Bodedern, Caergybi, Amlwch – yn gyflawn)**
**Gwerthusol Cynllun Teuluoedd Môn**
**Gwerthuso Clapio Wyau**

DATGANIAD

Yr wyf yn gwneud hawliad ar ran **Menter Môn** ar gyfer grant sydd yn ddaliadwy o dan y rhaglen grant isod. Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred:

a) Mae'r wybodaeth a roddir yn gywir.

b) Mae'r grant sydd yn cael ei hawlio o fewn terfynau gwariant a gymeradwywyd

c) Rwyf gyda'r hawl awdurdodedig i gyflwyno a hawlio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ran y sefydliad a enwir uchod

ch) Rwyf wedi cynnwys Ffurflen hawlio taliad cyllidol a dangosyddion (Atodiad 1 a 2) gyda'r ddogfen hon.

| | |
|---|---|
| Enw (Printiedig): Dafydd Gruffydd | Swydd: Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Dyddiad: 06/04/18 | |